------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Ionawr 2016

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Sarah Beasley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCLLL@Cynulliad.Cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17 - y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

(09.00 - 10.30) (Tudalennau 1 - 82)

Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Jo Salway, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol

Amelia John, Dirprwy Gyfarwyddwr, Dyfodol Tecach

Eleanor Marks, Is Adran Cymmunedau, Dirpwy Cyfarwyddwr

John Howells, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio

**Egwyl (10.30 - 10.45)**

## 3 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17 - y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

(10.45 - 11.45) (Tudalennau 83 - 118)

Ken Skates AC, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Manon Antoniazzi, Cyfarwyddwr, Twristiaeth, Diwylliant a Chwaraeon

Huw Davies, Pennaeth Cyllid, Twristiaeth, Diwylliant a Chwaraeon

4 **Papurau i'w nodi**

(Tudalennau 119 - 122)

5 **Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

6 **Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17: y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth a'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth - trafod y dystiolaeth**

(11.45 - 12.00)

7 **Ystyried Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o ran y Bil Tai a Chynllunio: rhyddfreinio ac estyn prydlesau hir**

(12:00-12:15) (Tudalennau 123 - 130)

8 **Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17: ystyried llythyrau drafft at Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**

(12.15 - 12.30)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi sylwadau a gwybodaeth i'r Pwyllgor am y portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi (CTP) a chynigion ar gyfer cyllidebau'r rhaglenni yn y dyfodol a amlinellwyd yn y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd ar 8 Rhagfyr 2015. Mae'r cynigion hyn yn adlewyrchu maint y portffolio ar hyn o bryd, gan gynnwys Tai ac Adfywio.

Yn unol â chais y Pwyllgor, mae Atodiad A yn rhestru ffigurau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer Prif Grŵp Gwariant (MEG) CTP, fesul Cam Gweithredu a fesul Llinell Wariant pob Cam Gweithredu yn y Gyllideb

## 2. Cefndir

Daw llinellau sylfaen dangosol 2016-17 o Gyllideb Atodol Gyntaf 2015-16 heb gynnwys newidiadau anghylchol. Cafwyd cyllid anghylchol o £4.9m yn DEL Refeniw mewn perthynas â Digartrefedd a chyllid anghylchol o £120.020m yn DEL Cyfalaf, mewn perthynas â 'Cymorth i Brynu' yn bennaf. Bydd cyfanswm y newidiadau a gynigir ar gyfer MEG CTP yn 2016-17 yn golygu gostyngiad o £3.022m, i gyd yn DEL Refeniw.

Dengys y tablau canlynol yr effaith gyffredinol ar gyllideb sylfaenol Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) CTP.

**Tablau Ariannol Cryno:**

| **MEG CTP** | Cyllideb Atodol 2015-16 £000 | Cyllideb Ddangosol 2016-17 £000 | Newidiadau 2016-17 £000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|---|
| DEL Adnoddau | 341,514 | 336,614 | -3,022 | 333,592 |
| DEL Cyfalaf | 395,420 | 275,420 | 68,311 | 343,731 |
| Llinell Sylfaen DEL | 736,934 | 612,034 | 65,289 | 677,323 |

O fewn MEG cyffredinol CTP, yr elfennau penodol ar gyfer y Pwyllgor yw Cymunedau, Cydraddoldeb, Tai ac Adfywio. Ceir crynodeb o'r elfennau hynny yn y tabl isod.

| **Cefnogi Cymunedau a Phobl** | Cyllideb Atodol 2015-16 £000 | Cyllideb Ddangosol 2016-17 £000 | Newidiadau 2016-17 £000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|---|
| DEL Adnoddau | 216,130 | 211,230 | -2,076 | 209,154 |
| DEL Cyfalaf | 384,470 | 275,420 | 65,311 | 340,731 |
| Llinell Sylfaen DEL | 600,600 | 486,650 | 63,235 | 549,885 |

## 3. Trosolwg o'r Gyllideb

Wrth baratoi ar gyfer cyfyngiadau ariannol yn y dyfodol, rydym wedi ceisio targedu buddsoddiad er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau gwario yn parhau i ganolbwyntio ar ein prif flaenoriaethau, sef: iechyd a gwasanaethau iechyd; twf a swyddi; cyrhaeddiad addysgol; a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Mae'r papur hwn yn ymdrin â'r flaenoriaeth olaf yn bennaf.

Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig ag amseriad hwyr Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant, rydym wedi defnyddio'r broses o gynllunio Cyllideb Ddrafft 2016-17 fel cyfle i edrych i'r dyfodol er mwyn targedu buddsoddiad mewn canlyniadau cynaliadwy a mabwysiadu'r pum ffordd allweddol o weithio a nodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin i gyrff cyhoeddus drwy bennu saith nod llesiant i Gymru, ac mae'r pum ffordd o weithio yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn arddel safbwynt hirdymor wrth wneud penderfyniadau; eu bod yn ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn atal problemau rhag codi yn y dyfodol neu atal problemau presennol rhag gwaethygu; eu bod yn mabwysiadu dull integredig a chydweithredol o wneud penderfyniadau; a'u bod yn cynnwys defnyddwyr yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

## 4. Rhaglen Lywodraethu

Yn ôl yn 2011, cyflwynwyd y Rhaglen Lywodraethu fwyaf uchelgeisiol a chynhwysfawr gennym ers datganoli, sydd bellach yn cynnwys 547 o ymrwymiadau ar wahân sy'n rhychwantu'r holl wasanaethau rydym yn gyfrifol amdanynt. Gwnaethom hynny gan wybod bod y rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus yn heriol.

Bu ymdrin â chyni cyllidol yn brawf mawr i Lywodraeth Cymru a datganoli yn gyffredinol, ond rydym wedi gwneud gwahaniaeth drwy gadw ffocws cadarn ar gyflawni a chefnogi'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf. Rydym wedi gwneud hyn drwy bennu pedair blaenoriaeth gyffredinol ar ran pobl Cymru, o ran iechyd a gwasanaethau iechyd, cyrhaeddiad addysgol, twf a swyddi a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. O ran pob un o'r blaenoriaethau allweddol hyn, rydym wedi canolbwyntio ein hadnoddau er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Fel Llywodraeth, rydym hefyd yn dal yn ymrwymedig i egwyddor tryloywder fel bod modd barnu'r Llywodraeth hon ar sail ei record. Ers 2011, rydym wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol i roi cyfrif tryloyw o'r hyn sy'n cael ei wneud a'r hyn sy'n cael ei gyflawni yn erbyn ein 547 o ymrwymiadau sy'n cael eu mesur drwy 336 o ganlyniadau a dangosyddion perfformiad.

Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol terfynol y Rhaglen Lywodraethu ym mis Mehefin 2015 a ddangosodd fod mwy na 95 y cant o'n hymrwymiadau wedi cael eu cyflawni, neu ein bod ar y trywydd cywir i'w cyflawni.

Mae gan yr Adran nifer o flaenoriaethau penodol a oedd yn adlewyrchu ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, y bydd llawer ohonynt yn parhau yn 2016-17, ac yr ymdrinnir â hwy yn fanylach yn yr adrannau polisi isod:

- trechu tlodi a hyrwyddo cydnerthu cymunedol gan gynnwys Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf;
- lleihau effaith diwygio lles;
- cynyddu cynhwysiant ariannol a digidol, gan gynnwys Gwasanaethau Cynghori, Undebau Credyd a'r Gronfa Cymorth Dewisol;
- cefnogi teuluoedd a phlant, yn enwedig drwy Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf;
- cefnogi datblygiad y Trydydd Sector, gwella ei gydberthynas strategol â'r Llywodraeth a sicrhau y gall barhau i gyfrannu at gydlyniant cymunedol a threchu tlodi;
- atal digartrefedd;
- cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru;
- mynd i'r afael â phroblem tai gwag;
- gwella ansawdd y stoc dai yng Nghymru;
- galluogi mwy o bobl i aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy, a lleddfu'r pwysau ar ein portffolios iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;
- datblygu cymunedau llewyrchus, hyfyw a diogel y gall pobl Cymru fyw ynddynt, eu mwynhau a chyfrannu at eu lles a'u ffyniant yn y tymor hwy;
- hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant a hawliau plant a phobl ifanc.

Er enghraifft, rydym yn gwneud cynnydd ardderchog tuag at ddarparu 10,000 o gartrefi fforddiadwy yng Nghymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn, gyda 9,108

wedi'u darparu yn ystod pedair blynedd gyntaf tymor pum mlynedd y llywodraeth hon. Mae ein rhaglen Troi Tai'n Gartrefi wedi adfer dros 7,500 o gartrefi gwag hirdymor i'w defnyddio eto yn erbyn y targed o 5,000 mewn pedair blynedd yn unig o'r tymor hwn o bum mlynedd. Drwy ddiogelu rhaglenni hollbwysig megis rhaglen Cefnogi Pobl rydym wedi cydnabod y cyfraniad pwysig a wna gofal cymdeithasol i'r bobl fwyaf agored i niwed, boed hynny oherwydd henaint, anabledd neu'r angen i ddiogelu plant. Mae'r rhaglen hon nid yn unig yn rhoi cymorth tai i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed ac wedi'u hallgáu fwyaf o gymdeithas yng Nghymru mae hefyd yn helpu unigolion a theuluoedd sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref i ddod o hyd i'w cartref a'i gadw a byw'n annibynnol, yn ogystal â gwneud cyfraniad allweddol i'n hagenda Trechu Tlodi. Mae'r rhaglen yn enghraifft o'r camau gweithredu y gellir eu cymryd i atal neu leihau'r angen am ymyriadau mwy costus gan y GIG a/neu ofal cymdeithasol. Mae'n helpu unigolion a theuluoedd ac, mewn rhai achosion, yn cefnogi pobl sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol

Mae dyraniadau'r gyllideb yn seiliedig, i raddau helaeth, ar dystiolaeth a gafwyd o raglenni ymchwil a gwerthuso. Rydym yn gosod pwyslais cynyddol ar Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) sy'n llywio'r ffordd rydym yn gweithio'n fwy cyffredinol. Er enghraifft, bydd Astudiaeth Hydredol Cefnogi Pobl yn ffynhonnell o ymchwil annibynnol a fydd yn ein galluogi i werthuso cyflawniadau'r rhaglen a meithrin dealltwriaeth o effaith fyrdymor a hirdymor y rhaglen ar bobl a chymunedau yng Nghymru. Roedd canlyniadau cynnar ein hastudiaeth ddichonoldeb, a ddefnyddiodd ddata o'r rhaglen Cefnogi Pobl a data'r GIG mewn dwy ardal awdurdod lleol yn galonogol iawn. Dengys yr adroddiad ostyngiad hirdymor cyffredinol yn y defnydd o wasanaethau meddygon teulu gan y mwyafrif o'r grwpiau defnyddwyr ar ôl iddynt gael cymorth o dan y rhaglen; gwelwyd patrymau tebyg yn y defnydd o Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys gan rai grwpiau defnyddwyr.

Rydym hefyd yn datblygu dull mwy strategol o werthuso'r ffordd rydym yn cyflawni canlyniadau dysgu a thlodi ar draws y portffolio. Bydd hyn yn cynnwys integreiddio rhaglenni a ddatblygwyd yn flaenorol ym mhortffolios Gweinidogol gwahanol yn agosach.

## 5. Polisïau allweddol

<u>Trechu Tlodi</u>

Roedd y cyfraniad i Drechu Tlodi yn ffactor amlwg wrth benderfynu ar y newidiadau y dylid eu gwneud rhwng y gyllideb ddangosol ar gyfer 2016-17 a'r gyllideb ddrafft. Mae pwyslais mawr ar sicrhau bod y blaenoriaethau cywir yn cael sylw parhaus er mwyn gwella canlyniadau i deuluoedd incwm isel a'n bod yn cyflawni'r targedau a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Rhan bwysig o'r gwaith hwn yw dwyn ynghyd randdeiliaid gwahanol o'r sector

cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector er mwyn sicrhau y caiff adnoddau ac arbenigedd eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl. Mae hyn yn allweddol i sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu rhannu gan bartneriaid, bod ymyriadau'n ategu ei gilydd a bod modd osgoi dyblygu. Mae'r gyllideb o £140,000 at y diben hwn yn cael ei chynnal. Er mwyn gwella effeithlonrwydd cyllidebol, bydd gweithgareddau a gefnogir o dan BEL Diwygio Lles yn cael eu huno â BEL Trechu Tlodi. Bydd y gyllideb yn cael ei chynnal ar lefelau 2015/16, gyda'r grant cylchol o £79k ar gyfer hyfforddiant lles i Awdurdodau Lleol yn cael ei drosglwyddo i BEL Trechu Tlodi.

Cymunedau yn Gyntaf

Mae Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen allweddol o fewn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Ymhlith y newidiadau a wnaed i'r rhaglen yn 2012 roedd lleihau nifer yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf o fwy na 150 i'r 52 o Glystyrau a welir ar hyn o bryd, wedi'u rheoli gan 19 o Gyrff Cyflawni Arweiniol. Mae hyn wedi galluogi'r ardaloedd hynny i rannu mwy o adnoddau ac wedi arwain at lai o gostau gweinyddol, yn unol ag argymhellion blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'r Clystyrau yn cynnwys pob un o'r 10% o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (yn seiliedig ar ddata Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011) ynghyd â rhai ardaloedd cyfagos. Mae 24% o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf, ond mae'r Rhaglen yn amlwg yn canolbwyntio nawr ar y bobl fwyaf difreintiedig yn yr ardaloedd hynny er mwyn i adnoddau gael eu targedu at y rheini sydd eu hangen fwyaf.

Yn unol â'n hymrwymiad i drechu tlodi, rydym wedi diogelu cyllid ar gyfer rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r rhaglen hon yn gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau gwelliannau i iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd o fewn y 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru gyda'r nod hirdymor o gyfrannu at leihau tlodi parhaus. Yn unol â'n hegwyddor o ran atal mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar wella Cyrhaeddiad Addysgol, gwella Iechyd a Lles, a chynyddu ffyniant a chyflogaeth, gyda phwyslais penodol ar leihau diweithdra ieuenctid.

Mae seilwaith Cymunedau yn Gyntaf wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth fel sylfaen ar gyfer rhaglenni a gweithgareddau eraill, gan ei gwneud yn bosibl iddynt leihau eu costau eu hunain a galluogi partneriaid allweddol i ymgysylltu'n fwy uniongyrchol ac effeithiol â chymunedau difreintiedig a chael mwy o effaith yn gyflymach. Ymhlith yr enghreifftiau bu treialu "Ychwanegu at Fywyd" (gwiriad iechyd a lles Llywodraeth Cymru i bobl dros 50 oed) a datblygu gwaith ar sail chwaraeon mewn cymunedau gan GemauStryd. Bydd hefyd yn parhau â'i hymrwymiad i Raglen Esgyn yn llawn, sy'n cael ei rhoi ar waith mewn naw ardal, yn seiliedig ar ddeuddeg o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf, ledled Cymru.

Mae Rhaglen Esgyn yn adlewyrchu'r ymrwymiad yng Nghynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru i gynnig 5,000 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl sy'n byw mewn aelwydydd heb waith erbyn diwedd 2017. Bu Esgyn yn hynod lwyddiannus ac yn ddiweddar cyrhaeddodd y garreg filltir hanner ffordd o ddarparu 2,500 o gyfleoedd i bobl o aelwydydd heb waith. Erbyn 31 Hydref, roedd 2,572 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth wedi cael eu darparu, gan gynnwys helpu 472 o bobl i gael cyflogaeth. Mae'n defnyddio seilwaith prif raglen Cymunedau yn Gyntaf er mwyn lleihau costau gweinyddol a sicrhau bod adnoddau rhaglen Esgyn yn cael eu defnyddio i gefnogi cleientiaid y Rhaglen hyd y gellir.

Mae Cymunedau am Waith, sef un o Raglenni Llywodraeth Cymru, a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) i ddarparu gwasanaethau cymorth cyflogaeth ym mhob un o'r 52 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru, yn gweithredu fel gweithrediad cyflenwol sylweddol iawn, sydd wedi'i integreiddio'n llawn â gweithgarwch presennol Cymunedau yn Gyntaf ym mhob Clwstwr. Mae Cymunedau am Waith yn rhoi cymorth i bobl ddi-waith o fewn Clystyrau er mwyn iddynt ddychwelyd i weithio, gan fynd ati i ymgysylltu â buddiolwyr sydd ymhellaf i ffwrdd oddi wrth y farchnad lafur. Cymeradwywyd y cam cyntaf gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac mae'n darparu buddsoddiad o £30m mewn cymorth cyflogaeth yn y 52 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf - mae hyn yn cynnwys £18m o arian yr Undeb Ewropeaidd. Cymeradwywyd ail gam Cymunedau am Waith ar 14 Hydref 2015 ac mae'n darparu buddsoddiad o £11.2 miliwn mewn cymorth cyflogaeth ar gyfer pobl 16-24 oed sy'n byw mewn Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru - mae hyn yn cynnwys £6.8 miliwn o arian Ewropeaidd.

Mae clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn adrodd ar yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn Fframwaith Canlyniadau o dan dair blaenoriaeth - Ffyniant a Chyflogaeth; Dysgu a Chyflawni Potensial; ac Iechyd a Lles - a chyfres o fesurau perfformiad allweddol cysylltiedig. Drwy fonitro'r mesurau perfformiad a gofnodir gan Glystyrau a Chyrff Cyflawni Lleol, bydd y Cyrff eu hunain a swyddogion yn gallu cymharu'r hyn a gyflawnwyd ymhlith yr holl glystyrau yn ogystal â'r gwariant yr aed iddo. Mae canlyniadau cofnodedig wedi gwella o un flwyddyn i'r llall ac mae data ar berfformiad cenedlaethol ar gyfer 2014/15 ar gyfer mesurau perfformiad allweddol wedi'u cyhoeddi. Mae gwelliannau mewn canlyniadau cofnodedig yn cefnogi blaenoriaethau ar draws ystod eang o weithgarwch Llywodraeth Cymru, yn enwedig portffolios Iechyd ac Addysg. Yn 2014/15 nododd Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf y canlynol:

- cafodd 3,534 o bobl gyflogaeth
- gwellodd 11,050 o blant eu perfformiad academaidd
- gwellodd 6,043 o blant eu presenoldeb yn yr ysgol
- cynyddodd 14,981 eu gweithgarwch corfforol
- cymerodd 3,761 o bobl ran mewn chwaraeon unwaith yr wythnos.

Caiff mesurau perfformiad Cymunedau yn Gyntaf (yn ogystal â Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg) eu dadgyfuno lle y bo'n bosibl er mwyn rhoi dadansoddiad llawnach o'r buddiolwyr yn ôl nodweddion gwarchodedig yn ogystal â'r nifer sydd wedi manteisio ar y ddarpariaeth a gynigiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyflwynwyd adroddiad gan Werthusiad Proses annibynnol o'r Rhaglen fis Chwefror diwethaf. Canfu fod y rhaglen wedi ymateb i raddau helaeth i heriau a wynebai fersiynau blaenorol o'r rhaglen. Mae'r newidiadau a wnaed i ddyluniad y cam diweddaraf hwn o Raglen Cymunedau yn Gyntaf (yn dechrau ym mis Ebrill 2012) wedi ei gwneud yn fwy tebygol, ar y cyfan, y bydd y Rhaglen yn llwyddo i gyflawni ei nodau a gellir monitro cynnydd yn erbyn y rhain yn effeithiol bellach.

Yng ngoleuni polisi a chyd-destun deddfwriaethol sy'n newid yn ogystal â'r cyfyngiadau ariannol a ragwelir, disgwylir i 2016/17 fod yn flwyddyn drosiannol i Cymunedau yn Gyntaf. Er enghraifft, dylai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gyda'i ffocws ar gymunedau cydlynus gael effaith sylweddol ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chymunedau. Mae hyn yn cynnwys lle mae gan Glystyrau gyfran uwch na'r cyfartaledd o siaradwyr Cymraeg, grwpiau lleiafrifoedd ethnig neu bobl eraill â nodweddion gwarchodedig.

Mae trafodaethau cynnar gyda phob un o'r 19 o Gyrff Cyflawni Arweiniol wedi canolbwyntio ar ad-drefnu strwythurau ac adnoddau staff er mwyn sicrhau gwerth am arian. Bwriedir parhau i gydweithio'n agos â'r holl Gyrff Cyflawni Arweiniol gan nodi'n gynnar gyfleoedd i ailgyfeirio cyllid a allai, fel arall, gael ei danddefnyddio (er enghraifft o ganlyniad i swyddi gwag) at brosiectau ac ardaloedd sy'n barod i sicrhau'r canlyniadau sydd eu hangen. Ar y sail hon, disgwylir i Gyrff Cyflawni Allweddol sicrhau canlyniadau sy'n debyg iawn i'r rhai a ragwelwyd yn eu Cynlluniau Cyflawni cyfredol a dylai hefyd fod cyfle i baratoi ar gyfer cyfeiriad y rhaglen a gwaith cysylltiedig â chymunedau yn y dyfodol a rhoi arwydd ohono. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, fwy o weithio gyda'r sector preifat a'r trydydd sector, neu adeiladu ar y model sydd eisoes yn cael ei dreialu gan Sefydliad Young, ac annog cymunedau i ddatblygu dulliau gweithredu arloesol a chefnogi'r rhai mwyaf llwyddiannus.

Bydd ffocws ar weithgareddau craidd yn helpu i ymgorffori canlyniadau sydd, ar hyn o bryd, yn gysylltiedig ag arian cyfatebol y Grant Amddifadedd Disgyblion, yn ddyfnach yn rhaglen graidd Cymunedau yn Gyntaf. Bwriedir i'r penderfyniad i ddileu elfen ar wahân ar gyfer yr arian cyfatebol adeiladu ar y broses gyflawni, gan ymgorffori cydweithio ymhellach fel cynsail ganolog, yn hytrach nag 'ychwanegiad' posibl, tra'n lleihau'r baich, a all fod yn anghymesur weithiau, sy'n gysylltiedig â grant cymharol fach.

<u>Diwygio Lles</u>

Mae asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y diwygiadau lles, sy'n canolbwyntio ar bobl o oedran gweithio, yn amcangyfrif y bydd gostyngiad o tua £900 miliwn yn y budd-daliadau a'r credydau treth blynyddol y gellir eu hawlio yng Nghymru yn 2015/16. I roi'r golled gyffredinol hon yn ei chyd-destun, amcangyfrifir y bydd tua £6 biliwn o wariant ar fudd-daliadau a chredydau treth a £45 biliwn o incwm gwario gros aelwydydd yn 2015/16.

Gellir priodoli tua hanner y golled hon i'r ffordd y caiff budd-daliadau a chredydau treth eu huwchraddio[1]. Mae colledion ariannol mawr eraill yn deillio o leihad yn y llwyth achosion o dan Daliadau Annibyniaeth Bersonol (PIP) o gymharu â Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) a'r penderfyniad i bennu terfyn amser o flwyddyn ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) cyfrannol i'r rheini yn y grŵp gweithgaredd cysylltiedig â gwaith. I'r gwrthwyneb, mae rhai o'r diwygiadau i Fudd-dal Tai (HB) a'r Cap ar Fudd-dal Tai yn arwain at lawer llai o golledion o ran cyfanswm yr incwm yng Nghymru.

Hyd yn oed ar ôl ystyried effaith y newidiadau i bensiynau a threthi personol, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn amcangyfrif y bydd colled flynyddol o dros £700 miliwn yng Nghymru yn 2015/16.

Er na all Llywodraeth Cymru wneud iawn am y diffyg a grëwyd gan y newidiadau o ran diwygio lles, fel y'i nodir yn ein Rhaglen Lywodraethu, mae'n ymrwymedig i fynd ati i leddfu effaith y diwygiadau, ar draws y Llywodraeth, gymaint ag y gall o fewn cyd-destun lleihau cyllidebau. Mae hyn yn cynnwys cymorth a roddir i Awdurdodau Lleol drwy'r gyllideb atal Digartrefedd, sy'n cefnogi'r broses o weithredu'r ddeddfwriaeth newydd ynglŷn â diweithdra. Yn aml, mae atal digartrefedd yn golygu helpu pobl i ddelio â'r problemau a achosir gan, er enghraifft, ôl-ddyledion rhent, y gall gostyngiadau yn y Budd-dal Tai, neu oedi cyn ei gael, fod yn rhan ohonynt.

Mae rhywfaint o'r gwaith lliniaru hwn yn cael ei ariannu drwy'r gyllideb Cymunedau, gan gynnwys cyllid ychwanegol i gefnogi gwasanaethau cynghori a chymorth rheng flaen ar faterion sy'n ymwneud â budd-daliadau lles, fel y'i hamlinellir yn yr adrannau ar Gynhwysiant Ariannol a Chynhwysiant Digidol isod.

Bydd angen llunio meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer budd-daliadau a drosglwyddir a gaiff eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru, o ystyried y newidiadau a gyflwynwyd i fudd-daliadau a chredydau treth gan Lywodraeth y DU. Mae'n bosibl y bydd i'r meini prawf cymhwysedd newydd oblygiadau ariannol i gyllideb Llywodraeth Cymru. Rydym wrthi'n asesu'r cyfryw oblygiadau.

---

[1] Mae'n cynnwys: Newid i uwchraddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau a chredydau treth yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu neu Fynegai Rossi), cap o 1% ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio a chredydau threth (heb gynnwys budd-daliadau anabledd a gofalwyr) a Budd-dal Plant, cynyddu cyfraddau LTLl yn ôl y 30ain ganradd o renti ar y farchnad leol yn hytrach na'r canolrif (yn rhan o ddiwygiadau 2011-12 i'r LTLl), a chynyddu cyfraddau LTLl yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r 30ain ganradd o renti ar y farchnad leol.

Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Rydym wedi diogelu'r gyllideb ar gyfer ein Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant (EIG), sy'n cefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig drwy ei ymrwymiad i drechu tlodi, sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal. Bydd cyllid yn 2016-17 yn parhau i gefnogi'r prosiectau y dyfarnwyd tair blynedd o gyllid iddynt o fis Ebrill 2014. Mae'r Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn cefnogi amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol o ran trechu tlodi, gan ganolbwyntio ar fesurau ataliol ac ymyriadau cynnar i alluogi pobl i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gweithio tuag at sicrhau cyfleoedd a chanlyniadau mwy cyfartal.

Mae cyllid o £0.2m wedi'i gadw hefyd ar gyfer Cydlyniant Cymunedol. Nod y rhaglen yw gweld mwy o gydweithio rhwng Awdurdodau Lleol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a sefydliadau trydydd sector. Mae Cydlyniant Cymunedol hefyd yn gweithio tuag at sicrhau mwy o gyfranogiad ym mywyd y gymuned a chyfle cyfartal gwell i grwpiau na chânt eu clywed yn aml, gan gynnwys Sipsiwn, Teithwyr, ymfudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, gan gefnogi cymunedau sy'n wynebu cyfle anghyfartal yn aml.

Cynhwysiant Ariannol

Mae'r llinell Cynhwysiant Ariannol yn y gyllideb yn cefnogi meysydd gwaith sy'n ymwneud ag Undebau Credyd, Gwasanaethau Cynghori a'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae'r rhain yn elfennau pwysig o'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar ei newydd wedd y cynhelir ymgynghoriad yn ei chylch ar hyn o bryd. Mae'r strategaeth yn nodi sut rydym yn anelu at weithio gyda sefydliadau partner, yng Nghymru ac ar lefel y DU, er mwyn lleihau allgáu ariannol.

Ym mis Mawrth 2014, neilltuwyd £1.9 miliwn o gyllid, wedi'i dapro tan fis Mawrth 2017, i gefnogi'r mudiad Undebau Credyd. Rhoddwyd y cymorth parhaus hwn i Undebau Credyd er mwyn iddynt allu darparu gwasanaethau i'r aelodau hynny o'r gymdeithas sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn ariannol, gan barhau i wella eu cynaliadwyedd eu hunain. Erbyn mis Medi 2015 (hanner ffordd drwy'r prosiect), mae'r cyllid wedi ei gwneud yn bosibl i'r pymtheg Undeb Credyd sy'n rhan o'r prosiect roi dros 14,600 o fenthyciadau gwerth £11.3 miliwn i unigolion sydd wedi'u hallgáu'n ariannol.

Rydym yn cydnabod bod cynaliadwyedd yn fater allweddol i Undebau Credyd ac, er mai sefydliadau annibynnol ydynt, rydym wedi sefydlu grŵp Cydweithredu'r Undebau Credyd er mwyn hwyluso'r broses hon. Oherwydd ein bod yn tapro cyllid, mae cydweithredu (gyda'r nod o gefnogi cynaliadwyedd) yn bwysicach nag erioed bellach ac mae materion megis y gyflogres a'r systemau y mae Undebau Credyd yn eu defnyddio yn allweddol. Efallai y bydd Undebau Credyd yn uno o

ran hyn ac rydym wedi cefnogi achosion o’r fath pan fyddant er budd yr Undebau Credyd a’u haelodau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai Undebau Credyd unigol sy’n rhaid penderfynu a fydd uno er budd eu haelodau. Yn gynharach eleni, cefnogwyd uno Undeb Credyd Hafren ac Undeb Credyd Gogledd Cymru gennym, a fydd yn cynnig sefydlogrwydd mawr ei angen i’r gweithrediad yn y Drenewydd, a bydd yn sicrhau presenoldeb Undeb Credydau o hyd ym Mhowys. Bydd yr Undeb Credyd hefyd yn gweithio gydag Undebau Credyd eraill yn yr ardal.

Rydym wedi parhau i ariannu gwasanaethau cynghori er mwyn cefnogi llawer o bobl yn ein cymunedau y mae’r Diwygiadau Lles yn effeithio arnynt ac sydd fwyaf tebygol o fod yn byw mewn tlodi. Felly, yn amodol ar waith monitro agos pellach a’r penderfyniadau cyllidebol terfynol, rwy’n cynnig y dylid cadw’r lefel bresennol o gyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cynghori yn 2016-17 gan fod effaith rhai agweddau ar y cyllid hwn yn cael ei dangos yn y paragraffau canlynol. Mae gwaith y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol yn parhau hefyd gyda gwaith ar Fframwaith Safonau Ansawdd yn mynd rhagddo, ynghyd â mapio gwasanaethau cynghori.

O dan y gwasanaethau cynghori, rydym wedi cefnogi Cynllun Cyngor Da: Byw’n Well (BABL) sy’n cael ei redeg gan Cyngor ar Bopeth (£2.2m y flwyddyn) sy’n rhoi cyngor ar hawlio budd-daliadau. Yn ystod hanner cyntaf 2015/16 mae’r cynllun wedi cynorthwyo dros 9000 o bobl a chadarnhawyd bod budd-daliadau gwerth dros £10m wedi cael eu hawlio ganddynt o ganlyniad i hynny. Yn ystod tair blynedd gyntaf y cynllun, rhwng 2012 a 2015, mae BABL wedi helpu bron 60,000 o bobl a chadarnhawyd eu bod wedi hawlio budd-daliadau gwerth dros £52 miliwn o ganlyniad i hynny. Cyhoeddwyd y gwerthusiad o’r Cynllun ar ddiwedd mis Tachwedd. Canfu fod BABL wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y rhai sy’n defnyddio’r gwasanaethau a gefnogir ganddo, yn enwedig gwaith allgymorth llinyn Cyngor Da Iechyd Da sy’n cyrraedd unigolion a fyddai’n annhebygol o geisio’r cyngor sydd ei angen arnynt o unrhyw ffynhonnell arall neu gan unrhyw asiantaeth arall.

Yn ogystal â BABL, rydym wedi darparu cyllid drwy ein Grant Gwasanaethau Cynghori Rheng Flaen (£2 filiwn yn 2015/16) sy’n helpu gwasanaethau cynghori i roi cyngor ar faterion sy’n ymwneud â budd-daliadau lles; dyled a thai. Yn 2014/15, roedd sefydliadau yn gallu ymateb i fwy na 30,000 o geisiadau am wybodaeth a chyngor drwy hyn, gan sicrhau incwm ychwanegol gwerth bron £6.5 miliwn.Yn hanner cyntaf 2015/16, ymatebwyd i fwy na 26,500 o geisiadau gan sicrhau bron £5 miliwn o incwm ychwanegol. Mae gwerthusiad o’r Grantiau Gwasanaethau Cynghori Rheng Flaen yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Mae’r Gronfa Cymorth Dewisol yn ôl y galw wedi parhau i roi cymorth i’r rhai sydd â’r angen mwyaf. Mae’r Gronfa Cymorth Dewisol yn rhoi cymorth brys i rhwng 1,500 a 2,000 o bobl bob mis. Rhoddwyd cyfanswm o bron 57,500 o

ddyfarndaliadau gwerth bron £14.8m yn ystod y ddwy flynedd gyntaf (13/14 a 14/15). Yn ystod trydedd flwyddyn y cynllun, hyd yma (hyd at ddiwedd mis Hydref 2015) rhoddwyd dros 16,000 o ddyfarndaliadau gwerth tua £3.74m.

Mae cyllideb Cynhwysiant Ariannol ar gyfer 2016/17 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer parhad y Gronfa. Fodd bynnag, bydd y toriadau yn y gyllideb ar gyfer Cynhwysiant Ariannol yn effeithio ar y Gronfa Cymorth Dewisol. Bydd angen i'r gyllideb grant ar gyfer y Gronfa gael ei lleihau sy'n golygu y bydd llai o arian ar gael i unigolion yn y cynllun hwn sy'n gweithredu yn ôl y galw. Fodd bynnag, os bydd y galw a nifer y ceisiadau cymwys yn aros yr un fath, byddai cyllideb grant ddiwygiedig 16/17 yn ddigon i ddarparu ar gyfer hyn. Bydd yn bwysig monitro dylanwadau allanol ar y Gronfa megis effaith Diwygiadau Lles ac, yn fwy penodol, y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol.

<u>Cynhwysiant Digidol</u>

Bydd cymorth cyllideb gwerth £1.250m ar gyfer gweithgareddau Cynhwysiant Digidol yn 2016/17. Ar yr olwg gyntaf, bydd yn ymddangos fel cynnydd o gymharu â'r llynedd. Fodd bynnag, nid felly y mae, oherwydd cafodd cyllid cynhwysiant digidol y llynedd ei ddarparu drwy ddefnyddio incwm ERDF, nad yw ar gael mwyach. Bydd y gyllideb hon yn ei gwneud yn bosibl i barhau â chyllid Llywodraeth Cymru o £1m y flwyddyn ar gyfer y Rhaglen Cynhwysiant Digidol benodol, Cymunedau Digidol Cymru. Mae hon yn helpu i fynd i'r afael ag allgáu digidol drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau sydd mewn sefyllfa dda i gyrraedd y grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i'r graddau mwyaf (pobl hŷn a phobl anabl, y rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol, pobl ddi-waith a phobl economaidd anweithgar o oedran gweithio). Mae'r cymorth a roddir yn cynnwys helpu sefydliadau i ymgysylltu'n fwy effeithiol â chleientiaid sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol; recriwtio gwirfoddolwyr; hyfforddi staff rheng flaen; a chydgysylltu gweithgareddau. Bydd y rhaglen yn cyfrannu at gyflawni targedau heriol 2017 a nodir yn ein Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol (a ddiweddarwyd ym mis Awst 2015) a bydd yn rhan allweddol o'r Fframwaith a'r Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol ar eu newydd wedd sydd i'w cyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd.

<u>Y Trydydd Sector</u>

Mae Cynllun y Trydydd Sector (2014) yn adnewyddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid craidd i gyrff seilwaith y Trydydd Sector ledled Cymru, yn bennaf Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli. Mae'r Cynllun yn cynnwys ein Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector sy'n nodi 17 o Egwyddorion a chyngor ar yr amryw ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid. Mae'r cyrff seilwaith yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac yn sicrhau bod cyngor ac arweiniad cyson ar gael yn hawdd i sefydliadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr unigol unrhyw le yng Nghymru. Mae cyllideb Seilwaith y Trydydd Sector yn cwmpasu'r gwaith hwn, yn

ogystal â grantiau i gefnogi gwaith gwirfoddoli, Uned Cofnodion Troseddol CGGC a chyllid craidd ar gyfer y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru.

Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2016/17 ond, yn unol â chanlyniadau adolygiad diweddar, bydd cysylltiad cryfach a mwy cyson â gwasanaethau cyhoeddus, cydweithredu ledled Cymru a dull ariannu tecach.

Mae cymorth i wirfoddoli yn nodwedd allweddol o'r Seilwaith. Bydd y ddwy raglen grant Gwirfoddoli bresennol (y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru a GwirVol) yn dod ynghyd i ffurfio un cynllun a fydd yn sicrhau dull gweithredu mwy cydlynol ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd.

Bydd y cyrff Seilwaith yn parhau i gymryd rhan a chefnogi sefydliadau'r Trydydd Sector a sefydliadau cymunedol a gwirfoddolwyr, yn y gwaith o ailgynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Yn yr un modd, byddant yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith gyda sefydliadau cymunedol a sefydliadau'r Trydydd Sector o ran y datblygiadau deddfwriaethol a pholisi allweddol newydd, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Llywodraeth Leol 2015 ac Egwyddorion Gweithio Gyda Chymunedau Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gael sgyrsiau â CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol ynglŷn â chydweithredu'n agosach ac uno posibl er mwyn sicrhau bod Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn barod i gefnogi ymwneud sefydliadau cymunedol a sefydliadau'r Trydydd Sector â'r broses o lunio natur newidiol darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i roi sylw dyledus i annibyniaeth y sefydliadau hyn.

Mae trafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt ynglŷn â threfniadau cyllido yn y dyfodol ar gyfer cymorth diogelu i sefydliadau'r Trydydd Sector. Mae'n rhaid i sefydliadau'r Trydydd Sector gael eu llywodraethu'n dda, yn enwedig lle maent yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae ein trafodaethau gyda sefydliadau'r Trydydd Sector ac eraill yn awgrymu mai codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant, ynghyd â chysylltiad agos â gwaith Byrddau Diogelu, yw'r ffordd gywir o sicrhau bod sefydliadau'r Trydydd Sector yn parhau â'u gwaith gyda'n dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed o bob oedran. Nid yw'r patrwm blaenorol o gyllido ar gyfer y gwaith hwn, a ganolbwyntiodd yn bennaf ar wiriadau Cofnodion Troseddol ffurfiol, yn briodol mwyach a bydd trafodaethau gyda'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau er mwyn sicrhau y caiff anghenion y Trydydd Sector eu hystyried o fewn strwythurau a phatrymau cymorth ehangach.

Yn gyffredinol, bydd y newidiadau hyn yn ystyried y gostyngiad yng nghyllideb Seilwaith y Trydydd Sector o £6.805 miliwn yn 2015/16 i £6.125 miliwn yn

2016/17. Mae cynigion ar gyfer 2016/17 wedi cael eu datblygu, ar hyd y llinellau a amlinellwyd gennyf, ac maent yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd.

Bydd y gostyngiad yn y gyllideb yn effeithio ar y cyrff seilwaith, y mae toriadau yng nghyllid awdurdodau lleol neu ffrydiau incwm eraill yn effeithio ar lawer ohonynt hefyd. Byddwn yn cymryd gofal i sicrhau bod gostyngiadau yn cael eu dosbarthu mewn ffordd briodol a theg.

Grant Cefnogi Pobl

Mae Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhan allweddol o bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Atal Digartrefedd sy'n cefnogi llai o ddefnydd o'r GIG, defnydd hirdymor o Wasanaethau Cymdeithasol, trechu tlodi a mentrau i helpu pobl i mewn i addysg neu gyflogaeth. Defnyddir y Rhaglen i roi cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl sy'n agored i niwed. Cafwyd tystiolaeth bellach o fanteision y Rhaglen ar gyfer gwasanaethau iechyd. Fel y soniwyd yn gynharach, mae'r canfyddiadau sy'n deillio o'n hastudiaeth ddichonoldeb yn dangos gostyngiad hirdymor cyffredinol yn y defnydd o wasanaethau meddygon teulu gan y rhan fwyaf o grwpiau defnyddwyr ar ôl iddynt gael cymorth o dan y rhaglen a gwelir patrymau tebyg o ran y defnydd o Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys gan rai grwpiau defnyddwyr.

O ystyried pwysigrwydd y gyllideb hon, rydym wedi'i diogelu. Rhoddir cyllideb o £124.488 miliwn ar gyfer 2016-17. Yr Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am ddefnyddio'r gyllideb mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan weithio gyda phartneriaid drwy Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a threfniadau cydweithredu lleol eraill gan mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i bennu anghenion a blaenoriaethau lleol. Ar y cyd â'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol, y Pwyllgorau Cydweithredu Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol unigol, rydym yn parhau i ystyried y cyfleoedd i'r sectorau tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ddatblygu a darparu gwasanaethau mwy integredig.

Rydym yn mesur perfformiad yr ymyriadau sy'n gysylltiedig â'r Grant Cefnogi Pobl mewn sawl ffordd. Yn gyntaf, drwy ystyried gwybodaeth a gyflwynir gan Awdurdodau Lleol sy'n nodi sut maent yn gwario'r grant. Yn ail, drwy gasglu ystod o ddata cyfanredol sy'n amlinellu'r modd y mae canlyniadau yn cael eu cyflawni gan y bobl sy'n cael y cymorth. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau fel 'teimlo'n fwy diogel', 'rheoli arian', a 'rheoli llety' yn ogystal â 'teimlo'n iach yn gorfforol' a 'teimlo'n iach yn feddyliol'. Rydym bellach wedi cytuno ar raglen waith â chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol ac Awdurdodau Lleol a fydd yn arwain at gasglu data mwy cyson a chadarn yn y dyfodol. Mae fy swyddogion hefyd wedi cynnal adolygiadau o'r ffordd y caiff rhaglenni eu rheoli ac y caiff gwasanaethau eu darparu mewn ardaloedd Awdurdod Lleol. Mae adolygiadau o bob un o'r 22 Awdurdod Lleol wedi'u cwblhau bellach. Bu'r adolygiadau hyn yn fuddiol i bawb ac maent yn helpu i wella'r ffordd y mae'r Rhaglen yn gweithredu ymhellach.

Daeth ein deddfwriaeth newydd yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, sy’n gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i atal digartrefedd, i rym ym mis Ebrill 2015. Fe’i hategwyd gan ganllawiau wedi’u diweddaru a rhaglen helaeth o hyfforddiant, a oedd yn cynnwys dros 600 o staff mewn Awdurdodau Lleol a sefydliadau’r Trydydd Sector. Cymerwyd camau ychwanegol i wella’r cymorth sydd ar gael i garcharorion cyn iddynt gael eu rhyddhau a datblygwyd Llwybr cenedlaethol i sicrhau dull gweithredu mwy cydgysylltiedig rhwng yr holl sefydliadau dan sylw, gan gynnwys Awdurdodau Lleol. Eglurodd y Llwybr rolau a chyfrifoldebau’r gwahanol sefydliadau o ran darparu gwasanaethau a chymorth, a’r hyn a ddisgwylir ganddynt. Mae iddo ddwy ran; y naill i oedolion a’r llall i droseddwyr ifanc. Mae gwerthusiad annibynnol o’r ddeddfwriaeth newydd yn cael ei gomisiynu.

Yn ogystal â’r rôl y mae Rhaglen Cefnogi Pobl yn ei chwarae o ran atal digartrefedd, mae gennym gyllideb benodol i gefnogi prosiectau, gan gynnwys gwasanaethau a chymorth annibynnol ledled y wlad. Ategwyd y gyllideb o £6.2 miliwn ar gyfer 2015-16 drwy gyllid ychwanegol o £4.9 miliwn er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i Awdurdodau Lleol wrth iddynt ddechrau cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth newydd. Eleni, rhoddir cyllideb o £5.907 miliwn. Caiff hon ei hategu yn ystod y flwyddyn drwy ddyraniadau ychwanegol er mwyn helpu Awdurdodau Lleol gyda chostau ychwanegol ail flwyddyn gweithredu’r ddeddfwriaeth newydd ynglŷn â digartrefedd, y caiff ei chost ei rheoli o fewn fy mhortffolio.

<u>Asiantaethau Gofal a Thrwsio a Chyfranogiad Tenantiaid</u>

Mae Asiantaethau Gofal a Thrwsio yn parhau i wneud cyfraniad hollbwysig i helpu pobl i fyw’n annibynnol. Mae’r addasiadau y maent yn eu gwneud i gartrefi pobl yn eu galluogi i fyw’n ddiogel ac mor annibynnol â phosibl. Fel y cyfryw, maent yn helpu i leihau’r angen am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Maent yn helpu i atal pobl rhag syrthio ac felly dderbyniadau nas cynlluniwyd i’r ysbyty. Darperir y cyllid o’r gyllideb Byw’n Annibynnol. Pennwyd cyllideb o £5.159 miliwn ar gyfer 2016-17 ond mae hyn o ganlyniad i gyfuno tair llinell cyllideb (£4.056 miliwn ar gyfer cyllideb Gofal a Thrwsio; £0.432 miliwn ar gyfer y Rhaglen Addasiadau Brys, a chyllideb o £1.252 miliwn ar gyfer Datblygu Polisi Tai sydd wedi cefnogi nifer o gamau gweithredu gan gynnwys sefydliadu sy’n cael arian craidd ar gyfer gwaith ar gyfranogiad tenantiaid, a chydraddoldeb, gweithredu deddfwriaeth a rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae’r llinell gyfunol yn y gyllideb ar gyfer 2016-17 yn adlewyrchu gostyngiad o 10 y cant o gymharu â chyfanswm y cyllid yn 2015-16. Yr asiantaethau Gofal a Thrwsio rheng flaen yw’r flaenoriaeth ar gyfer y gyllideb hon. Caiff yr union swm i’w ddyrannu ei bennu ar ôl ystyried y nifer lai o asiantaethau sy’n bodoli ar ôl uno a’r gofynion eraill ar y gyllideb o ganlyniad i weithredu deddfwriaeth.

O ganlyniad i ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, gofynnwyd i grŵp gorchwyl amlasiantaethol gynllunio a datblygu system well o addasu cartrefi pobl. Mae'r gwaith hwn yn tynnu at ei derfyn a bydd y system well ar waith ar gyfer 2016-17. Mae helpu pobl i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain am gyhyd â phosibl yn un o'n blaenoriaethau. Mae addasiadau i gartrefi pobl yn gwneud hyn yn bosibl, gan atal derbyniadau nas cynlluniwyd i'r ysbyty, er enghraifft, o ganlyniad i dorri clun ar ôl syrthio. Mae hyn a'r ffaith y gall addasiadau hefyd helpu pobl i ddychwelyd i'w cartrefi'n gynt ar ôl triniaeth yn yr ysbyty, yn helpu i leihau'r galw ar y GIG. Caiff y system well swm ychwanegol o £4 miliwn yn ei blwyddyn gyntaf. Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd llawer o bobl drwy eu galluogi i barhau i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid craidd i ddau sefydliad tenantiaid yn ystod tymor y Llywodraeth hon. Mae'r cyllid wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i bwysau cyllidebol. Mae'r cynigion gan y sefydliadau yn cael eu hasesu a disgwylir y byddwn yn parhau i roi cyllid craidd ond ar lefel is oherwydd y toriadau pellach y bu'n rhaid eu gwneud i'r gyllideb. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi awgrymu bod angen ailystyried y cymorth sydd ei angen ar gyfer cyfranogiad tenantiaid o ran gwerth am arian, gyda datblygiadau tuag at sefyllfa lle y bydd un darparwr yn hytrach na'r ddau ddarparwr presennol. Disgwylir i'r trefniadau ar gyfer hyn gael eu rhoi ar waith yn ystod 2016/17 tra bydd cyllid craidd yn parhau i roi cymorth i denantiaid. Yn ogystal â'r ddau sefydliad, cefnogwyd Panel Cynghori i Denantiaid. Mae hwn wedi cefnogi'r Bwrdd Cynghori Rheoleiddio sy'n goruchwylio'r gwaith o reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae Bwrdd cwbl annibynnol, newydd yn cael ei ffurfio o 2016-17 ymlaen ond bydd yn parhau i gael ei gefnogi gan y Panel Cynghori Tenantiaid.

Mae Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2015 yn cynnig manteision i bobl sy'n rhentu eu cartrefi gan y sector preifat. Bydd yn gwella arferion drwy'r gofyniad i gofrestru a thrwyddedu landlordiaid preifat ac asiantau gosod a gyflawnir gan gynllun Rhentu Doeth Cymru. Daeth y ddeddfwriaeth newydd i rym ar 23 Tachwedd 2015. Bydd y flwyddyn gyntaf yn un "cyffyrddiad ysgafn" ar y cyfan, gan ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ac annog cofrestru a thrwyddedu cyn y daw camau gorfodi yn brif ffocws o fis Tachwedd 2016. Y nod yw y bydd y cynllun yn ariannu ei hun a chaiff y ffioedd a godir gan yr Awdurdod Trwyddedu Dynodedig Unigol – Cyngor Caerdydd – eu defnyddio i dalu'r costau rhedeg. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ychwanegol yn ystod y camau cynnar yn unol â'r asesiad o gostau a gynhaliwyd ar gyfer Memorandwm Esboniadol y Ddeddf e.e. gweithgareddau cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth ac annog cydymffurfiaeth. Caiff costau gwerthusiad annibynnol eu hariannu gan Lywodraeth Cymru hefyd.

<u>Grant Tai Cymdeithasol a Grant Cyllid Tai</u>

Mae rhaglen Grant Tai Cymdeithasol a'r Grant Cyllid Tai yn darparu cyllid i gynorthwyo gyda'r gwaith o adeiladu neu adnewyddu cartrefi fforddiadwy i'w rhentu (cymdeithasol a chanolradd) ac ar gyfer rhannu ecwiti (cymorth prynu). Caiff y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd gennym ar gyfer 2016-17 yn parhau i gael ei ddefnyddio i gefnogi amrywiaeth o fathau gwahanol o lety e.e. fflatiau, byngalos, hosteli a llochesi, sy'n cynnwys llety a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn.

Dyrannwyd cyllideb cyfalaf o £64.6 miliwn i'r Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer 2016-17 ac mae gan y Grant Cyllid Tai gyllideb refeniw o £4 miliwn. Mae'r dyraniad hwn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i gynyddu nifer y tai fforddiadwy o'r math cywir yng Nghymru. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu nifer yr eiddo ystafell wely llai yng Nghymru er mwyn helpu i liniaru effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU. Bydd y gyllideb gynyddol hon hefyd yn ein galluogi i barhau i archwilio a chefnogi ffyrdd arloesol o gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru.

Mae'r tai fforddiadwy a ddarperir gyda chymorth grant yn bodloni Gofynion Ansawdd Dylunio (DQR) a safonau cartrefi gydol oes er mwyn sicrhau gwerth am arian. Caiff perfformiad ei fesur yn erbyn y targed o 10,000 o gartrefi fforddiadwy i'w hadeiladu yn ystod tymor y llywodraeth hon gyda 9,108 o dai fforddiadwy ychwanegol wedi'u hadeiladu yn ystod pedair blynedd gyntaf y llywodraeth hon. Mae'r gyllideb gynyddol hon hefyd yn golygu y byddwn yn gallu adeiladu mwy o gartrefi fforddiadwy na'r targed a chynyddu'r manteision cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig ag adeiladu tai.

Cymorth i Brynu - Cymru

Rydym eisoes wedi buddsoddi mwy na £170 miliwn dros y tair blynedd diwethaf yn ein cynllun Cymorth i Brynu - Cymru, sydd wedi'i gynllunio i gynyddu'r cyflenwad tai yng Nghymru, gan helpu'r sawl sy'n prynu am y tro cyntaf a'r rhai sydd eisoes yn berchen ar dŷ i brynu eiddo newydd.

Mae dros 3,000 o geisiadau am fenthyciadau wedi cael eu cyflwyno ac rydym wedi helpu mwy na 2,400 o bobl i brynu cartref o dan ein cynllun Cymorth i Brynu. Mae'r cynllun yn helpu i ailennyn hyder yn y sector adeiladu ac yn galluogi mwy o bobl i brynu tŷ am y tro cyntaf. Rydym ar y trywydd cywir i roi cymorth i adeiladu hyd at 5,000 o gartrefi yn ystod y cam hwn o'r cynllun. Yn ystod y cyfnod adeiladu, caiff cyflogaeth yn y gymuned leol a'r ardal gyfagos ei chefnogi hefyd drwy'r contract adeiladu, gan ddarparu swyddi, cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau. Mae hyn yn helpu i gynnal busnesau bach a chefnogi cyflogaeth hirdymor yn yr ardal.

Mae'r cynllun yn destun adolygiad cadarn o wybodaeth reoli fanwl sy'n cwmpasu gweithgarwch adeiladwyr, gweithgarwch prynwyr, gweithgarwch benthycwyr a gwybodaeth ariannol gyffredinol. Yn sgil llwyddiant y cynllun hyd yma mae'r cynigion cyllidebol hyn yn dangos ein hymrwymiad i ymestyn cynllun Cymorth i Brynu - Cymru y tu hwnt i fis Mawrth 2016.

<u>Safonau Ansawdd Tai Cymru</u>

Drwy fuddsoddi yn Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC), ein nod yw sicrhau bod pob annedd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion preswylwyr nawr ac yn y dyfodol. Pennodd Llywodraeth Cymru darged i bob landlord cymdeithasol, sef gwella ei stoc dai er mwyn cyrraedd SATC cyn gynted â phosibl, ac erbyn 2020 fan bellaf. Mae'r ffurflenni ystadegol cyfredol a gyflwynwyd gan landlordiaid cymdeithasol yn dangos bod 72% o'u stoc wedi cydymffurfio â'r safon erbyn 31 Mawrth 2015.

Mae'n ofynnol i bob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a Chymdeithas Dai Leol gynnwys cymalau cymdeithasol ym mhob contract caffael lle gellir gwireddu budd i'r gymuned. Caiff y canlyniadau eu holrhain drwy Gwerth Cymru ac mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer contractau gosod tai gwerth £161 miliwn yn dangos bod 81% o'r swm hwn wedi cael ei ailfuddsoddi yng Nghymru. Cafodd 341 o bobl ddifreintiedig eu helpu i mewn i waith neu hyfforddiant a darparwyd dros 10,700 o wythnosau o hyfforddiant.

<u>Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid</u>

Mae'r Fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn amlinellu ein hamcanion adfywio cenedlaethol sef y dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau llewyrchus, cynaliadwy, llawn addewid, sydd â chysylltiadau da, economi leol gref ac ansawdd bywyd da. Mae'n gyson â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gan rannu canlyniadau Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau Dysgu a Chymunedau Iachach.

Caiff y brif raglen gwerth £100 miliwn ei chefnogi gan gyllideb trechu tlodi gwerth £7 miliwn ar gyfer saith cymuned arall yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'r gronfa o £7 miliwn wedi'i chlustnodi ar gyfer prosiectau yn y 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac wedi'i dyrannu i awdurdodau lleol i'w defnyddio mewn ardaloedd penodol - naill ai tref neu ardal o fewn tref neu ddinas. Yn ogystal â'r rhaglenni adfywio hyn ar raddfa fwy, rydym yn ymgymryd â nifer fawr o ymyriadau eraill megis cymorth Ardal Gwella Busnes, Cronfa Fenthyciadau Canol Trefi, grantiau ar gyfer Partneriaethau Canol Trefi, Ymgyrch y Stryd Fawr, a chamau gweithredu ynglŷn ag ardrethi busnes. Mae'r fframwaith adfywio hwn yn dangos pwyslais amlwg ar adfywio canol trefi ledled Cymru.

Hanner ffordd drwy'r rhaglen erys ar y trywydd cywir i sicrhau hyd at 2,000 o swyddi newydd, helpu i adfywio ein cymunedau drwy hwyluso'r gwaith o adeiladu hyd at 2,500 o gartrefi fforddiadwy newydd a chartrefi newydd i'w gwerthu ar y farchnad, cynorthwyo bron 300 o fusnesau a denu buddsoddiad pellach o fwy na £280 miliwn.

Bydd y swm ychwanegol o £12 miliwn a ddyrannwyd i raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid o dan y cynigion cyllidebol hyn yn ein galluogi i ehangu'r rhaglen a chyflawni mwy o brosiectau er mwyn ychwanegu at yr effaith drawsnewidiol y mae Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn ei chael ar ganol ein trefi.

Mae'r gwerthusiad o Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn mynd rhagddo. Mae gennym nifer o ddangosyddion y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol bennu rhagolygon a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn eu herbyn.

Cyfleusterau Cymunedol

Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn gynllun grant dewisol. Gwahoddir ceisiadau ar sail dyfarndaliadau unigol o hyd at £500,000. Mae'r gyllideb wedi'i hadfer o £10.95 miliwn yn 2016/17 yn debygol o olygu y bydd 12 i 15 o brosiectau ychwanegol yn cael arian. Mae gan y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol lif o brosiectau arfaethedig sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ac y bydd angen eu hariannu yn 2016/17. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r rhaglen gael yr effaith fwyaf bosibl.

Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Bydd cyllid y Grant Cyfalaf ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cynyddu £0.5m o'r gyllideb sylfaenol o £1.5m i £2m yn 2016-17. Mae'r Grant Cyfalaf Safleoedd yn darparu cyllid ar gyfer adnewyddu safleoedd presennol Sipsiwn a Theithwyr Awdurdodau Lleol a datblygu rhai newydd.

Dylai newidiadau yn y gyllideb arwain at ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Awdurdodau Lleol ychwanegol, a fydd yn lleihau cyfraddau digartrefedd ymhlith y cymunedau hyn. Mae tangyflenwad sylweddol o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig yng Nghymru ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif bod angen rhwng 184 a 218 o leiniau ychwanegol (pob aelwyd ar safle) ac mae'r Awdurdodau Lleol eu hunain wedi amcangyfrif bod angen 301 ohonynt. Fodd bynnag, mae pob awdurdod lleol wrthi'n cynnal Asesiadau newydd o Lety Sipsiwn a Theithwyr, a fydd yn rhoi amcangyfrif mwy cywir o'r angen am leiniau ar gyfer cartrefi symudol.

Cyn mis Ebrill 2014, nid oedd yr un awdurdod lleol wedi agor safle Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru ers 1997. Mae'r sefyllfa hon wedi arwain at dangyflenwad sylweddol o leiniau, a ddangosir gan asesiadau o lety Sipsiwn a

Theithwyr awdurdodau lleol a nifer y gwersylloedd sydd heb eu hawdurdodi. Fodd bynnag, mae Rhan 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a chyllid ychwanegol ar gyfer y gyllideb hon yn 2015-16 a 2016-17 yn dechrau mynd i'r afael â'r diffyg.

Nododd ymarfer ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol fod angen £2m ychwanegol o gyllid er mwyn cefnogi prosiectau arfaethedig yn ystod 2015-16. Mae cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2015-16, sef £3.5m, wedi cael ei ddyrannu'n llawn a dylai arwain at ddatblygu 25 o leiniau newydd ar gyfer cartrefi symudol a sawl prosiect adnewyddu. Mae hyn yn cynnwys 11 o leiniau newydd yn Nhorfaen, 10 o leiniau newydd yng Nghastell-nedd Port Talbot a phedair llain newydd yn safle Sipsiwn a Theithwyr cyntaf Conwy.

Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu tebyg ym mis Gorffennaf 2015, a nododd y bydd llai o alw am gyllid ychwanegol yn 2016-17 cyn y bydd dyletswyddau Deddf Tai (Cymru) 2014 yn arwain at alw ychwanegol o 2017-18 ymlaen. Felly, mae dadansoddiad o ymatebion o fis Gorffennaf 2015 wedi arwain at benderfyniad i gynyddu'r grant hwn £0.5m i £2m ar gyfer 2016-17. Byddwn yn ymgymryd â dadansoddiad ychwanegol i ragweld y galw mewn cyllidebau diweddarach.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n sefydlu system casglu data yn lle'r Cyfrif Carafannau presennol gyda'r nod o nodi'r gostyngiad hirdymor mewn gwersylloedd o ganlyniad i safleoedd newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno Asesiadau newydd o Anghenion Iechyd er mwyn nodi'r anghydraddoldebau iechyd a wynebir gan gymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Dylai'r asesiadau hyn nodi newidiadau o ran mynediad at wasanaethau iechyd a chanlyniadau iechyd dros amser a'u cymharu â mynediad i safleoedd.

Bydd Asesiadau o Lety Awdurdodau Lleol yn parhau i asesu'r angen i ddarparu safleoedd ychwanegol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r asesiadau hyn wrth ddadansoddi'r angen am gyllid Grant Cyfalaf Safleoedd.

## 6. Cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac ystyriaeth o'r Gymraeg

Mae'r cyllidebau o fewn CTP yn seiliedig ar egwyddorion canolog cynaliadwyedd, gan gynnwys meddylfryd hirdymor, atal, cydweithredu, integreiddio a chynnwys ac mae effaith yr holl benderfyniadau gwario wedi cael ei hasesu fel y'i nodir yn yr Asesiad Effaith Integredig ategol.

## 7. Gwariant Ataliol

Erys gwariant ataliol yn un o themâu allweddol y portffolio hwn. Awgryma tystiolaeth fod buddsoddi mewn datblygiad yn y blynyddoedd cynnar yn un o'r ffyrdd mwyaf ariannol gynaliadwy ac effeithiol o drechu tlodi, gan arwain at ganlyniadau gwell i'r plentyn unigol a llai o angen am ymyriadau costus flynyddoedd yn ddiweddarach. Dyna pam rwyf wedi nodi mai ymyriadau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar flynyddoedd cynnar bywyd yw'r flaenoriaeth allweddol yn ein hymdrechion i drechu tlodi (ynghyd â gwella cyflogadwyedd). Mae'r safbwynt hirdymor hwn yn gyson â'r dull gweithredu datblygu cynaliadwy sydd wedi'i ymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Yn unol â'n hegwyddor o atal mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn canolbwyntio ar wella Cyrhaeddiad Addysgol, gwella Iechyd a Lles, a chynyddu ffyniant a chyflogaeth, gyda phwyslais penodol ar leihau diweithdra ieuenctid.

Mae'r Grant Cefnogi Pobl yn rhaglen gwariant ataliol allweddol sy'n galluogi pobl i aros yn eu cartrefi am gyfnod hwy ac yn lleihau'r pwysau ar y GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol. Am y rheswm hwn rydym wedi penderfynu diogelu'r Grant Cefnogi Pobl, sef £124.4miliwn o hyd ar gyfer 2016-17.

Mae cyllideb Digartrefedd gwerth 5.907miliwn yn ategu gwasanaethau digartrefedd statudol Awdurdodau Lleol, sef gostyngiad o £524,000 o gymharu â'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2015-16 (heb gynnwys y swm ychwanegol untro o £4.9 miliwn ar gyfer blwyddyn gyntaf y ddeddfwriaeth newydd). Mae'n helpu Awdurdodau wrth iddynt ddechrau cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2015. Atal digartrefedd yn y lle cyntaf sydd wrth wraidd y ddeddfwriaeth newydd. Mae'r gyllideb hefyd yn ariannu amrywiaeth eang o brosiectau lleol a chenedlaethol, y mae pob un ohonynt yn gyson â'r ffocws ar atal yn y ddeddfwriaeth.

Mae'r buddsoddiad sylweddol rydym yn ei wneud i gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy yng Nghymru a gweithio gyda'n partneriaid cyflawni i wella ansawdd y stoc bresennol o gartrefi fforddiadwy yn elfennau allweddol o'r ffordd rydym yn defnyddio gwariant ataliol. Rydym ar y trywydd cywir i gyflawni ein targed o 10,000 o gartrefi fforddiadwy o ansawdd da sy'n helpu i gyfrannu at yr agenda o drechu digartrefedd. Mae darparu cartref diogel a chlyd, yn ogystal ag atal digartrefedd, yn hollbwysig o ran iechyd a lles, yn enwedig yn ein cymunedau tlotaf. Mae gwella safon cartrefi yn lleihau nifer y damweiniau yn y cartref ac yn gwella ansawdd iechyd trigolion a all leddfu pwysau ar ein gwasanaeth iechyd a'n gwasanaethau cymdeithasol sy'n wynebu pwysau mawr. Mae ein buddsoddiad o £108 miliwn y flwyddyn yn Safon Ansawdd Tai Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol wella a chynnal cartrefi sy'n bodoli eisoes i'r safon hon. Mae'r buddsoddiad hwn yn golygu nid yn unig y gall pobl fyw mewn cartrefi safonol, ond bod cymdeithas a'r dull gweithredu ar sail gwariant ataliol yn cael budd mewn ffyrdd eraill o ganlyniad i'r buddsoddiad enfawr gan Lywodraeth Cymru a landlordiaid cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys swyddi a

chyfleoedd hyfforddiant yn ein cymunedau tlotaf ac ymrwymiad i ailgylchu'r buddiannau yn y cymunedau lleol.

Mae'r cyllid yn y gyllideb ddrafft ar gyfer Byw'n Annibynnol, gwerth £5.159m yn 2015-16, hefyd yn wariant ataliol. Mae'n cynnwys cyllid craidd ar gyfer Asiantaethau Gofal a Thrwsio a chamau gweithredu cydgysylltiedig gan Gofal a Thrwsio Cymru. Mae'r asiantaethau yn gwneud addasiadau er mwyn helpu pobl i aros yn eu cartrefi a byw'n annibynnol am gyhyd â phosibl. Mae addasiadau hefyd yn helpu i atal pobl rhag syrthio ac felly'n lleihau nifer y derbyniadau brys i'r ysbyty neu nifer y bobl sy'n mynd i mewn i gartrefi gofal. Mae'r cyllid hefyd yn galluogi cleifion i adael yr ysbyty yn gynt a dychwelyd adref drwy wneud yr addasiadau bach sydd eu hangen arnynt a thrwy hynny ryddhau adnoddau ysbytai yn gynt. Yn sgil ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, mae system addasiadau well wedi cael ei datblygu a chaiff ei chyflwyno yn 2016. Bydd y £4 miliwn ychwanegol o gyllid cyfalaf sydd wedi cael ei ddyrannu i'r system well yn ei blwyddyn gyntaf yn rhoi hwb mawr i'n gallu i helpu pobl i barhau i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain am gyhyd â phosibl.

Mae'r gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i'w rhoi i'r Trydydd Sector yng Nghymru yn cydnabod bod miloedd o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ym mhob rhan o'r wlad yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi unigolion a grwpiau, a thrwy hynny'n lleihau'r baich ar wasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, mae elusennau iechyd a grwpiau cymorth yn darparu cymorth i bobl ag ystod eang o broblemau iechyd a allai fod yn fwy dibynnol ar y GIG fel arall. Mae angen i'r sefydliadau hyn, yn eu tro, gael y cyngor a'r cymorth i sicrhau y cânt eu rheoli'n dda a'u bod yn gynaliadwy. Gyda mwy o bwyslais ar lywodraethu da a chynnydd cyson yn y fframweithiau rheoliadol sy'n effeithio ar grwpiau gwirfoddol, mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith y Trydydd Sector yn sicrhau bod cyngor cyson a dibynadwy ar gael ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr unigol ledled Cymru.

Mae'r arian a ddarperir ar gyfer Gwasanaethau Cynghori yn gyllid ataliol, boed yn gyngor ar ddyledion neu fanteisio ar fudd-daliadau. Fel y nodwyd uchod, nod y cyllid hwn yw sicrhau bod pobl yn cael cymorth cyn iddynt ganfod eu hunain mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt geisio ffynonellau cymorth eraill neu hyd yn oed gyllid.

Mae ein buddsoddiad parhaus mewn Cynhwysiant Digidol yn enghraifft amlwg o gyllid ataliol gan ei fod yn gwella ansawdd bywyd pobl drwy eu helpu i ddod o hyd i waith a gwneud i'w harian fynd ymhellach drwy nwyddau a gwasanaethau rhatach a mwy hygyrch ar-lein. Gall gwasanaethau digidol fel 'skype' a grwpiau cymorth ar-lein helpu i leihau achosion o arwahanrwydd a helpu pobl i fyw'n annibynnol hefyd, a thrwy hynny wella Iechyd a Lles a lleihau'r pwysau ar gyllidebau iechyd o bosibl. Bydd cymorth cyllidebol ar gyfer gweithgareddau Cynhwysiant Digidol yn ddigyfnewid yn 2016-17, sef £1.250m. Mae ein rhaglen

cynhwysiant digidol yn cyfrannu'n uniongyrchol at drechu tlodi, fel y dangosir gan y targedau cynhwysiant digidol a ymestynnwyd yn ddiweddar a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Caiff dinasyddion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol eu cynorthwyo i ennill sgiliau digidol sylfaenol er mwyn helpu i wella eu siawns o gael gwaith ac arbed arian drwy brynu nwyddau a gwasanaethau rhatach a mwy hygyrch ar-lein. Mae buddsoddi mewn cymdeithas sy'n fwy cynhwysol yn ddigidol yn enghraifft amlwg o wariant ataliol, a fydd yn arwain at fwy o arbedion yn sgil y defnydd cynyddol o wasanaethau cyhoeddus digidol.

Yn y tymor hwy, bydd creu mwy o safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn cael sgil-effaith gadarnhaol ar Dai Cymdeithasol gan y bydd yn rhyddhau mwy o dai os bydd Sipsiwn a Theithwyr yn gallu symud i safle newydd. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd Sipsiwn a Theithwyr fwy na dwywaith yn fwy tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru a Lloegr (41 y cant o gymharu ag 16 y cant).

## 8. Deddfwriaeth

<u>Deddf Tai (Cymru) 2015</u>

| Prif Grŵp Gwariant | Teitl y Ddeddf neu'r Bil | | Cam Gweithredu yn y Gyllideb | Costau i Lywodraeth Cymru yn 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| | **Bil Wedi'i Gyflwyno gerbron y Cynulliad ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol Wedi'i Gyhoeddi** | **Wedi'i Ddeddfu** | | **Ar gam Asesiad Effaith Rheoleiddiol Cyhoeddedig neu Ddeddfiad** |
| **Cymunedau a Threchu Tlodi** | | Deddf Tai (Cymru) 2014 | Rhan 1: Gwella amodau yn y sector rhentu preifat drwy Gamau Gweithredu Byw'n Annibynnol | £10,000 |
| | | | Rhan 2: Atal digartrefedd drwy Gamau Gweithredu Atal Digartrefedd | £3,200,000 |
| | | | Rhan 3: Diwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr drwy Gamau Gweithredu Cymunedau a Threchu Tlodi | £1,540,000 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Rhan 4: Safonau ar gyfer tai a ddarperir gan awdurdodau tai lleol – SATC – drwy Gamau Gweithredu Sicrhau Tai o Ansawdd | £15,000 |
| | | | Rhan 4: Safonau ar gyfer tai a ddarperir gan awdurdodau tai lleol – Rhenti a Thaliadau Gwasanaeth drwy Gamau Gweithredu Cyllid Refeniw Tai | £7,000 |
| | | | Rhan 5: Diwygio system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai drwy Gamau Gweithredu Cyllid Refeniw Tai | £8,000 |

Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cymunedau a Threchu Tlodi** | Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) | - | Camau Gweithredu Byw'n Annibynnol | £140,000 |

**Lesley Griffiths AC**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

| | **CYLLIDEB REFENIW - Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Camau gweithredu** | **BEL** | **Cyllideb Atodol 2015-16 Mehefin 2015** | **2016-17 Llinell Sylfaen** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddrafft 2016-17** |
| **Cefnogi Cymunedau a Phobl** | Y Trydydd Sector | Y Trydydd Sector | 6,805 | 6,805 | -680 | 6,125 |
| | | **Y Trydydd Sector** | **6,805** | **6,805** | **-680** | **6,125** |
| | Trechu Tlodi | Cynhwysiant Ariannol | 15,177 | 15,177 | -1,250 | 13,927 |
| | | Cynhwysiant Digidol | 0 | 0 | 1,250 | 1,250 |
| | | Ymchwil a Gwerthuso | 250 | 250 | -250 | 0 |
| | | Dibenion Cymunedol | 36,061 | 36,061 | 0 | 36,061 |
| | | Polisi Trechu Tlodi | 140 | 140 | 78 | 218 |
| | | **Trechu Tlodi** | **51,628** | **51,628** | **-172** | **51,456** |
| **Cyfanswm Cefnogi Cymunedau a Phobl** | | | **58,433** | **58,433** | **-852** | **57,851** |
| | | | | | | |
| **Cydraddoldeb a Chynhwysiant** | Cydraddoldeb a Chynhwysiant | Cydlyniant Cymunedol | 200 | 200 | 0 | 200 |
| | | Cronfa Cydraddoldeb a Chynhwysiant | 1,816 | 1,816 | 0 | 1,816 |
| | | **Cydraddoldeb a Chynhwysiant** | **2,016** | **2,016** | **0** | **2,016** |
| **Cyfanswm Cydraddoldeb a Chynhwysiant** | | | **2,016** | **2,016** | **0** | **2,016** |
| | | | | | | |
| **Polisi Tai** | Cefnogi Pobl | Grant Cefnogi Pobl | 124,488 | 124,488 | 0 | 124,488 |
| | Digartrefedd | Digartrefedd | 11,331 | 6,431 | -524 | 5,907 |
| | Byw'n Annibynnol | Byw'n Annibynnol | 4,056 | 4,056 | 1,103 | 5,159 |
| | | Rhaglen Addasiadau Brys | 432 | 432 | -432 | 0 |
| | | **Byw'n Annibynnol** | **140,307** | **135,407** | **147** | **135,554** |
| | Datblygu a Gweithredu Polisi | Datblygu a Gweithredu Polisi | 1,252 | 1,252 | -1,252 | 0 |
| | | **Datblygu a Gweithredu Polisi** | **1,252** | **1,252** | **-1,252** | **0** |
| **Cyfanswm Polisi Tai** | | | **141,559** | **136,659** | **-1,105** | **135,554** |
| | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cartrefi a Lleoedd** | Sicrhau tai o ansawdd | Safonau Ansawdd Tai Cymru | 100 | 100 | -100 | 0 |
| | | **Sicrhau tai o ansawdd** | **100** | **100** | **-100** | **0** |
| | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy o Ansawdd | Ffactorau Galluogi Tai | 95 | 95 | -95 | 0 |
| | | Cymorth ar gyfer Tai Cymdeithasol | 4,100 | 4,100 | 0 | 4,100 |
| | | **Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai** | **4,195** | **4,195** | **-95** | **4,100** |
| | Ymchwil a gwerthuso polisi | Cartrefi fforddiadwy | 30 | 30 | -30 | 0 |
| | | Ymchwil a gwerthuso polisi: AILENWI Cyllid Refeniw Tai | 1,032 | 1,032 | 41 | 1,073 |
| | | **Ymchwil a gwerthuso polisi AILENWI: Cyllid Refeniw Tai** | **1,062** | **1,062** | **11** | **1,073** |
| | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai ar y Farchnad | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai ar y Farchnad | 30 | 30 | -30 | 0 |
| | Adfywio | Gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol AILENWI: Cyllid Refeniw Adfywio | 1,945 | 1,945 | 95 | 2,040 |
| | | Rheoli'r Gwaith o Ddarparu Ardaloedd Adfywio Etifeddol | 6,790 | 6,790 | 0 | 6,790 |
| | | **Adfywio** | **8,765** | **8,765** | **65** | **8,830** |
| **Cyfanswm Cartrefi a Lleoedd** | | | **14,122** | **14,122** | **-119** | **14,003** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm y Refeniw - Cymunedau a Threchu Tlodi** | | | **216,130** | **211,230** | **-2,076** | **209,154** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **CYLLIDEB CYFALAF - Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | |

| SPA | Camau gweithredu | BEL | Cyllideb Atodol 2015-16 Mehefin 2015 | Llinell Sylfaen 2016-17 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymunedau a Threchu Tlodi** | Cymunedau a Threchu Tlodi | Cyfleusterau Cymunedol | 6,000 | 10,950 | 0 | 10,950 |
| | | Sipsiwn-Teithwyr | 3,500 | 1,500 | 500 | 2,000 |
| | | **Cyfanswm Cymunedau a Threchu Tlodi** | **9,500** | **12,450** | **500** | **12,950** |
| | | | | | | |
| **Polisi Tai** | Byw'n Annibynnol | Rhaglen Addasiadau Brys | 1,641 | 1,641 | 4,000 | 5,641 |
| | | **Cyfanswm Polisi Tai** | **1,641** | **1,641** | **4,000** | **5,641** |
| | | | | | | |
| **Cartrefi a Lleoedd** | Sicrhau Tai o Ansawdd | Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 108,000 | 108,000 | 0 | 108,000 |
| | | Cymorth Cyffredinol sy'n Gysylltiedig â Thai | 37,470 | 37,470 | 0 | 37,470 |
| | | Ardaloedd Adnewyddu | 8,029 | 8,029 | 0 | 8,029 |
| | | Benthyciad Gwelliannau i'r Cartref | 3,000 | 0 | 0 | 0 |
| | | **Sicrhau tai o ansawdd** | **156,499** | **153,499** | **0** | **153,499** |
| | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy o Ansawdd | Grantiau Tai Cymdeithasol | 57,833 | 42,833 | 21,701 | 64,534 |
| | | Tir ar gyfer Tai | 12,000 | 0 | 0 | 0 |
| | | Gofal ychwanegol | 4,301 | 4,301 | 0 | 4,301 |
| | | **Cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o Dai o Ansawdd** | **74,134** | **47,134** | **21,701** | **68,835** |
| | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai ar y Farchnad | Cymorth i Brynu - Cymru | 71,000 | 0 | 26,310 | 26,310 |
| | | **Cymorth i Brynu - Cymru** | **71,000** | **0** | **26,310** | **26,310** |
| | Rhaglen Eiddo Gwag | Rhaglen Eiddo Gwag | 10,000 | 0 | 0 | 0 |
| | | **Rhaglen Eiddo Gwag** | **10,000** | **0** | **0** | **0** |
| | Adfywio | Gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol | 49,808 | 49,808 | 12,800 | 62,608 |
| | | Rheoli'r Gwaith o Ddarparu Ardaloedd Adfywio Etifeddol | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Adfywio Awdurdodau Lleol | 10,888 | 10,888 | 0 | 10,088 |
| | | Adfywio Canol y Dref | 5,000 | 0 | 0 | 0 |
| | | **Cyfanswm Adfywio** | **65,696** | **60,969** | **12,800** | **72,696** |
| **Cyfanswm Cartrefi a Lleoedd** | | | **377,329** | **261,309** | **60,811** | **261,309** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm y Cyfalaf - Cymunedau a Threchu Tlodi** | | | **384,470** | **275,420** | **65,311** | **275,420** |
| | | | | | | |
| | **Cyfanswm Cyllideb DEL Cymunedau a Threchu Tlodi** | | **Cyllideb Atodol 2015-16 Mehefin 2015** | **Llinell Sylfaen 2016-17** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddrafft 2016-17** |
| | DEL Refeniw | | 216,130 | 211,230 | -2,076 | 209,154 |
| | DEL Cyfalaf | | 384,470 | 275,420 | 65,311 | 340,731 |
| | **CYFANSWM DEL** | | **600,600** | **486,650** | **63,235** | **549,885** |

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

CELG(4)-02-16 Papur 1 Annexe A / Paper 1 Annexe A

## PRIF GRŴP GWARIANT – CYMUNEDAU A THRECHU TLODI

### Trosolwg o'r Portffolio

Nod cyffredinol yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi yw uno gwaith Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wrth drechu tlodi a sicrhau dyfodol tecach, cynaliadwy i gymunedau, teuluoedd ac unigolion.

Yn ganolog i waith yr adran mae prif egwyddor drefniadol datblygu cynaliadwy. Ystyr hynny i ni yw pwyslais ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a diwylliannol pobl a chymunedau, gan ymgorffori gwerthoedd tegwch a chyfiawnder cymdeithasol, ac edrych at y tymor hirach yn y penderfyniadau a wnawn yn awr, at fywydau plant ein plant yn ogystal â chenedlaethau'r presennol.

### Proffil Gwariant

| **CYLLIDEB ADNODDAU – Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | **£000au** |
|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Llinell Sylfaen 2015-16** | **Dyraniadau Ychwanegol o Gronfeydd Wrth Gefn** | **Newidiadau ac Ail-flaenoriaethu Cyllidebol** | **2016-17 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd** |
| *Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd* | *125,384* | *0* | *-946* | *124,438* |
| Cefnogi Cymunedau a Phobl | 58,433 | 0 | -852 | 57,581 |
| Cydraddoldeb a Chynhwysiant | 2,016 | 0 | 0 | 2,016 |
| Polisi Tai | 136,659 | 0 | -1,105 | 135,554 |
| Cartrefi a Lleoedd | 14,122 | 0 | -119 | 14,003 |
| | | | | |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **336,614** | **0** | **-3,022** | **333,592** |
| | | | | |
| **CYLLIDEB CYFALAF - Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | **£000au** |
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Llinell Sylfaen 2015-16** | **Dyraniadau Ychwanegol o Gronfeydd Wrth Gefn** | **Newidiadau ac Ail-flaenoriaethu Cyllidebol** | **2016-17 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd** |
| *Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd* | *0* | *3,000* | *0* | *3,000* |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 12,450 | 500 | 0 | 12,950 |
| Polisi Tai | 1,641 | 4,000 | 0 | 5,641 |
| Cartrefi a Lleoedd | 261,329 | 60,811 | 0 | 322,140 |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **275,420** | **68,311** | **0** | **343,731** |
| | | | | |
| **Cymunedau a Threchu Tlodi – Crynodeb** | **Llinell Sylfaen 2015-16** | **Dyraniadau Ychwanegol o Gronfeydd Wrth Gefn** | **Newidiadau ac Ail-flaenoriaethu Cyllidebol** | **2016-17 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| DEL Adnoddau | 336,614 | 0 | -3,022 | 333,592 |
| DEL Cyfalaf | 275,420 | 68,311 | 0 | 343,731 |
| Cyfanswm DEL | 612,034 | 0 | -3,022 | 677,323 |
| | | | | |
| **Cyfanswm y gwariant a reolir yn flynyddol** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | |
| **Cyfanswm – Cymunedau a Threchu Tlodi** | **612,034** | **0** | **-3,022** | **677,323** |

## Y prif newidiadau yn y gwariant

Y prif newidiadau o ran Refeniw:

Y Trydydd Sector – Gostyngwyd £0.7 miliwn
Atal Digartrefedd – Gostyngwyd £0.5 miliwn
Byw'n Annibynnol – Gostyngwyd £0.6 miliwn
Cynhwysiant Ariannol – Gostyngwyd £1.5 miliwn
£1.5 miliwn ychwanegol ar gyfer Cynhwysiant Digidol

Y prif newidiadau o ran Cyfalaf:

£26.3 miliwn ychwanegol i gefnogi Cam II o Gymorth i Brynu - Cymru
£21.7 miliwn ychwanegol i gefnogi buddsoddi rhagor mewn tai fforddiadwy yng Nghymru.
£12.8 miliwn ychwanegol i gefnogi buddsoddi rhagor trwy Leoedd Llewyrchus Llawn Addewid.
£4 miliwn ychwanegol i gefnogi Byw'n Annibynnol
£0.5 miliwn ychwanegol tuag at safleoedd sipsiwn newydd.

## Cymunedau a Threchu Tlodi

Effeithiau

Wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy i broses y gyllideb yn yr adran Cymunedau a Threchu Tlodi, gwnaethpwyd penderfyniadau sy'n adlewyrchu'r pum ffordd o weithio o dan egwyddor datblygu cynaliadwy:

- *Cydweithio* – cydnabod na all llawer o'r atebion i'r heriau 'cynaliadwyedd' mae Cymru'n eu hwynebu gael eu datrys gan un sefydliad yn unig. Bydd parhau i gefnogi cyngor ar ddatblygu cynaliadwy i bob sector yn helpu wrth ganfod cyfleoedd i gydweithio. Byddwn hefyd yn parhau i achub ar gyfleoedd i gydweithio ar draws y Llywodraeth a chyda phartneriaid eraill, gan gynnwys y trydydd sector, er mwyn sicrhau bod rhaglenni a gwasanaethau yn cyrraedd y cymunedau sydd eu hangen fwyaf.
- *Integreiddio* - mae gan ein rhaglenni Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf ganlyniadau a rennir sy'n hyrwyddo ffyniant a

chyflogaeth, dysgu a chyflawni potensial, ac iechyd a lles. Maent hefyd yn helpu i gyflawni'r amcanion a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

- *Hirdymor* – buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar a chymorth i deuluoedd, gan fod y dystiolaeth yn dangos y bydd hyn yn arwain at fwy o fuddiannau yn yr hirdymor.
- *Atal* – ceisio mynd i'r afael â phroblemau yn y fan a'r lle, yn hytrach na mynd i'r afael â chanlyniadau'r problemau hyn yn ddiweddarach. Mae dulliau ataliol ac ymyriadau cynnar nid yn unig yn fuddiol i bobl a chymunedau ond gallant hefyd sicrhau arbedion cost hirdymor. Mae'r dull gweithredu hwn yn ganolog i'n rhaglenni trechu tlodi, yn enwedig Teuluoedd yn Gyntaf, a'n dulliau o fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a wynebir gan bobl â nodweddion gwarchodedig.
- *Ymgysylltu* – cydnabod pwysigrwydd cynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt: er enghraifft, mae cyfranogiad y gymuned yn un o nodweddion allweddol rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Mae blaenoriaethu anghenion y tlotaf a diogelu'r rhai mwyaf difreintiedig a mwyaf agored i niwed yn hollbwysig, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn darparu fframwaith pwysig i wneud hyn. Yn benodol, mae camau gweithredu i drechu tlodi a chamau gweithredu i leihau anghydraddoldebau nid yn unig yn ategu ei gilydd ond yn adeiladu ar ei gilydd hefyd.

Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl sydd â nodweddion gwarchodedig penodol yn wynebu mwy o risg o fyw mewn aelwydydd incwm isel ac felly bydd mentrau i drechu tlodi yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hynny. Gwyddom hefyd fod rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, rhieni unigol (menywod yn bennaf), a phobl iau nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant yn wynebu mwy o risg o fyw mewn cartrefi incwm isel. Yn arbennig, mae cynrychiolaeth anghymesur o bobl anabl mewn cartrefi economaidd anweithgar ac aelwydydd heb waith. Byddwn yn parhau i nodi cyfleoedd i gysoni Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru â'r amcanion yn y Strategaeth Tlodi Plant a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, a chynorthwyo'r plant a'r teuluoedd hynny sydd â nodweddion gwarchodedig penodol. Mae mwy o bwyslais eisoes ar fonitro canlyniadau'r grwpiau hynny sy'n wynebu risg o fyw mewn tlodi a'r rhai â nodweddion gwarchodedig o fewn rhaglenni'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi.

**Cymunedau yn Gyntaf**

Mae cyllideb y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi'n cael ei chynnal ar sail arian gwastad yn y flwyddyn drosiannol hon.

<u>Effeithiau</u>

Mae'r rhaglen hon yn gwneud cyfraniad pwysig i'r gwaith o sicrhau gwelliannau mewn canlyniadau iechyd, canlyniadau addysg a chanlyniadau economaidd yn y 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru gyda'r nod hirdymor o gyfrannu

at liniaru tlodi parhaus. Yn unol â'n hegwyddor o atal, mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar godi Cyrhaeddiad Addysgol, gwella Iechyd a Lles, a chynyddu ffyniant a chyflogaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar leihau diweithdra ymysg pobl ifanc. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen allweddol yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Mae'n darparu gwasanaethau trwy 19 Corff Cyflenwi Arweiniol sy'n rheoli 52 o Glystyrau sy'n cynnwys y cymunedau yn y 10% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) mwyaf difreintiedig (seiliedig ar ddata o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011) a 24% o boblogaeth Cymru.

Mae clystyrau Cymunedau yn Gyntaf wedi'u seilio ar y 10% o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ôl diffiniad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Maent yn cynnwys tua chwarter o boblogaeth Cymru. Mae clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn adrodd ar y gwaith cyflenwi yn erbyn fframwaith canlyniadau o dan dair blaenoriaeth: ffyniant a chyflogaeth; dysgu a chyflawni potensial; iechyd a lles – a set o fesuriadau perfformiad allweddol cysylltiedig.

Cafwyd proses ymgynghori ac ymgysylltu helaeth cyn i Raglen Cymunedau yn Gyntaf newid i'w ffurf bresennol, a oedd yn cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig. Ceir cyfarfodydd chwarterol gyda Chyrff Cyflenwi Arweiniol, cyfarfodydd rhanbarthol chwarterol gyda rheolwyr clystyrau ac adolygiadau rheolaidd o gynlluniau clystyrau ar gynnwys cymunedau.

Mae gwelliannau yn y canlyniadau yr adroddwyd arnynt yn cefnogi blaenoriaethau ar draws ystod eang o weithgarwch Llywodraeth Cymru, yn arbennig ym mhortffolios Iechyd ac Addysg. Yn 2014/15 adroddodd Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf fod:

- 3,534 o bobl wedi cael swyddi
- 11,050 o blant wedi gwella eu perfformiad academaidd
- 6,043 wedi gwella eu presenoldeb yn yr ysgol
- 14,981 wedi cynyddu eu gweithgarwch corfforol
- 3,761 wedi cymryd rhan mewn chwaraeon unwaith yr wythnos.

Mae'n arwyddocaol bod Cymunedau yn Gyntaf wedi cynorthwyo â'r gwaith o weithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion trwy arian cyfatebol. Bwriedir i gynnwys ac ysgogi'r canlyniadau yn y grant craidd yn hytrach nag fel ychwanegyn adeiladu ar y gwaith cyflawni, a gwreiddio cydweithio agos yn ddyfnach fel un o'r cynseiliau canolog. Bydd mantais ychwanegol i hyn, sef lleihau'r baich, sydd weithiau'n anghymesur, sy'n gysylltiedig â grant cymharol fach. Bydd canolbwyntio ar weithgareddau craidd yn arwain at gynnwys yn ddyfnach yn rhaglen graidd Cymunedau yn Gyntaf ganlyniadau sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd ag arian cyfatebol y Grant Amddifadedd Disgyblion.

Bydd Cymunedau yn Gyntaf yn parhau â'i chefnogaeth a'i hymrwymiad i raglen Esgyn, sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl o aelwydydd di-waith a'r rheiny sy'n fwyaf tebygol o wynebu tlodi parhaus.

Yn hanfodol, bydd y seilwaith craidd yn parhau i fodoli ym mhob un o ardaloedd y 52 o glystyrau, gan ddarparu ffordd o gyflawni rhaglen Cymunedau am Waith a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, gan ddefnyddio ein cydymdrechion i weithio gyda'r bobl sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys nifer anghymesur o bobl â nodweddion gwarchodedig.

Rydym yn bwriadu gwarchod buddsoddi mewn rhai prosiectau canlyniadau a rennir gan gynnwys y rheiny gyda StreetGames a Chyngor ar Bopeth Cymru. Mae StreetGames yn gweithio yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, gan ddefnyddio chwaraeon fel ffordd o ymgysylltu â phobl ifanc (gan helpu i gyflawni nifer o ganlyniadau fel y nodir uchod). Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n cydgysylltu'n genedlaethol y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyngor mewn 36 o Glystyrau ar draws Cymru, pob un ohonynt yn cael ei ddarparu gan y ganolfan Cyngor ar Bopeth leol, i ddarparu cymorth allestyn i Glystyrau. Mae natur gwaith y ddau sefydliad hyn yn golygu y byddai rhoi'r gorau i'w cynorthwyo yn debygol o gael effaith anghymesur ar unigolion â nodweddion gwarchodedig.

**Cynhwysiant Ariannol**

Gostyngwyd y gyllideb hon £1.25 miliwn.

<u>Effeithiau</u>

Bydd torri £1.25 miliwn o'r Gyllideb Cynhwysiant Ariannol yn cael effaith ar y Gronfa Cymorth Dewisol. Byddai angen lleihau cyllideb grant y Gronfa yn 16/17, gan olygu y byddai llai o arian ar gael i unigolion yn y cynllun hwn a arweinir gan y galw. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i lefel bresennol y gwariant yn 15/16 gyrraedd yr un lefel ag y byddai cyllideb ddiwygiedig ar gyfer 16/17 yn ei chyrraedd, felly, os yw'r galw presennol / ansawdd presennol y ceisiadau'n aros yr un peth, y gobaith yw y bydd y swm hwn yn ddigon i sicrhau y bydd y rheiny sydd angen yr arian yn gallu ei gael. Fodd bynnag, un elfen anhysbys fydd effaith Diwygio Lles ac, yn fwy penodol, cyflwyno Credyd Cynhwysol. Felly, bydd angen parhau i fonitro'r gyllideb yn fanwl, gan ddiwygio cymhwysedd, o bosibl, os bydd cynnydd yn nifer y ceisiadau priodol.

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol ar gael i bob grŵp yng Nghymru a chofnodir ystadegau ynghylch oedran, tarddiad ethnig, rhyw, anabledd, statws priodasol a chyfeiriadedd rhywiol. Fel rhan o'r contract mae'r Rheolwr Partner sy'n gweithio yng Nghronfa'r Teulu yn ystyried y grwpiau hynny nad ydynt yn manteisio ar y Gronfa neu sydd â mynediad cyfyngedig i'r Gronfa ar hyn o bryd ac yn gweithio i godi ymwybyddiaeth. Mae'r gwaith hwn yn parhau. Dylid nodi, o'r rheiny a ddewisodd lenwi'r ffurflenni priodol, yn ail chwarter 15/16, roedd 26% o'r bobl a gafodd eu cynorthwyo rhwng 6 a 24 oed, roedd 47% rhwng 25 a 39 oed ac roedd 22% rhwng 40 a 54 oed. O ran cyfeiriadedd rhywiol, dywedodd 93% o'r bobl eu bod yn heterorywiol, roedd 3% yn hoyw/lesbiaidd ac roedd 2% yn ddeurywiol. Yn nhermau anabledd, dywedodd 15% o'r bobl a gafodd eu cynorthwyo fod ganddynt anabledd neu gyflwr cysylltiedig ag iechyd. Ni fydd y newidiadau yng nghyllideb y Gronfa

Cymorth Dewisol yn effeithio ar y gwaith o weinyddu'r Gronfa, sy'n cael ei reoli gan Northgate Public Services.

Byddai dewisiadau eraill yn lle toriadau yng nghyllideb Cynhwysiant Ariannol yn golygu cwtogi ar y cymorth a roddir i wasanaethau cyngor neu undebau credyd. O ystyried gwasanaethau cynghori yn gyntaf, caiff cyllideb 16/17 ei chadw fel y mae gan fod y gwaith hwn yn canolbwyntio ar weithredu ataliol yn nhermau rhoi cyngor ar reoli arian / materion yn ymwneud â dyledion a hawlio budd-daliadau. Gwelwyd effeithiau, yn enwedig ar faint o fudd-daliadau a gafwyd o ganlyniad i'r cyngor a roddwyd. Mae'r Grant Rheng Flaen yn darparu £2 filiwn y flwyddyn ac yn 2014/15 bu hyn yn fodd i sefydliadau ymateb i fwy na 30,000 o geisiadau am wybodaeth a chyngor, gan sicrhau bron £6.5 miliwn mewn enillion o ran incwm. Yn hanner cyntaf 2015/16, ymatebwyd i fwy na 26,500 o geisiadau, gan sicrhau bron £5 miliwn mewn enillion o ran incwm. O dan brosiect Cyngor Da, Bywyd Da, gyda chyllid o £2.2 miliwn y flwyddyn, yn hanner cyntaf 2015/16 mae'r cynllun wedi cynorthwyo mwy na 9,000 o bobl a chadarnhawyd y cafwyd budd-daliadau o fwy na £10 miliwn. Yn nhair blynedd gyntaf y cynllun, rhwng 2012 a 2015, mae Cyngor Da, Bywyd Da wedi helpu bron 60,000 o bobl a chadarnhawyd y cafwyd budd-daliadau o fwy na £52 miliwn.

Mae'r cyllid ar gyfer Undebau Credyd eisoes yn cael ei leihau gan fod yr elfen hon eisoes yn cael ei thapro. Rhoddwyd gwybod i'r Undebau Credyd am hyn pan ddyfarnwyd y cyllid yn 2014.

**Cynhwysiant digidol**

Rhoddir cymorth cyllidebol gwerth £1.250 miliwn i weithgareddau Cynhwysiant Digidol yn 2016-17. Ar yr wyneb, mae hyn yn edrych fel cynnydd o gymharu â'r llynedd. Fodd bynnag, nid felly y mae gan fod cyllid cynhwysiant digidol y llynedd wedi cael ei ddarparu trwy ddwyn ymlaen incwm ERDF 2014-15, incwm nad yw ar gael mwyach.

<u>Effeithiau</u>

Rydym wedi gwarchod y cyllid ar gyfer Cymunedau 2.0 ym mis Mawrth 2015 er mwyn mynd i'r afael ag allgau digidol ar adeg pan mae mwy o wasanaethau cyhoeddus hanfodol yn mynd ar lein ac er mwyn lleihau'r risg y bydd dinasyddion mwy difreintiedig yn cael eu gadael ar ôl. Hefyd, mae angen cymorth cynhwysiant digidol i helpu i sicrhau y bydd pawb yn cael budd o'r buddsoddiad sylweddol yn y seilwaith band eang trwy raglen Cyflymu Cymru. Mae gwaith cynhwysiant digidol yn hollbwysig wrth helpu pobl i oresgyn y rhwystrau i ddefnyddio'r rhyngrwyd, pa un a ydynt yn ymwneud ag ysgogiad, sgiliau neu fforddiadwyedd.

**Y Trydydd Sector**

Mae Cynllun y Trydydd Sector (2014) yn adnewyddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid craidd i gyrff Seilwaith y Trydydd Sector ar draws Cymru, yn bennaf Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol. Mae'r Cynllun yn cynnwys ein Cod Ymarfer ar gyfer

Ariannu’r Trydydd Sector sy’n nodi’r 17 Egwyddor a chyngor ar yr amrywiaeth o ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru’n darparu cyllid. Mae’r cyrff Seilwaith yn cydweithio’n agos â’i gilydd ac yn sicrhau bod cyngor a chyfarwyddyd cyson ar gael yn rhwydd i sefydliadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr unigol yn unrhyw le yng Nghymru.

Mae cyllideb y Trydydd Sector yn cynnwys y gwaith hwn, ynghyd â grantiau i gefnogi gwirfoddoli, yr Uned Cofnodion Troseddol yn CGGC a chyllid craidd ar gyfer y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru. Bydd cyllideb y Trydydd Sector yn gostwng £0.681 miliwn o £6.805 miliwn yn 2015/16 i £6.125 miliwn yn 2016/17.

Mae cynigion i reoli’r gostyngiad hwn wedi cael eu datblygu ac yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd. Cymerir gofal i sicrhau y caiff yr arbedion angenrheidiol eu dosbarthu’n briodol ac yn deg, ond mae’n anochel y bydd effaith ar CGGC, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a rhai eraill sy’n cael y cyllid. Mae’n bosibl y bydd gostyngiadau mewn cyllid oddi wrth Awdurdodau Lleol neu ffrydiau incwm eraill hefyd yn effeithio ar y sefydliadau hyn.

Mae’r gostyngiad yn y gyllideb yn dilyn toriadau o 10% yn y blynyddoedd blaenorol, sy’n golygu nad oes llawer o le i arbed arian o fewn y strwythurau presennol. Mae’n bosibl y bydd rhai Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn peidio â bod yn hyfyw o ganlyniad i doriadau parhaus i’w cyllid. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i siarad â CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol yn ystod y flwyddyn nesaf am gydweithio agosach ac uniadau posibl er mwyn adlewyrchu a sicrhau bod gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol yr arfau i gynorthwyo â chynnwys sefydliadau cymunedol a sefydliadau yn y Trydydd Sector wrth ddylanwadu ar y newidiadau yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Fodd bynnag, bydd angen inni barchu annibyniaeth y sefydliadau hyn a hefyd derbyn nad yw’r broses newid hon heb gost. Bydd angen i adnoddau, yn nhermau amser a chyllid, fod ar gael mewn rhai ardaloedd er mwyn galluogi a chynorthwyo â’r newid hwn.

<u>Effeithiau</u>

- Swyddi

Rhagwelir y bydd gostwng y gyllideb 10% yn cael effaith ar swyddi yng nghyrff Seilwaith y Trydydd Sector. Os bydd Awdurdodau Lleol ac arianwyr eraill yn gwneud toriadau hefyd, mae’n eithaf posibl y gallai’r canlyniad cyfun olygu y collir nifer sylweddol o swyddi. Fodd bynnag, efallai y bydd cyfleoedd am gynnydd yng ngweithlu’r Trydydd Sector yn codi gyda rhaglenni newydd a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae’n bosibl y bydd cyfleoedd hefyd wrth i’r Trydydd Sector gymryd mwy o ran yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

- Gwaith cyflenwi

Mae’n bosibl y bydd gostyngiad yn y cyllid yn golygu y bydd rhai Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol yn peidio â bod yn hyfyw gan arwain at golli gwasanaethau mewn rhai ardaloedd. Gallai hyn arwain at leihad yn y gallu i sefydlu a chefnogi sefydliadau’r Trydydd Sector. Yn yr un modd, gallai newid y ffordd

yr ydym yn cefnogi'r Uned Cofnodion Troseddol hefyd effeithio ar sefydliadau, ar waith cyflenwi ond yn arbennig ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Er mwyn lliniaru hyn, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n parhau i siarad â CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol yn ystod y flwyddyn nesaf am gydweithio agosach ac uniadau posibl. Ar hyn o bryd mae asesiadau manwl o effeithiau a risgiau'n cael eu cyflawni er mwyn canfod y ffordd briodol o gynorthwyo sefydliadau ond hefyd er mwyn lliniaru unrhyw risg a fydd yn codi o newidiadau yn y cymorth hwn.

- Rhyngwyneb Rhaglenni/Polisïau

Ar hyn o bryd mae'r sefydliadau Seilwaith yn arwain ymatebion a myfyrdod cyrff cymunedol a gwirfoddol ar nifer o fentrau Llywodraeth Cymru o ran deddfwriaeth a rhaglenni. Gallai gostyngiad o 10% effeithio ar y gallu hwn mewn rhai ardaloedd neu feysydd arbenigol. Mae angen i'r cyrff Seilwaith barhau i adlewyrchu neu wireddu bwriadau polisi yn, er enghraifft, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 ac Egwyddorion ar gyfer Gweithio gyda Chymunedau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Diwygio Llywodraeth Leol. Mae'r rhain yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned, gweithgarwch cymunedol ac actifyddion cymunedol. Mae'n bosibl y bydd gostyngiadau yn y Seilwaith yn cael effaith niweidiol ar y rhan y bydd sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn ei chymryd yn yr agenda Cymunedau Gweithredol. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n parhau i siarad â CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol yn ystod y flwyddyn nesaf am gydweithio agosach ac uniadau posibl. Bydd hyn yn sicrhau bod gan CGGC a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yr arfau i gynorthwyo â chynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn yr agenda cymunedau gweithredol.

**<u>Diwygio Lles/Trechu Tlodi</u>**

Er mwyn gwella effeithlonrwydd cyllidebol, bydd gweithgareddau sy'n cael eu cynorthwyo o dan Linell Wariant Diwygio Lles yn y Gyllideb yn cael eu huno yn Llinell Wariant Trechu Tlodi yn y Gyllideb. Cedwir y gyllideb ar lefelau 2015/16, gyda'r grant rheolaidd o £79,000 ar gyfer hyfforddiant lles i Awdurdodau Lleol yn cael ei drosglwyddo i Linell Wariant Trechu Tlodi.

<u>Effeithiau</u>

Mae trechu tlodi'n un o'r prif flaenoriaethau ar draws Llywodraeth Cymru. Bydd cadw lefel y gyllideb fel y mae yn golygu y gellir parhau i ymgysylltu â phartneriaid. Mae pwyslais cryf ar sicrhau bod y blaenoriaethau cywir yn cael sylw parhaus er mwyn gwella canlyniadau i deuluoedd incwm isel a'n bod yn cyrraedd y targedau a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Rhan bwysig o'r gwaith hwn yw dwyn ynghyd randdeiliaid gwahanol o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r Trydydd Sector er mwyn gwneud y gorau o adnoddau ac arbenigedd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau'n cael eu rhannu gan y partneriaid a bod yr ymyriadau'n cydategu ei gilydd ac er mwyn osgoi dyblygu.

Yn 2015/16 cynhaliwyd digwyddiadau mawr a bach gyda phartneriaid, gan gynnwys digwyddiadau rhanbarthol yn y de a'r gogledd; cynhaliwyd uwchgynadleddau i ddwyn ynghyd sectorau gwahanol; ymgysylltwyd â Hyrwyddwyr Gwrth-dlodi Awdurdodau Lleol; a pharhawyd i gefnogi'r Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi a'r Grŵp Ymarferwyr. Bydd ymgysylltu ar y raddfa hon ac mewn modd tebyg yn cael ei gefnogi yn 2016/17.

Hefyd, mae defnyddio gwaith ymchwil a gwerthuso i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth yn sylfaenol i ymdrechion effeithiol i drechu tlodi, felly caiff hyn ei ystyried hefyd lle bo'n briodol a lle gellir ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth bresennol. Mae'r gwaith ymchwil sy'n dadansoddi effaith diwygio lles yn 2015-2016 yn cael ei ariannu o gyllideb ymchwil y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rydym yn disgwyl manylion oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch ehangu Credyd Cynhwysol ymhellach, yn dilyn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Rhoddir rhagor o ystyriaeth i'r posibilrwydd o ymestyn y contract am ddarparu hyfforddiant ar Gredyd Cynhwysol i staff rheng flaen Awdurdodau Lleol a phartneriaid allweddol ar ôl diwedd mis Mawrth 2016 unwaith y bydd y manylion hyn yn hysbys. Byddai unrhyw estyniad i'r contract trwy gais gwyro trwy gaffael.

**Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant**

Cadwyd y grant hwn ar lefel 2015-16.

<u>Effaith</u>

Mae ein hymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb a thegwch yn cael ei adlewyrchu yn y penderfyniad i warchod y cyllid ar gyfer y Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar gyfer 2016-17. Mae Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2014-2017 yn ariannu 16 sefydliad yn y Trydydd Sector sy'n gwneud gwaith ar draws Cymru, gan gyrraedd amrywiaeth o bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig a chan hybu cydraddoldeb, mynd i'r afael â gwahaniaethu a hybu cymunedau cydlynus a chynhwysol ar draws Cymru. Mae gwaith sefydliadau yn y trydydd sector yn bwysig o ran cyfrannu at ymdrechion Llywodraeth Cymru i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb yn ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol.

Bydd cadw lefel y cyllid fel y mae yn caniatáu ar gyfer effeithiau cadarnhaol i'r grwpiau gwarchodedig ar draws Cymru. Mae'r cyllid yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gydraddoldeb oherwydd ei fudd uniongyrchol i bobl sydd yn aml yn wynebu anfantais, gwahaniaethu a chael eu hallgáu. Mae'r cyllid grant hwn hefyd yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drechu tlodi yng Nghymru. Mae tystiolaeth yn dangos bod grwpiau gwarchodedig penodol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi, e.e. pobl anabl, rhieni unigol, sy'n fenywod yn bennaf, grwpiau lleiafrifoedd ethnig penodol a theuluoedd â phlant anabl. Mae'r cyllid grant yn cynorthwyo â'r gwaith o weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth

Cymru, sy’n cyd-fynd â’r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, e.e. wrth fynd i’r afael â gwahaniaethau mewn tâl a chyflogaeth, lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a helpu pobl anabl i fyw’n annibynnol.

Ym mis Ebrill 2015 lansiodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ymgynghoriad ar Raglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-2020. Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ar y fframwaith cyllido yn y dyfodol ar gyfer cydraddoldeb a chynhwysiant er mwyn sicrhau y ceir gwerth am arian cyhoeddus o hyd a bod y cynllun grant yn adlewyrchu’r cyd-destun economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol heddiw ac yn y dyfodol yng Nghymru.

**Teithwyr Sipsiwn**

Bydd cyllid Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cynyddu £0.5 miliwn i £2 miliwn yn 2016-17. Mae’r Grant Cyfalaf Safleoedd yn darparu cyllid ar gyfer adnewyddu safleoedd presennol Sipsiwn a Theithwyr Awdurdodau Lleol a datblygu rhai newydd.

<u>Effeithiau</u>

Dylai newidiadau yn y gyllideb arwain at ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Awdurdodau Lleol ychwanegol, a fydd yn lleihau digartrefedd ymhlith y cymunedau hyn. Mae tangyflenwad sylweddol o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig yng Nghymru ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif bod angen rhwng 184 a 218 yn rhagor o leiniau (pob aelwyd ar safle) ac mae'r Awdurdodau Lleol eu hunain wedi amcangyfrif bod angen 301 ohonynt. Fodd bynnag, mae pob awdurdod lleol yn gwneud Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar hyn o bryd, a fydd yn rhoi amcangyfrif cywirach o’r angen am leiniau ar gyfer cartrefi symudol.

Bydd mwy o safleoedd yn helpu Llywodraeth Cymru i ddangos ei bod yn helpu i ‘hwyluso ffordd draddodiadol o fyw Sipsiwn’ (fel sy’n ofynnol yn sgil achos yn Llys Hawliau Dynol Ewrop, Chapman v UK, 2001). Bydd hefyd yn cyfrannu at Amcan 6 o Gynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru, sef adlewyrchu anghenion pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn y cyflenwad tai. Bydd safleoedd sefydlog a phriodol yn gwella mynediad at wasanaethau ymysg y bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, gan helpu i drechu tlodi. O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn wrth arfer eu swyddogaethau. Bydd darparu llety diwylliannol briodol – gyda gwell mynediad at gyfleusterau addysg, iechyd a chwarae – o fudd i’r holl blant Sipsiwn a Theithwyr dan sylw. Dylai buddsoddi mewn safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ddarparu buddion o ran llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor wrth i gymunedau ddod yn fwy cynhwysol ac wrth i fuddiolwyr y safleoedd gael mwy o allu i ddefnyddio cyfleusterau cymunedol ehangach.

Yn y tymor hirach, bydd creu mwy o safleoedd yn cael effaith ganlyniadol gadarnhaol ar Dai Cymdeithasol gan y bydd yn rhyddhau mwy o dai os gall Sipsiwn a Theithwyr symud i safle newydd. Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod Sipsiwn a Theithwyr fwy na dwywaith mor debygol o fyw mewn tai cymdeithasol â phoblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr (41 y cant o gymharu ag 16 y cant).

Mae llawer o’r teuluoedd a fyddai’n cael budd o leiniau ar safleoedd yn byw mewn gwersylloedd anawdurdodedig, ar leiniau gorlawn, neu mewn llety brics a morter gyda phroblemau canlyniadol o ran iechyd a lles yn sgil methiant i ymaddasu i dai diwylliannol amhriodol. Gwyddom fod Sipsiwn a Theithwyr â mwy o risg canlyniadau gwaeth o ran iechyd ac addysg. Byddai llety mwy priodol yn cefnogi defnydd targededig o gyllid grant addysg Llywodraeth Cymru i’r cymunedau hyn a byddai’n cefnogi mentrau imiwneiddio, ymysg llu o fuddion eraill. Mae’n arwyddocaol y bydd mwy o safleoedd awdurdodedig yn lleihau nifer y gwersylloedd anawdurdodedig, a fydd yn gwella cydlyniant cymunedol a ffydd yn y system cynllunio.

Nid oes unrhyw effaith ar y Gymraeg wedi cael ei nodi. Credir bod nifer y Sipsiwn a Theithwyr Cymraeg eu hiaith yn fach iawn, ond mae effaith safleoedd newydd ar ardaloedd Cymraeg yn ystyriaeth gynllunio y dylid ei hasesu cyn i geisiadau gael eu cyflwyno am gyllid.

Ysgrifennwyd at bob awdurdod lleol yn ystod 2013 er mwyn rhagweld yr angen tebygol am gyllid Grant Cyfalaf Safleoedd yn ystod 2015-16 a’r tu hwnt. Cyfrannodd dadansoddiad o ymatebion awdurdodau lleol at y penderfyniad i gynyddu’r grant hwn £2 miliwn i £3.5 miliwn ar gyfer 2015-16. Cyflawnwyd yr un ymarfer ym mis Gorffennaf 2015, ac mae hyn wedi nodi llai o alw am gyllid ychwanegol yn 2016-17 cyn i ddyletswyddau Deddf Tai (Cymru) 2014 arwain at alw ychwanegol ar gyfer 2017-18 ymlaen. Felly, mae dadansoddiad o ymatebion o fis Gorffennaf 2015 wedi arwain at benderfyniad i gynyddu’r grant hwn £0.5 miliwn i £2 miliwn ar gyfer 2016-17. Cyflawnir dadansoddiad arall er mwyn rhagweld y galw mewn cyllidebau yn y dyfodol.

Mae’r cynnydd yn y cyllid yn 2015-16 wedi arwain at ddyraniadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i ychwanegu 21 o leiniau rhyngddynt at eu safleoedd presennol. Mae’r cyllid hefyd wedi galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddatblygu ei safle Sipsiwn a Theithwyr cyntaf (4 llain).

Mae rhoi Rhan 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ar waith yn debygol o arwain at fwy o alw am gyllid Grant Cyfalaf Safleoedd. Dylai darparu cyllid ychwanegol i’r gyllideb hon gynorthwyo i roi’r ddeddfwriaeth ar waith yn gynt. Fodd bynnag, mae angen asesu lefel briodol cyllid yn ofalus gan gyfeirio at ofynion awdurdodau lleol er mwyn sicrhau caniatâd cynllunio cyn gwneud cais am gyllid.

Cyn mis Ebrill 2014, nid oedd unrhyw safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol wedi cael eu hagor yng Nghymru ers 1997. Mae’r sefyllfa hon wedi arwain at dangyflenwad sylweddol o leiniau, fel y tystia asesiadau awdurdodau lleol o lety

Sipsiwn a Theithwyr a nifer y gwersylloedd anawdurdodedig. Fodd bynnag, mae Rhan 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a chynnydd yn y cyllid i'r gyllideb hon yn 2015-16 a 2016-17 yn dechrau mynd i'r afael â'r diffyg.

Mae tystiolaeth o well mynediad at wasanaethau wrth fyw ar y safleoedd hyn yn cael ei hategu gan lawer o astudiaethau ymchwil, gan gynnwys dogfen y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'Inequalities experienced by Gypsy and Traveller communities: A review,' (2009). Mae Estyn hefyd wedi cydnabod ei bwysigrwydd i addysg plant.

Canfu ymchwil a wnaethpwyd gan Brifysgol Caerdydd yn 2002 o'r enw, "*At What Cost? The economics of Gypsy and Traveller encampments*" fod gwersylloedd anawdurdodedig yn costio o leiaf £6 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol ar draws y Deyrnas Unedig - £8 miliwn ym mhrisiau heddiw. Canfu'r ymchwil fod 88% o gyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi wynebu costau o ganlyniad i wersylloedd anawdurdodedig. Nododd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr mai'r costau i awdurdodau yn Lloegr oedd £18 miliwn y flwyddyn yn 2012. Mae Cyngor Dinas Bryste wedi cymryd rhan mewn model o fath Buddsoddi i Arbed ac wedi lleihau ei gostau o £200,000 i £5,000 y flwyddyn trwy ddarparu safleoedd awdurdodedig yn eu lle.

**Cyfleusterau Cymunedol**

Yn 2015/16 gwnaethpwyd trosglwyddiad un flwyddyn o £4.950 miliwn i gynllun Dechrau'n Deg. Yn 2016/17, bydd £10.950 miliwn ar gael i gefnogi prosiectau'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

<u>Effeithiau</u>

Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn gynllun cyfalaf sy'n canolbwyntio ar drechu tlodi. Rhagwelir y bydd y gyllideb fwy yn golygu y gellir cefnogi deuddeg i bymtheg prosiect ychwanegol yn 2016/17. Rhaglen dreigl yw'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol ac mae ganddi biblinell o brosiectau sydd eisoes yn cael eu datblygu.

Hyd yma, dyrannwyd cyllid gwerth £5.4 miliwn i 22 prosiect.

Mae defnyddwyr y cyfleusterau rydym yn eu cyllido eisoes yn dioddef effeithiau tlodi. Heb ein cyllid ni mae'n bosibl y byddai'n rhaid iddynt deithio ymhellach i ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau, o fanciau bwyd a mannau casglu undebau credyd i glybiau swyddi a hyfforddiant achrededig. Mae'r prosiectau rydym yn eu cyllido'n darparu llety i bobl ddigartref; yn helpu i greu lleoedd gofal plant er mwyn dileu rhwystrau i gyflogaeth a rhoi'r dechrau gorau i'n plant ifancaf; ac yn cynorthwyo â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynghori i bobl sydd mewn dyled.

Mae Cyfleusterau Cymunedol ar draws Cymru'n darparu cyfleoedd i unigolion wella eu bywydau trwy well cyrhaeddiad addysgol, gwell rhagolygon economaidd a gwell iechyd a lles. Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn helpu'r cyfleusterau hyn i aros yn addas i'r diben. Anogir ceisiadau i gysylltu â rhaglenni eraill Llywodraeth

Cymru i drechu tlodi, sef Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg lle bo hynny'n bosibl.

**Tai ac Adfywio**

Mae rhaglenni a pholisïau Tai ac Adfywio'n cefnogi'r canlynol:

- creu'r amodau gorau ar gyfer datblygu tai, gan gynyddu cyflenwad a gwella ansawdd tai fforddiadwy a thai'r farchnad yng Nghymru;
- atal digartrefedd a'r niwed y gall ei wneud i fywydau pobl
- gwella'r system tai gyffredinol, gan gynnwys gwasanaethau tai ac yn benodol cymorth i bobl fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl, yn arbennig y rheiny sy'n agored i niwed ac sydd angen cymorth ar adegau yn eu bywydau;
- lleoedd llewyrchus, llawn addewid, sydd â chysylltiadau da trwy ein polisïau Adfywio sy'n cynnal cymunedau cynaliadwy gan ddarparu gwell ansawdd bywyd.

Mae'r polisïau hyn yn cynnwys rhai o'r ysgogiadau allweddol mae eu hangen i sicrhau amrywiaeth fawr o ganlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, megis adeiladu 10,000 o gartrefi fforddiadwy newydd dros dymor y llywodraeth hon, ailddechrau defnyddio 5,000 o adeiladau sy'n wag ers amser hir, a chefnogi adeiladu hyd at 5,000 o gartrefi newydd trwy Gymorth i Brynu. Mae polisïau'r adran yn cyfrannu'n sylweddol at drechu tlodi, lleihau anghydraddoldebau, cynnal yr economi a darparu lleoedd deniadol i bobl fyw a gweithio ynddynt.

Mae datblygu cynaliadwy'n ganolog i bolisïau Tai ac Adfywio, gan ddiwallu anghenion tymor byr ac ar yr un pryd diogelu buddiannau hirdymor pobl Cymru. O gofio natur hirdymor ein polisïau megis adeiladu tai newydd neu ddarparu cymorth hirdymor i bobl sy'n agored i niwed, byddwn yn gwella'r canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol a'r canlyniadau iechyd sy'n dal i fod yn hanfodol i lesiant pobl, ansawdd eu bywydau yn y tymor hir a bywydau cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ein polisïau a'n rhaglenni hefyd yn cyfrannu at gyflawni saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn benodol Cymru lewyrchus, Cymru iachach a Chymru sy'n fwy cyfartal. Mae ein cymorth sy'n cynnwys, er enghraifft, rhaglen Cefnogi Pobl, gwasanaethau sy'n atal pobl rhag mynd yn ddigartref ac addasiadau i gartrefi pobl, o fudd i lawer o bobl sy'n agored i niwed a grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn cynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau a phroblemau iechyd, ond hefyd eraill mae angen iddynt gael eu hatal rhag mynd yn anabl e.e. trwy anafiadau difrifol yn sgil cwympo.

Ym Maes Rhaglen Wariant Polisi Tai, mae cyllideb Rhaglen Cefnogi Pobl wedi cael ei gwarchod gyda setliad arian gwastad. £124.4 miliwn fydd y gyllideb o hyd ar gyfer 2016-17.

Mae Rhaglen Cefnogi Pobl yn helpu pobl i ddod o hyd i gartref neu i gadw eu cartref ac i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl. Mae'r cymorth, sy'n helpu llawer o bobl

agored i niwed, yn cael ei ddarparu yng nghartrefi'r bobl eu hunain neu mewn hosteli, tai gwarchod neu dai â chymorth arbenigol o fathau eraill. Mae'n helpu i leihau'r galw ar wasanaethau'r GIG a gofal cymdeithasol.

Ym Maes Rhaglen Wariant Polisi Tai, mae'r gyllideb digartrefedd sy'n werth £5.907 miliwn yn cael ei defnyddio mewn modd strategol i gynorthwyo gwasanaethau digartrefedd statudol Awdurdodau Lleol ac i atal digartrefedd. Mae hon £524,000 yn llai na'r gyllideb llinell sylfaen ar gyfer 2015-16, nad yw'n cynnwys y swm ychwanegol untro o £4.9 miliwn a roddwyd i Awdurdodau Lleol i gynorthwyo â chostau trosiannol gweithredu'r ddeddfwriaeth digartrefedd newydd. Fodd bynnag, bydd dyraniad ychwanegol ar gael i Awdurdodau Lleol yn ystod y flwyddyn o'm portffolio i dalu costau ail flwyddyn gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd. O'i ystyried ar y cyd â'r arian sydd ar gael o'r gyllideb llinell sylfaen, mae'r cymorth a gaiff ei ddarparu yn unol â'r costau a nodwyd wrth ddatblygu Deddf Tai (Cymru) 2014.

Ym Maes Rhaglen Wariant Cartrefi a Lleoedd, mae cyllideb y Lwfans Atgyweiriadau Mawr yn aros yr un peth, sef £108 miliwn. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i barhau â'u rhaglenni i wella'r stoc tai cymdeithasol yng Nghymru.

Ym Maes Rhaglen Wariant Cartrefi a Lleoedd mae ein cyllid Adfywio wedi cynyddu £12.8 miliwn o'r cyllid llinell sylfaen i £73.5 miliwn. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl buddsoddi rhagor trwy ein fframwaith adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid er mwyn adeiladu ar y buddsoddiad a wnaethpwyd eisoes a gwella ymhellach ansawdd ein hasedau cymunedol a darparu'r lleoedd llewyrchus a ffyniannus mae pobl Cymru'n llawn haeddu byw ynddynt.

Ym Maes Rhaglen Wariant Cartrefi a Lleoedd mae ein cyllid ar gyfer tai fforddiadwy wedi cynyddu £21.7 miliwn, a fydd yn ein galluogi i gynorthwyo â'r gwaith o adeiladu llawer mwy o gartrefi fforddiadwy newydd yng Nghymru a chynhyrchu'r buddion cymdeithasol ac economaidd a'r buddion iechyd a ddaw wrth i bobl fyw mewn cartrefi diogel, cynnes a sicr.

Ym Maes Rhaglen Wariant Cartrefi a Lleoedd rydym wedi cyhoeddi £26 miliwn o gyllid ar gyfer blwyddyn gyntaf cam II o Gymorth i Brynu - Cymru. Bydd y cam newydd hwn yn ein cynllun tai'r farchnad agored, sydd wedi bod yn llwyddiant ysgubol, yn cynorthwyo â'r gwaith o adeiladu hyd at 6,000 o gartrefi newydd ac yn cynhyrchu buddion sylweddol o ran trechu tlodi trwy greu'r swyddi newydd a chynlluniau hyfforddi y mae eu hangen i adeiladu cynifer â hyn o gartrefi newydd.

Mae Cyllideb Byw'n Annibynnol wedi gostwng £524,000. Fodd bynnag, dylid nodi bod y gyllideb hon o £5.159 miliwn ar gyfer 2016-17 yn ganlyniad uno tair llinell gyllideb (£4.056 miliwn ar gyfer Gofal a Thrwsio; £0.432 miliwn ar gyfer y Rhaglen Addasiadau Brys, a'r gyllideb Datblygu Polisi Tai sy'n werth £1.252 miliwn). Bydd effaith y gostyngiad hwn yn cael ei lliniaru gan benderfyniadau ynghylch sut y defnyddir y gyllideb, lle mai gwarchod y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir gan

asiantaethau Gofal a Thrwsio, gan gynnwys y Rhaglen Addasiadau Brys, yw'r flaenoriaeth.

**Cefnogi Pobl**

Mae'r gyllideb Cefnogi Pobl wedi cael ei gwarchod ar lefel arian gwastad.

<u>Effeithiau</u>

Trwy warchod rhaglenni hanfodol megis rhaglen Cefnogi Pobl rydym wedi cydnabod yr effaith bwysig mae gofal cymdeithasol yn ei chael ar y bobl fwyaf agored i niwed, boed hynny yn sgil henaint neu anabledd neu'r angen i ddiogelu plant. Nid yn unig mae'r rhaglen hon yn darparu cymorth cysylltiedig â thai i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed ac sydd wedi'u hallgau'n gymdeithasol fwyaf yng Nghymru, mae hefyd yn helpu unigolion a theuluoedd sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref i ddod o hyd i gartref ac i gadw eu cartref ac i fyw'n annibynnol, yn ogystal â gwneud cyfraniad allweddol i'n hagenda Trechu Tlodi. Mae'r rhaglen yn enghraifft o gamau gweithredu y gellir eu cymryd i atal neu leihau'r angen am ymyriadau mwy costus gan y GIG a/neu ofal cymdeithasol. Mae'n helpu unigolion a theuluoedd ac, mewn rhai achosion, yn cynorthwyo pobl sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'r Rhaglen yn cael ei chyflawni wrth i Awdurdodau Lleol weithredu mewn Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol gan mai hwy sydd yn y lle gorau i ganfod anghenion lleol a phenderfynu ar flaenoriaethau lleol, ac felly targedu'r cymorth ar y rheiny sydd ei angen. Mae'n cynorthwyo rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru. Mae'n bosibl bod pobl o rai o'r grwpiau â nodweddion gwarchodedig, e.e. oedran neu anabledd, yn fwy agored i niwed ac felly'n fwy tebygol o fod angen defnyddio'r gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, darperir y gwasanaethau ar sail anghenion yr unigolyn nid oedran neu ddeiliadaeth yn unig. Mae hyn yn bwysig gan fod gan Gymru gyfran fawr o breswylwyr anabl neu â phroblem iechyd hirdymor sydd yn y perygl mwyaf o fyw mewn tlodi.

Mae rhaglen Cefnogi Pobl yn helpu i leihau'r galw ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy costus. Cafwyd rhagor o dystiolaeth o effaith y Rhaglen ar y GIG, a'i buddion iddo. Mae'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'n hastudiaeth ddichonoldeb yn awgrymu gostyngiad hirdymor cyffredinol yn y defnydd o wasanaethau meddygon teulu gan y rhan fwyaf o'r grwpiau defnyddwyr ar ôl iddynt gael cymorth gan y rhaglen, a bod patrymau tebyg i'w gweld yn y defnydd o Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys gan rai grwpiau defnyddwyr.

Mae'r setliad arian gwastad yn golygu y gall Awdurdodau Lleol a'u partneriaid barhau i ddarparu gwasanaethau sy'n lleihau'r risg y bydd pobl agored i niwed yn mynd yn ddigartref. Bydd rhywfaint o bwysau ariannol o hyd, ond gall hyn helpu i hoelio sylw ar drylwyredd wrth ganfod anghenion ac effaith, effeithiolrwydd a gwerth cyffredinol am arian y cymorth a ddarperir. Dyma'r grwpiau risg uchel a nodir:

- teuluoedd ag anghenion cymhleth a theuluoedd sydd o dan fygythiad digartrefedd
- plant, pobl ifanc o dan 18 oed
- pobl ifanc sy’n agored i niwed/troseddwyr ifanc
- gofalwyr ifanc
- pobl sy’n camddefnyddio alcohol a sylweddau
- pobl sy’n cysgu ar y stryd
- rhai pobl sengl sy’n ddigartref hirdymor
- pobl anabl.

Mae pob un o’r grwpiau hyn yn wynebu risg anghymesur o fyw mewn tlodi. Oherwydd bod y gyllideb wedi’i gwarchod, disgwylir mai bach iawn fydd yr effeithiau ar grwpiau allweddol, megis yr effeithiau uniongyrchol ar fenywod, pobl sengl ddigartref (dynion yn bennaf, yn ôl pob tebyg) a phobl anabl.

Er i’r gyllideb gael ei gwarchod, byddwn yn parhau i weithio’n agos gydag Awdurdodau Lleol a Phwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o’r cyllid sydd ar gael. Mae’r rhaglen yn gwneud cyfraniad sylweddol i atal pobl rhag mynd yn ddigartref ac rydym yn awyddus i weld mwy o gysylltiadau rhwng y Rhaglen a gwasanaethau digartrefedd statudol, ac fel rhan o gydweithio agosach rhwng meysydd tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

**Digartrefedd**

Bu gostyngiad o £0.524 miliwn yng nghyllideb Digartrefedd.

<u>Effeithiau</u>

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud mwy i atal digartrefedd yn y lle cyntaf ac i gyflawni’r nod o ddileu’r angen i neb gysgu ar y stryd. Mae atal digartrefedd yn y lle cyntaf yn ganolog i’r ddeddfwriaeth digartrefedd newydd, a ddaeth i rym ym mis Ebrill eleni trwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Mae ein cyllideb Atal Digartrefedd yn cynorthwyo â rhaglen o waith sy’n gyson â’r nod atal yn y ddeddfwriaeth newydd. Mae’n darparu cyllid i Awdurdodau Lleol ac i amrywiaeth o sefydliadau yn y Trydydd Sector, y mae’r ddau fath o gorff yn ategu gwasanaethau digartrefedd statudol. Yn benodol, mae’n darparu gwasanaethau i bobl agored i niwed y rhoddir cymorth ychwanegol iddynt i’w hatal rhag mynd yn ddigartref neu i helpu pobl ddigartref i gael a chadw cartrefi cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cymorth i:

- bobl ifanc sy’n ddigartref neu mewn perygl o fynd yn ddigartref;
- pobl anabl sy’n ddigartref neu mewn perygl o fynd yn ddigartref;
- pawb sy’n ddigartref neu mewn perygl o fynd yn ddigartref, a fyddai’n cynorthwyo dynion a menywod fel ei gilydd;
- byddai menywod beichiog neu famau newydd hefyd yn cael eu hystyried yn agored i niwed pe baent yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref;

- atal troseddwyr rhag mynd yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar trwy'r Llwybr Enghreifftiol Cenedlaethol newydd a gwasanaethau ategol.

Mae'r rhaglen Digartrefedd o'r budd mwyaf i blant a phobl ifanc, pobl sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig neu ag afiechyd meddwl, menywod, yn enwedig menywod beichiog, pobl sy'n cysgu ar y stryd, a phawb yn fwy cyffredinol sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'r gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir yn cynnwys cynlluniau bond, gwasanaethau cynghori ar dai, cyfryngu teuluol a chyngor ar arian a dyled mewn perthynas ag adfeddiannu.

Gallai'r gostyngiad yn y gyllideb llinell sylfaen leihau maint y cymorth sydd ar gael ond dylid ystyried hyn yng nghyd-destun y pwyslais parhaus ar effaith ac effeithiolrwydd prosiectau a gwasanaethau, y flaenoriaeth a roddir i gymorth i grwpiau penodol o bobl agored i niwed, natur ategol y cymorth a ddarperir trwy raglen Cefnogi Pobl, a'r £2.2 miliwn ychwanegol a ddyrennir i Awdurdodau Lleol yn ystod y flwyddyn fel dyraniad untro i'w cynorthwyo i weithredu ail flwyddyn y ddeddfwriaeth digartrefedd newydd.

Er eu bod wedi'u seilio ar ffigurau tri mis cyntaf y ddeddfwriaeth newydd, calonogol yw arwyddion cynnar y canolbwyntio parhaus ar atal digartrefedd. Yn ystod chwarter Ebrill – Mehefin 2015-16, roedd 1,350 o aelwydydd yng Nghymru dan fygythiad digartrefedd o fewn 56 diwrnod ac ar gyfer 1,115 o aelwydydd (83 y cant) llwyddwyd i atal digartrefedd am o leiaf 6 mis.

Derbyniwyd bod 535 o aelwydydd yn ddigartref a bod dyletswydd i'w helpu i sicrhau llety yn ystod y chwarter. O'r rhain, cynorthwywyd 300 o aelwydydd (56 y cant) i sicrhau llety oedd yn debygol o bara am 6 mis, yn dilyn ymyriad gan yr Awdurdod Lleol.

Yn ystod chwarter Ebrill – Mehefin 2015-16, roedd 480 o aelwydydd yn gymwys ar gyfer y ddyletswydd i lety gael ei sicrhau iddynt, gan y barnwyd eu bod yn anfwriadol ddigartref ac ag angen blaenoriaethol, ar ôl i'r ddyletswydd i helpu i sicrhau llety ddod i ben. O'r rhain, derbyniodd 330 (69 y cant) o aelwydydd gynnig llety parhaol.

Ar ddiwedd mis Mehefin 2015, roedd 1,935 o aelwydydd mewn llety dros dro. Llety yn y sector preifat oedd y prif fath o lety dros dro. Ar ddiwedd mis Mehefin 2015, roedd 170 o aelwydydd mewn llety gwely a brecwast. O'r rhain, roedd 15 yn deuluoedd â phlant.

Mae'r ddeddfwriaeth digartrefedd newydd yn helpu i brif-ffrydio gwaith atal sydd, yn gyffredinol ac yn y tymor canolig i'r tymor hirach, wedi'i brofi'n fwy cost effeithiol a llwyddiannus o ran lleihau'r tebygrwydd o fynd yn ddigartref. Mae'n sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn darparu gwasanaeth cynhwysol i helpu llawer mwy o bobl mae digartrefedd yn effeithio arnynt, yn hytrach na'r sefyllfa bresennol lle rhoddir cymorth sylweddol i achosion â blaenoriaeth yn unig. Yn y bôn, mae'n golygu mwy o gymorth i fwy o bobl.

Mae ein polisi atal digartrefedd yn cyfrannu at Erthyglau 26 a 27 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac at yr hawl economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i dai a chysgod digonol.

**Lwfans Atgyweiriadau Mawr**

Cadwyd y gyllideb hon ar lefel arian gwastad.

<u>Effeithiau</u>

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb sydd mewn tai fforddiadwy yn gallu byw mewn cartrefi diogel, cynnes a sicr. Mae nifer o fuddion cymdeithasol ac economaidd a buddion iechyd mae'r buddsoddiad hwn yn eu creu.

Mae buddsoddi mewn tai'n darparu cefnogaeth i economi Cymru yn nhermau cynnal a chefnogi swyddi yn y diwydiant adeiladu a hefyd y gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn cyfrannu at yr agenda trechu tlodi yn nhermau darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant. Mae Budd i'r Gymuned a chaffael contractau'n ei gwneud yn bosibl i fuddion ein buddsoddiad aros yng Nghymru a chael eu mwyhau yn ein cymunedau.

Mae darparu tai o ansawdd da yn helpu i drechu tlodi (gan gynnwys tlodi tanwydd) ac yn cyfrannu at wella cyflawniad addysgol disgyblion, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd incwm isel (oherwydd ffactorau megis byw mewn cartref cynnes a bod â lle i astudio). Bydd cyllideb y Lwfans Atgyweiriadau Mawr ar gyfer 2016/17 yn aros yr un peth.

Er nad yw'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr wedi'i anelu at unrhyw grŵp crefyddol penodol, bydd gwelliannau i'r stoc tai o fudd i'r gymuned ac i bawb.

Mae'r dystiolaeth sy'n sail i'n buddsoddiad yn y gwaith o wella ansawdd tai cymdeithasol yng Nghymru yn dweud wrthym fod 58% o bobl o gefndir heb fod yn wyn yn byw mewn cartrefi dan berchen feddiannaeth, o gymharu â 75% o bobl o gefndir ethnig gwyn, a bod 33% o bobl o gefndir ethnig heb fod yn wyn yn byw mewn llety rhent preifat, o gymharu â 10% o bobl o grŵp ethnig gwyn. Er nad yw'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr wedi'i anelu at unrhyw grŵp ethnig penodol, gallai unrhyw newid yn ein buddsoddiad yn y Lwfans Atgyweiriadau Mawr effeithio'n fwy ar grwpiau ethnig yng Nghymru.

Yn ôl data o Gyfrifiad 2001 mae benywod yn fwy tebygol o rentu tai cymdeithasol na gwrywod ac felly byddai unrhyw newidiadau yng nghyllid y Lwfans Atgyweiriadau Mawr yn effeithio'n anghymesur arnynt. Ym mhob grŵp oedran roedd pobl mewn tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fod â salwch hirdymor cyfyngol, anabledd neu lesgedd na pherchen feddianwyr a phobl sy'n rhentu'n breifat. Mae'r rhain yn ddadleuon cryf dros gynnal ein buddsoddiad mewn ansawdd tai.

Mae sicrhau bod gan bobl gartref sy'n diwallu eu hanghenion - un sy'n gynnes, yn fforddiadwy, yn sicr, mewn cyflwr da ac nad yw'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd - yn un o'r prif flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru. Mae cartref yn rhan

hanfodol o fywydau pobl. Mae’n effeithio ar iechyd a llesiant, ansawdd bywyd, a holl gyfleoedd bywyd unigolion a theuluoedd.

Mae adeiladu cartrefi newydd ynni effeithlon yn hanfodol er mwyn mynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd. Mae tai cymdeithasol newydd yn arbennig yn arwain y ffordd wrth gynhyrchu cartrefi carbon is. O ran cartrefi rhent cymdeithasol sy’n bodoli eisoes, mae cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru hefyd yn cynnwys gwelliannau sylweddol mewn effeithlonrwydd ynni mewn rhai meysydd. Er nad yw’r Safon hon yn berthnasol i stoc tai’r sector preifat, bydd cynnwys stoc tai’r sector preifat yn ail gam cynllun Arbed yn cyflawni gwelliannau ychwanegol o ran datblygu cynaliadwy. Mae cynllun Arbed yn enghraifft dda o’r cyfraniad y gall tai ei wneud at ganlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar draws Cymru.

Mae polisi’r Lwfans Atgyweiriadau Mawr yn cyfrannu at Erthygl 27 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn ac at yr hawl economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i dai a chysgod digonol.

**Adfywio**

Mae’r gyllideb hon wedi cynyddu £12.8 miliwn dros y llinell sylfaen.

<u>Effeithiau</u>

Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yw fframwaith adfywio Llywodraeth Cymru. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw y ‘dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau llewyrchus, cynaliadwy, llawn addewid, sydd â chysylltiadau da, economi leol gref ac ansawdd bywyd da’. Mae’n hybu dull o weithredu sy’n seiliedig ar dystiolaeth gref gan gyfuno cymorth i bobl ac i leoedd, ac yn hybu gweithio mewn partneriaeth gan y sectorau cyhoeddus a phreifat a’r Trydydd Sector.

Nod y fframwaith yw cael y gorau o bob punt a werir gan Lywodraeth Cymru yn nhermau cyllid prif ffrwd fel iechyd ac addysg. At hynny, defnyddir buddsoddiad adfywio targededig dwys mewn nifer fach o leoedd allweddol i gefnogi twf lleol mewn canol trefi, cymunedau glan môr a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf.

Mae’n bosibl y bydd y prosiectau a gyflawnir yn y gwahanol ardaloedd a dargedir gan fuddsoddiad Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn effeithio ar lawer o’r grwpiau gwarchodedig. Bydd y cynnydd arfaethedig yn y gyllideb yn golygu bod mwy o arian ar gael i dargedu gweithgareddau gyda grwpiau penodol. Mae prosiectau o’r mathau hyn yn cynnwys prosiectau a fyddai o fudd i bobl ifanc, gwahanol grwpiau crefyddol, cyfleusterau gofal plant sy’n galluogi pobl (menywod yn bennaf) i fynd i’r farchnad gyflogaeth, sefydliadau sy’n hybu menywod mewn busnes, ac ati. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru’n buddsoddi mewn pobl a lleoedd, fydd o fudd i bawb ac i bob grŵp economaidd gymdeithasol.

Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan Oxfam, mae mwy o fenywod nag o ddynion yn byw mewn tlodi ar ystadau difreintiedig. Mae gan fenywod incymau is na dynion yn gyffredinol. Maent yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr a hwy yw 91 y cant o rieni unigol.

Ac er mai hwy yw'r mwyafrif mewn grwpiau cymunedol, mae menywod yn lleiafrif pan ddaw at wneud y penderfyniadau ynghylch adfywio.

Diben Fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yw helpu i adfywio cymunedau trwy fuddsoddi i helpu eu heconomi i ffynnu ac adfywio cymunedau, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae llawer o amddifadedd. Y nod yw eu helpu i gyflawni newid economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a fydd yn para. Rydym yn buddsoddi mewn pobl a lleoedd, a fydd o fudd i bawb, felly bydd pob aelod o'r gymuned yn gweld y buddion. Nod buddsoddi mewn gwaith adfywio yw creu lleoedd cynaliadwy dros y tymor hir er mwyn gwella ansawdd bywyd y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y lleoedd hynny a'u cyffiniau.

Mae cydweithio'n ganolog i Leoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Rydym yn sicrhau y cyflawnir canlyniadau go iawn ac rydym yn gwneud gwahaniaeth cynaliadwy cadarnhaol i ansawdd bywydau pobl, yn arbennig mewn cysylltiad â dileu tlodi a chysylltiadau â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, sy'n cydnabod bod Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn buddsoddi yn seilwaith rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig, gan gynnwys nifer o'n trefi glan môr a chanol trefi, ac yn buddsoddi yn y gwaith o'u hadnewyddu a'u hadfywio.

Un o nodau allweddol ein strategaeth adfywio yw sicrhau y diwellir un o'r anghenion mwyaf sylfaenol o ran llesiant – yr angen am gartref da – yn enwedig i bobl a fyddai fel arall yn cael eu hallgáu o'r farchnad tai. Bydd buddsoddi a chydgysylltu ymdrechion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn helpu i wrthdroi'r dirywiad a all godi lle mae crynodiadau amddifadedd. Mae gwella ansawdd y stoc tai a'r amgylchedd adeiledig ehangach yn annog pobl i aros yn y cymunedau hyn a gwrthdroi'r dirywiad yn gynt. Mae darparu gwasanaethau sy'n helpu pobl ag anghenion penodol o ran llesiant i aros yn eu cymunedau yn cynorthwyo i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd ac yn darparu ysgogiadau pwysig i ardaloedd lleol. Mae ein strategaeth adfywio hefyd yn helpu i ymdrin â heriau cynnal stoc tai cynaliadwy ac â gallu pobl leol i gael tai fforddiadwy yn lleol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith (sy'n dirywio a lle mae colled net/allfudo yn effeithio ar ddwysedd poblogaeth canrannol mewn cymunedau sy'n Gymraeg eu hiaith yn draddodiadol).

Mae rhaglen gyffredinol Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn cefnogi Erthyglau 15 a 21 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn rhoi sylw penodol i'r agenda trechu tlodi. Mae'r gronfa Trechu Tlodi sy'n werth £7 miliwn yn mynd at brosiectau cysylltiedig â chanol trefi sy'n trechu tlodi. Mae'r gronfa hon wedi cael ei chlustnodi i gymunedau a fu'n aflwyddiannus wrth geisio am gyfran o'r gronfa Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid werth £100 miliwn ond sydd yn y 10% uchaf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

**Grant Tai Cymdeithasol**

Mae'r gyllideb hon wedi cynyddu £12.7 miliwn dros y llinell sylfaen.

Effeithiau

Mae rhaglen tai cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn anelu at ein nod y dylai fod gan bawb yng Nghymru hawl i fyw mewn cartref diogel, cynnes a sicr. Er gwaethaf ein buddsoddiad sylweddol dros y rhaglen lywodraethu hon a'n cymorth i adeiladu mwy na 10,000 o gartrefi fforddiadwy newydd, mae'r galw am gartrefi fforddiadwy'n dal i gynyddu. Mae adeiladu cartrefi newydd yn helpu ein rhaglenni trechu tlodi oherwydd y swyddi sy'n cael eu creu a'u cynnal yn y sector adeiladu a gefnogir gan ein cyllid. Daw buddion sylweddol o ran canlyniadau iechyd ac addysg yng Nghymru pan fo pobl yn byw mewn cartrefi diogel, cynnes a sicr.

**Cymorth i Brynu - Cymru**

Mae'r gyllideb hon wedi cynyddu £26.3 miliwn dros y llinell sylfaen.

Effeithiau

Bydd cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer tai'r farchnad agored, Cymorth i Brynu – Cymru, yn cael effaith arwyddocaol ar ein rhaglenni trechu tlodi. Er ein bod wedi nodi blwyddyn gyntaf ein cyllid sef £26.3 miliwn yn y gyllideb ddrafft, £284 miliwn fydd cyfanswm ein buddsoddiad yng Ngham II o'r cynllun hynod lwyddiannus hwn. Mae ffigurau'r Trysorlys yn dangos bod pob £1 miliwn a werir ar gymorth tai'n gwarchod mwy na 32 o swyddi yn y sector adeiladu. Ar y sail hon, bydd buddsoddi £284 miliwn yn cynnal oddeutu 9,090 o swyddi, a bydd rhagor o swyddi'n cael eu creu wrth i'r refeniw ffioedd o'r cynllun gael ei ail-fuddsoddi mewn cynlluniau tai fforddiadwy. Mae hon yn nifer sylweddol o swyddi a grëwyd a fydd yn rhoi hwb derbyniol iawn i economi Cymru, yn mynd i'r afael â'r prinder tai yng Nghymru ac yn creu rhagor o fuddion cymunedol.

**Camau gweithredu eraill**

Bydd gwaith yn parhau trwy Gorff Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl. Mae'r grŵp hwn yn ystyried sut mae'r rhaglen yn gweithredu a sut y gellir gwneud rhagor o welliannau. Mae hefyd yn darparu cyngor ar sut y gellir targedu'r Grant Cefnogi Pobl at y rheiny sydd â'r angen mwyaf ac, o gofio cyfranogiad yr holl randdeiliaid allweddol, sut y gall helpu i sicrhau gweithio mwy integredig rhwng meysydd tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Wrth i wahanol bolisïau a rhaglenni gael eu cyflawni gan Awdurdodau Lleol, byddem yn disgwyl y bydd pob Awdurdod yn asesu effaith unrhyw ostyngiadau arfaethedig yn y gyllideb ac yn ymgysylltu â grwpiau â nodweddion gwarchodedig fel y bo'n briodol. Bydd gwaith cyflawni Awdurdodau Lleol yn y meysydd polisi hyn yn cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys unrhyw adborth ar y ffordd y caiff ei gyflawni.

Mae'r dystiolaeth a ddefnyddir wrth baratoi'r asesiadau effaith integredig hyn yn dod o amrywiaeth o ffynonellau, data a ddarperir gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi gan gynnwys data o Gyfrifiadau, ymchwil a wnaethpwyd fel rhan o'r

gwaith o ddatblygu polisïau, asesiadau hanesyddol o'r effeithiau ar gydraddoldeb yn y maes polisi a newidiadau cyllidebol blaenorol a thystiolaeth a ddarparwyd gan sefydliadau yn y trydydd sector.

Ar draws Llywodraeth Cymru, tystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael o effeithiau ein polisïau ar bobl sy'n cael ailbennu rhywedd, pobl sy'n Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol neu Drawsrywiol, a grŵp nodwedd warchodedig priodas a phartneriaeth sifil. Gellir gweld y bylchau hyn ar draws yr holl asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb sydd wedi eu gwneud ac mae angen rhagor o waith gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i ymdrin â'r bwlch hwn yn y dystiolaeth.

**<u>Gwelliant parhaus</u>**

1. Mae Llywodraeth Cymru'n sefydlu system casglu data y bwriedir iddi gofnodi'r lleihad hirdymor yn nifer y gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr o ganlyniad i safleoedd newydd.
2. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig Asesiadau newydd o Anghenion Iechyd i gofnodi'r anghydraddoldebau iechyd ymysg cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Dylai newidiadau o ran mynediad a chanlyniadau iechyd dros amser gael eu cofnodi gan yr asesiadau hyn a'u cymharu â'r gallu i ddefnyddio safleoedd.
3. Bydd Asesiadau Llety gan Awdurdodau Lleol yn parhau i asesu'r angen am ragor o safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i adolygu'r rhain wrth ddadansoddi'r angen am gyllid Grant Cyfalaf Safleoedd.
4. Ystyried cynnal rhagor o adolygiadau rhaglenedig o'r ffordd mae Awdurdodau Lleol yn rheoli ac yn defnyddio rhaglen Cefnogi Pobl, gan adeiladu ar yr adolygiad llwyddiannus o bob un o'r 22 Awdurdod, a wnaethpwyd yn 2015-16
5. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i geisio diweddariadau ynghylch y galw gan awdurdodau lleol am gyllid Grant Cyfalaf Safleoedd cyn ystyried y lefel cyllideb fwyaf priodol ar gyfer y flwyddyn ddilynol.
6. Caiff y mesuriadau perfformiad yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (yn ogystal â Theuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg) eu dadgyfuno lle bo modd er mwyn rhoi dadansoddiad llawnach o'r buddiolwyr fesul nodwedd warchodedig yn ogystal â'r niferoedd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg.
7. Rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2015 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch a oedd yr Amcanion Cydraddoldeb presennol yn dal i gael eu hystyried yn feysydd gweithredu blaenoriaethol. Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu defnyddio wrth ddatblygu'r Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2016-2020. Caiff yr amcanion diwygiedig eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2016.
8. Gwaith gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i wella ymhellach y sail dystiolaeth cydraddoldeb mewn themâu sy'n fwy ystyrlon o ran y portffolio, e.e. Cefnogi Pobl, digartrefedd, adfywio, effeithiau

diwygio lles, byw'n annibynnol a chyflenwad ac ansawdd tai, gan adeiladu ar lwyddiant ymchwil ddiweddar.

9. Ei gwneud yn bosibl i ganlyniadau o gyfarfodydd perfformiad rheolaidd gyda rhanddeiliaid, yn trafod asesiadau effaith integredig, fwydo i mewn i'r broses asesiadau effaith integredig.

1. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i asesu effaith ei phenderfyniadau gwario ar bobl Cymru a hon oedd y Weinyddiaeth gyntaf yn y DU i gyhoeddi asesiad cynhwysfawr o effaith ein cynlluniau gwario ochr yn ochr â'n cyllideb derfynol ar gyfer 2011-12. Ers hynny, mae'r Llywodraeth wedi ceisio gwella'r dull gweithredu'n barhaus o flwyddyn i flwyddyn.

2. Gan adlewyrchu argymhellion Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Weithdrefnau Cyllidebol Arfer Gorau ac yn unol ag adborth gan Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) unwaith eto rydym wedi mynd ati mewn ffordd integredig i gynnal ein hasesiad o'r effaith. Mae'r Asesiad o'n Cynlluniau Gwario ar gyfer 2016-17 yn adlewyrchu'r pwyslais a roddwn ar anfantais economaidd-gymdeithasol, hawliau plant, y Gymraeg, cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy fel y'i nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Caiff ein penderfyniadau eu hategu hefyd gan ein hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi a llywio newid mewn gwariant tuag at fesurau atal ac ymyrraeth gynnar.

3. Er bod Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant yn hwyr unwaith eto rydym wedi cyhoeddi Asesiad Effaith Integredig Strategol ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft sydd wedi canolbwyntio ar nodi'r effeithiau strategol lefel uchel a ystyriwyd wrth ddyrannu cyllideb i'n meysydd â blaenoriaeth, tra'n rhoi mwy o bwyslais ar asesu effeithiau gwahanol cynigion ar y grwpiau amrywiol yn ein cymdeithas, lle mae'r rhain yn debygol o fod yn sylweddol.

4. Dylid darllen y papur tystiolaeth hwn ar y cyd â Naratif Cyllideb Ddrafft 2016-17 a'r Asesiadau Effaith Integredig Strategol a geir yn:

   http://gov.wales/funding/budget/draft-budget-2016-17/?lang=cy

5. Mae'r papur hwn yn gwneud y canlynol:

   - Crynhoi cyd-destun strategol y Gyllideb Ddrafft;
   - Esbonio sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a gwaith Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) wedi llywio strwythur a chynnwys y Gyllideb Ddrafft;
   - Esbonio'r dull gweithredu cyffredinol a fabwysiadwyd wrth baratoi'r Gyllideb Ddrafft gan gynnwys ymgorffori prosesau dadansoddi cydraddoldeb o'r cychwyn;
   - Crynhoi'r prif benderfyniadau gwario sy'n effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

## Y Cyd-destun Strategol

6. O ganlyniad i benderfyniadau Llywodraeth y DU, mae Cyllideb Cymru dros £1.4 biliwn yn llai bellach nag ydoedd yn 2010-11 ac yn dilyn adolygiad Llywodraeth y DU o wariant disgwylir i'r setliad leihau eto o 3.6 y cant mewn termau real rhwng 2015-16 a 2019-20. Mae asesiad cychwynnol o'r pwysau a'r tueddiadau mewn perthynas â gwasanaethau allweddol wedi nodi bod angen gwario £1bn yn fwy erbyn 2018-19. Fodd bynnag, bydd ein cyllideb wedi cynyddu ychydig yn llai na £400m mewn refeniw a £200m mewn cyfalaf erbyn 2019-20. Mae ein hasesiad o effeithiau ein penderfyniadau yn hanfodol i sicrhau y caiff cyfle cyfartal ei hyrwyddo ac y caiff gwahaniaethu ei atal.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

7. Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i wella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau. Mae'r Ddeddf yn adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd gennym i asesu effaith ein penderfyniadau yn y gorffennol. Mae ein cynigion cyllidebol wedi'u llywio gan y dyletswyddau newydd sy'n deillio o'r Ddeddf, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i'w gweithredu'n llawn ac yn llwyddiannus.

8. Wrth wraidd y Ddeddf mae pum ffordd o weithio sydd wedi llywio ein dull cyffredinol o bennu dyraniadau cyllidebol yn y ffyrdd canlynol:
    - rydym wedi ystyried effeithiau **hirdymor** ac wedi cydbwyso hyn yn erbyn ein hanghenion byrdymor:
    - bu'r dull **atal** wrth gymryd camau i atal problemau rhag codi neu waethygu wrth wraidd ein prosesau gwneud penderfyniadau:
    - gan fabwysiadu dull gweithredu **integredig** rydym wedi meithrin dealltwriaeth ehangach o'r pwysau trawsbynciol a geir ym mhob un o'n meysydd â blaenoriaeth:
    - drwy **gydweithredu** ac ymgysylltu ag eraill yn barhaus rydym yn sicrhau cyfraniad gwerthfawr at ein sail dystiolaeth o ran deall effeithiau ein penderfyniadau:
    - Rydym wedi parhau'n ymrwymedig i ymgysylltu â phobl a'u **cynnwys** yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, er enghraifft drwy fewnbwn hynod werthfawr Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) a Thaith Cyllideb y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth.

## Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb

9. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gynnwys asesiadau o effaith ei phenderfyniadau. Rôl y grŵp hwn yw rhoi cyngor a rhannu arbenigedd ac arfer gorau o ran materion cydraddoldeb sy'n helpu i wella'r Asesiad a wneir o Effaith Cyllideb Llywodraeth Cymru yn barhaus.

10. Mae trafodaethau a gwaith y Grŵp hyd yma wedi rhoi cryn sylw i feithrin dealltwriaeth o'r amgylchedd economaidd presennol a sut y gallai effeithio ar ein hystyriaethau mewn perthynas â chydraddoldeb. Yn benodol, gofynnwyd i'r

Grŵp roi cyngor ar feysydd yr oedd angen buddsoddi ynddynt fel mater o flaenoriaeth cyn dechrau paratoi ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2016-17 ac ymgynghorwyd ag ef yn dilyn Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant.

11. Mae hyn wedi arwain at ffocws cryf ar bwysigrwydd llunio sail dystiolaeth gadarn fel y gellir nodi a deall natur y materion cydraddoldeb sylfaenol ar ddechrau prosesau gwneud penderfyniadau. Un o'r casgliadau allweddol y daethpwyd iddynt oedd ei bod yn annhebygol bod digon o adnoddau ac, felly, fod angen canolbwyntio ar flaenoriaethau yn seiliedig ar asesiad o'r effaith gadarnhaol fwyaf a lliniaru effeithiau cyni cyllidol lle na ellir eu hosgoi.

12. Mae enghreifftiau o benderfyniadau a lywiwyd gan waith Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb fel a ganlyn:

- Wrth ganolbwyntio ar Ofal Cymdeithasol rydym wedi dyrannu arian ar gyfer gwasanaethau rheng flaen ac wedi diogelu rhaglenni megis Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf, Her Ysgolion Cymru a Cefnogi Pobl sy'n mynd i'r afael yn benodol ag anghydraddoldeb.
- Roedd ein penderfyniad i gynyddu'r cyllid ar gyfer iechyd yn adlewyrchu blaenoriaethau a nodwyd i sicrhau bod gwasanaethau acíwt o safon uchel yn parhau i fod ar gael lle mae eu hangen, hyrwyddo datblygiad parhaus gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn agosach i gartrefi cleifion a pharhau i ganolbwyntio ar drawsnewid gwasanaethau ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well.
- Er mwyn cydnabod pwysigrwydd addysg ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran cyflogaeth a sgiliau, y cyfeiriwyd ato gan Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb, rydym wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer ysgolion, wedi diogelu addysg ôl-16 ac wedi cynyddu'r arian cymorth ar gyfer myfyrwyr addysg uwch. Yn unol â Chytundeb Cyllid 2014 rydym hefyd yn parhau i gefnogi 2,500 o brentisiaethau ac yn ariannu carfan newydd o 2,500 o brentisiaethau.

13. Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) Llywodraeth Cymru yn 2012 a gaiff ei gynnull ar y cyd gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr allanol o'r sefydliadau cydraddoldeb yn y trydydd sector a'r sector gwirfoddol, economegydd academaidd fel cynghorydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n arwain rhannau o'r agenda cydraddoldeb o fewn y Llywodraeth.

**Cyllideb Ddrafft 2016-17: Asesiad Effaith Integredig Strategol**

14. Mae ein dull asesu integredig yn cynnig asesiad mwy realistig o effaith gyffredinol penderfyniadau gwario ac yn cydnabod, ar adeg pan fo cyllidebau yn lleihau, nad oes un ateb a fydd yn rheoli effaith penderfyniad ym mhob maes bob amser. Mae'r asesiad hwn o effeithiau ein penderfyniadau yn hanfodol i sicrhau y caiff cyfle cyfartal ei hyrwyddo ac y caiff gwahaniaethu ei atal, ac mae hyn wedi llywio ein dull o ymdrin â phroses y gyllideb.

15. Felly, rydym wedi seilio ein penderfyniadau gwario ar ddadansoddiad o ofynion ac anghenion mewn meysydd gwasanaeth cyhoeddus allweddol. Yn yr hinsawdd ariannol heriol rydym wedi ceisio canolbwyntio adnoddau ar flaenoriaethau sy'n seiliedig ar asesiad o'r effaith gronnol gadarnhaol fwyaf a lliniaru effeithiau cyni cyllidol lle na ellir eu hosgoi.

16. Wrth fabwysiadu'r dull hwn o weithredu rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys Pwyllgorau'r Cynulliad a Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) ac wedi cael ein llywio gan eu hargymhellion. Unwaith eto mae'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wedi cynnal taith cyllideb ledled Cymru, gan gasglu barn y rhai sy'n gweithio yn rheng flaen gwasanaethau cyhoeddus a'u cynnwys yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

17. Fodd bynnag, er bod yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn canolbwyntio ar effeithiau strategol lefel uchel penderfyniadau gwario, drwy gydol y broses o gynllunio cyllidebau cynhelir asesiadau effaith yn unol â dull gweithredu'r Llywodraeth hon ym mhob maes.

Y Dull o Ymdrin â Chyllideb Ddrafft ac Asesiad Effaith Integredig Strategol 2016-17

18. Wrth baratoi ar gyfer y Gyllideb hon rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwaith gwerthuso ac rydym wedi meithrin dealltwriaeth ehangach o'r pwysau trawsbynciol a geir ym mhob un o'r meysydd gwasanaeth, yn unol â'n blaenoriaethau allweddol, tra'n targedu arian at y rhai sydd ei angen fwyaf.

19. Adolygwyd tueddiadau presennol ac amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol a'u heffeithiau posibl yn y byrdymor, y tymor canolig a'r tymor hwy. Gwnaethom hyn er mwyn sicrhau na fydd ymatebion byrdymor yn cael effeithiau andwyol tymor hwy.

20. Edrychwyd ar ddulliau Llywodraeth Cymru o ymdrin â pholisi a chyllid ar gyfer addysg, iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol, seilwaith a Buddion Cyffredinol. Ystyriwyd sut mae'r dulliau gweithredu hynny yn dylanwadu ar wasanaethau cyhoeddus ar lawr gwlad, y rhyngweithio rhwng y meysydd hyn, beth yw eu hanghenion yn y dyfodol a'r hyn y mae hynny yn ei ddweud wrthym am y ffordd y dylem fynd ati i bennu dyraniadau cyllidebol.

21. Gwnaethom gydnabod hefyd na ellir asesu effaith ein penderfyniadau gwario ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig ar wahân i effaith diwygiadau treth a lles Llywodraeth y DU. Fel rhan o raglen ymchwil a gomisiynwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Ddiwygiadau Lles, yn ddiweddar gwnaethom gyhoeddi dau adroddiad sy'n ystyried effaith diwygiadau o'r fath yng Nghymru, yn ogystal â'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

22. O ganlyniad i ymagwedd Llywodraeth y DU tuag at gyni cyllidol a Diwygio Lles a chyda galw cynyddol am wasanaethau gwnaethom nodi heriau sylweddol a gwirioneddol o ran darparu gwasanaethau, gan na ellir delio'n llawn â'r pwysau cynyddol mewn meysydd â blaenoriaeth a chynnal y lefelau ariannu presennol.

23. Wedyn blaenoriaethwyd cyllid ar gyfer meysydd y nodwyd eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol. Gwnaethom hynny gan wybod bod i'r penderfyniad i ganolbwyntio ein hymdrechion ar flaenoriaethau oblygiadau i feysydd eraill. Yn yr achosion hyn rydym wedi ceisio lliniaru effeithiau negyddol lle y bo'n bosibl.

**Cyllideb Ddrafft 2016-17: Penderfyniadau Allweddol**

Iechyd a Gwasanaethau Iechyd

- Mae ein penderfyniad i ddyrannu cyllid ychwanegol gwerth £293m ar gyfer y sector iechyd yn 2016-17 yn cydnabod bod darparu setliad digonol a chynaliadwy ar gyfer iechyd yn ystyriaeth hanfodol nid yn unig ar gyfer cymdeithas yn gyffredinol, ond hefyd gan gydnabod yr effeithiau anghymesur o gadarnhaol ar grwpiau gwarchodedig. Fel rhan o'r ymrwymiad i atgyfnerthu gofal sylfaenol a chymunedol, defnyddir £30m o'r £293m a ddyrennir i'r gwasanaeth iechyd yn y Gyllideb hon i gynyddu'r cyllid sydd ar gael i'r Gronfa Gofal Canolraddol i £50m yn 2016-17.

- Fel Llywodraeth rydym yn parhau i gydnabod rôl bwysig gwasanaethau iechyd meddwl o ran gwella canlyniadau cleifion. Felly, rydym wedi dyrannu £30m o'r £293m i gynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn ogystal â'r cyllid ar gyfer pobl hŷn.

- Mae ein penderfyniad i ddyrannu £21m ychwanegol drwy'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cydnabod y pwysau ar brosesau darparu gwasanaethau, y cysylltiad agos rhwng iechyd gwael ac amddifadedd a'r effeithiau pwysig y mae gofal cymdeithasol yn eu cael ar y rhai mwyaf difreintiedig, boed hynny am resymau sy'n ymwneud â henaint, anabledd neu'r angen i ddiogelu plant.

- Drwy ddiogelu rhaglenni hanfodol megis y rhaglen Cefnogi Pobl rydym wedi cydnabod bod y rhaglen hon, yn ogystal â darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i rai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed ac sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn y gymdeithas yng Nghymru, hefyd yn helpu unigolion a theuluoedd sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref i ddod o hyd i'w cartref a'i gadw a byw'n annibynnol, yn ogystal â gwneud cyfraniad allweddol at ein hagenda Trechu Tlodi.

Cyrhaeddiad Addysgol

- Mae ein penderfyniad i ddyrannu £39.7m ychwanegol i ysgolion, sydd wedi'i anelu'n bennaf at gyllido ysgolion rheng flaen, yn cydnabod pwysigrwydd addysg o ran codi cyrhaeddiad addysgol a gwella sgiliau ar bob lefel o gofio'r pwysau sylweddol sydd ar ein hysgolion. Rydym wedi cydnabod ei gyfraniad at dorri'r cylch o anfantais ac anghydraddoldeb a helpu i sicrhau dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg a'r effaith gadarnhaol ar bobl ifanc yn gyffredinol. O dan Erthygl 28 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae gan blant yr hawl i gael addysg.

- Yn unol â Chytundeb Cyllideb 2014, rydym yn rhoi £7.2m ychwanegol yn 2016-17 er mwyn cynyddu'r Grant Amddifadedd Disgyblion o £1,050 fesul disgybl cymwys yn 2015-16 i £1,150 yn 2016-17. Mae hyn yn adeiladu ar nodau'r rhaglen o dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol.

- Er mwyn cydnabod tystiolaeth ryngwladol sefydledig gadarn bod angen ymyriadau dwys, cyn gynted â phosibl, ym mywydau'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf er mwyn torri'r cylch o anfantais rydym wedi diogelu rhaglen Dechrau'n Deg. Rydym wedi gwneud hyn mewn ymateb i dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd sy'n dangos bod Dechrau'n Deg yn dechrau cael effaith gadarnhaol wirioneddol ar blant.

- Rydym hefyd wedi ymestyn ein cynllun Her Ysgolion Cymru i 2016-17 gyda £15m ar gael y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn helpu'r rhaglen i gyflymu ac yn canolbwyntio ein hymdrechion i wella ysgolion, gan ganolbwyntio ar ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru sy'n wynebu'r her fwyaf o ran amgylchiadau a'r cam a gyrhaeddwyd yn y broses ddatblygu.

- Wrth gydnabod y rôl bwysig y mae ysgolion yn ei chwarae o ran sicrhau dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg rydym wedi dyrannu cyllid ychwanegol i ysgolion. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i Strategaeth y Gymraeg, sef Iaith Fyw, a'n strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac yn unol â'r ymrwymiad hwn ac er mwyn cydnabod y pwysau sy'n ein hwynebu o ran diogelu dyfodol a threftadaeth y Gymraeg rydym wedi dyrannu £1.2m yn 2016-17 fel cam i leihau effaith gostyngiadau i gyllid.

- Mae addysg a hyfforddiant ôl-16 megis prentisiaethau yn bwysig i ateb yr her sy'n gysylltiedig â lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEETS). Felly, rydym yn diogelu ein cyllideb ar gyfer Addysg Ôl-16 a thrwy Gytundeb Cyllideb 2014 rydym yn dyrannu £5m fel y gellir parhau i gefnogi tua 2,500 o brentisiaethau ac wedi neilltuo £5m ychwanegol i ariannu carfan newydd o 2,500 o brentisiaethau.

- Rydym hefyd wedi rhoi arian i sefydlu cynllun peilot wedi'i dargedu ar gyfer myfyrwyr mewn addysg bellach er mwyn dileu'r rhwystrau i addysg a mynd i'r afael ag amddifadedd rhwng y cenedlaethau. Yn benodol, bwriedir i'r cynllun peilot hwn ganolbwyntio ar gael effaith gadarnhaol ar y rhai mewn grwpiau gwarchodedig, yn enwedig o ran rhywedd.

- Ar yr un pryd rydym wedi parhau'n ymrwymedig i'n nod allweddol o sicrhau tegwch i bawb ac wedi dyrannu £10m ychwanegol er mwyn darparu cymorth i fyfyrwyr Addysg Uwch, er mwyn diogelu'r effeithiau y mae ein polisi ffioedd dysgu yn eu cael o ran gwella cyfleoedd bywyd i bob person ifanc ac ymdopi â'r pwysau sy'n deillio o'r galw cynyddol am wasanaethau. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl waeth beth fo'u hethnigrwydd, eu rhyw neu eu cefndir, gan gynnig llwybr i ddianc rhag tlodi.

<u>Cefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig</u>

- Ar bob cam o broses y gyllideb rydym wedi ceisio lliniaru effeithiau dinistriol Diwygiadau Lles Llywodraeth y DU ar deuluoedd a defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael inni. Er mwyn gwrthbwyso'r effeithiau ar gymunedau, rydym wedi buddsoddi mewn addysg reng flaen a darparu gwasanaethau cymdeithasol drwy'r Grant Cynnal Refeniw, wedi defnyddio'r mesurau sydd ar gael inni ym

meysydd seilwaith a chyllid arloesol ac wedi diogelu'r rhaglenni hynny sydd wedi'u hanelu at gydraddoldeb, adfywio cymunedol, cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd.

- Yn unol â'n hymrwymiad i drechu tlodi rydym yn diogelu'r cyllid ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf sy'n gwneud cyfraniad pwysig o fewn y 10 y cant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru gyda'r nod hirdymor o gyfrannu at y gwaith o leihau tlodi parhaus.

- Rydym yn parhau i gefnogi Buddion Cyffredinol drwy barhau i ddiogelu'r cyllid ar 1 y cant uwchlaw'r newidiadau i Gyllideb Cymru yn gyffredinol. Golyga hyn y byddwn yn parhau i ddarparu presgripsiynau am ddim, brecwast mewn ysgolion a llaeth ysgol am ddim, nofio am ddim a thocynnau teithio rhatach. Mae'r mentrau hyn yn helpu'r rhai mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas ac yn unol â'n ffocws ar atal gallent hefyd leihau'r galw am wasanaethau yn y dyfodol.

- At hynny, drwy ddyrannu £3m er mwyn cyfyngu ar doriadau i arolygiaethau rydym yn ceisio diogelu'r rôl bwysig y mae ein harolygwyr yn ei chwarae o ran sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau y mae ein grwpiau gwarchodedig yn dibynnu arnynt.

- Gwyddom y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd ynghylch gwasanaethau lleol sydd o fudd i bobl Cymru. Lle y bo'n bosibl rydym wedi ceisio sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd ariannol i wneud y penderfyniadau hyn drwy ganolbwyntio buddsoddiad ar wasanaethau rheng flaen drwy ddefnyddio'r Grant Cynnal Refeniw. Mewn ymateb i gyni cyllidol byddwn yn ceisio dull cydweithredol sy'n ystyried modelau cyflawni amgen ac sy'n mynd ymhellach na chanolbwyntio ar arbedion effeithlonrwydd yn unig.

- Mae'r Amgueddfa Genedlaethol, Archifau, Llyfrgelloedd, y Celfyddydau, Diwylliant a Chwaraeon yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac yn dysgu pobl ifanc am ein diwylliant, tra'n cefnogi twristiaeth ac yn gwella ein henw yn rhyngwladol ar yr un pryd. Rydym yn parhau i gydweithio â'n partneriaid er mwyn lleihau'r effaith ar grwpiau gwarchodedig.

<u>Twf a Swyddi Cynaliadwy</u>

- Drwy gydol tymor y Cynulliad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar gyflawni twf cytbwys a chynaliadwy, sbarduno'r adferiad economaidd drwy gefnogi busnesau, denu mewnfuddsoddiad a chynyddu lefelau cyflogaeth.

- Fodd bynnag, wrth i gyni cyllidol roi rhagor o bwysau ar ein hadnoddau, rydym wedi gorfod mabwysiadu dull gweithredu darbodus drwy ailganolbwyntio ar y dulliau hynny sy'n cael yr effaith fwyaf. Rydym wedi ceisio diogelu a lliniaru'r effeithiau negyddol ar gyfer y bobl hynny y mae effeithiau negyddol cyni cyllidol yn cael effaith anghymesur arnynt.

- Er gwaethaf y toriadau i'r gyllideb gyfalaf dros y pum mlynedd diwethaf, na welwyd mo'u tebyg o'r blaen, drwy ein Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar fanteisio ar y cyfleoedd a'r manteision y mae buddsoddi yn seilwaith Cymru yn eu cynnig drwy alluogi twf economaidd parhaus a chreu swyddi newydd.

- Er mwyn dangos ein hymrwymiad i gefnogi busnesau yng Nghymru rydym yn gwneud penderfyniad cynnar i ymestyn y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach presennol am 12 mis arall. Bydd y penderfyniad hwn yn lleihau cyfanswm yr Ardrethi Annomestig a delir gan fusnesau bach yng Nghymru tua £90m yn 2016-17.

- Mae cyflogaeth yn cynnig lefel uchel o ddiogelwch rhag tlodi. Felly, er mwyn meithrin gallu economaidd mae cyllidebau wedi'u diogelu drwy fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i ddenu cyllid ychwanegol megis Cyllid Ewropeaidd.

- Mae penderfyniadau ynghylch trafnidiaeth wedi'u gwneud gyda'r bwriad o liniaru'r effeithiau negyddol ar grwpiau gwarchodedig drwy sicrhau parhad gwasanaethau a pharhau i ymateb i anghenion cymunedau lleol. Mae'r cynllun tocynnau teithio rhatach yn sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i gefnogi pobl hŷn a phobl anabl. Er mwyn cefnogi hyn rydym wedi diogelu tocynnau teithio rhatach ac wedi neilltuo £9.75m ar gyfer Cynllun Teithio Rhatach ar Fysiau i Bobl Ifanc. Bydd y camau gweithredu hyn yn helpu unigolion, gan gynnwys pobl o aelwydydd incwm isel, i fanteisio ar gyfleoedd i gael gwaith, addysg, hyfforddiant a phrentisiaethau.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**Dyddiad:** **21 Ionawr 2016**

**Amser:** **10:45 -11:45**

**Teitl:** **Papur tystiolaeth ar y Gyllideb Ddrafft: Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth ariannol gefndirol i'r Pwyllgor am fy nghynlluniau gwariant fel y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth - mewn perthynas â'r **cyllidebau Diwylliant a Chwaraeon** o fewn fy mhortffolio, fel y'u hamlinellir yn y Gyllideb Ddrafft. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ymdrin â thwristiaeth yn y Pwyllgor Menter a Busnes ar 14 Ionawr 2015.

2. Mae Atodiad B yn dadansoddi ffigurau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon fesul Cam Gweithredu a fesul Llinell Wariant (BEL) o fewn pob Cam Gweithredu.

3. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am wybodaeth am faterion cyllidebol penodol fel yr amlinellwyd yn yr Atodiad i'r llythyr a anfonwyd ataf yn fy ngwahodd i fynychu sesiwn y Pwyllgor. Mae ymatebion wedi'u cynnwys yn y papur tystiolaeth hwn.

## Cefndir a Chrynodeb

4. Ceir trosolwg cryno o ddyraniadau Cyllideb Ddrafft 2016/17 ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon yn y tabl isod:

| Maes Rhaglen Wariant | Cyllideb Sylfaenol 2015-16 £’000 | Newid £’000 | Cyllideb Ddrafft 2016-17 £’000 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw:** | | | |
| Celfyddydau | 31,835 | (1,500) | 30,335 |
| Amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd | 36,170 | (1,782) | 34,388 |
| Chwaraeon a gweithgarwch corfforol | 23,891 | (1,286) | 22,605 |
| Y Cyfryngau a Chyhoeddi | 3,526 | (374) | 3,152 |
| Yr amgylchedd hanesyddol a naturiol | 14,686 | (1,453) | 13,233 |
| | | | |
| **CYFANSWM REFENIW** | **110,108** | **(6,395)** | **103,713** |
| | | | |
| **Cyfalaf:** | | | |
| Celfyddydau | 355 | 0 | 355 |
| Amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd | 4,043 | (70) | 3,973 |
| Chwaraeon a gweithgarwch corfforol | 345 | 0 | 345 |
| Y Cyfryngau a Chyhoeddi | 60 | 0 | 60 |
| Yr amgylchedd hanesyddol a naturiol | 4,901 | 0 | 4,901 |
| | | | |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **9,704** | **(70)** | **9,634** |
| | | | |
| **CYFANSWM CYLLIDEB DEL** | **119,812** | **(6,465)** | **113,347** |
| | | | |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Darpariaethau pensiwn)** | **3,013** | **0** | **3,013** |
| | | | |
| **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | **122,825** | **(6,465)** | **116,360** |
| | | | |

5. Mae'r unig wahaniaethau rhwng Cyllideb Sylfaenol 2015-16 a Chyllideb Atodol 2015-16 yn ymwneud â chyfalaf. Mae'r manylion wedi'u cynnwys ym mharagraffau 9 i 11 isod:

**Blaenoriaethau'r Gyllideb**

6. Mae'r portffolio Diwylliant a Chwaraeon yn gwbl ganolog i nod Llywodraeth Cymru i gyfoethogi bywydau unigolion a chymunedau drwy ein diwylliant, treftadaeth a chwaraeon drwy alluogi mwy o bobl i'w mwynhau. Mae'r portffolio yn cyfrannu hefyd tuag at iechyd a gwasanaethau iechyd, twf a swyddi, cyrhaeddiad addysgol, a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig, gan gynnwys yr agenda trechu tlodi.

7. Mae datblygu cynaliadwy yn ganolog i bolisïau Diwylliant a Chwaraeon, gan gydbwyso anghenion byrdymor dybryd a buddiannau hirdymor pobl Cymru. Er enghraifft, mae cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn rhan annatod a phwysig o'n hymgyrch fel Llywodraeth i godi lefelau gweithgarwch corfforol yng Nghymru a gwella iechyd a lles y genedl, gan helpu i atal y galw am wasanaethau iechyd rhag cynyddu yn y dyfodol.

**Newidiadau i'r Gyllideb - Refeniw**

8. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi effaith y gostyngiadau cyllidebol sydd bron yn arian parod ar sefydliadau mewnol ac allanol wrth gymharu Cyllideb Sylfaenol 2015-16 â chynigion Cyllideb Ddrafft 2016-17:

| **Sefydliad** | **Cyllideb Sylfaenol 2015-16 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2016-17 £'000** | **% y gostyngiad** |
|---|---|---|---|
| **Refeniw (Bron yn Arian Parod):** | | | |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 31,671 | 30,171 | 4.7 |
| Amgueddfa Cymru (Nodyn 1) | 21,886 | 21,003 | 4.0 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 9,721 | 9,261 | 4.7 |
| Chwaraeon Cymru | 22,373 | 21,313 | 4.7 |
| Cadw | 8,915 | 7,712 | 13.5 |
| Gwasanaethau Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 2,193 | 1,754 | 20.0 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 1,712 | 1,531 | 10.6 |
| Cyngor Llyfrau Cymru | 3,526 | 3,152 | 10.6 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 650 | 581 | 10.6 |

Nodyn 1: mae'r gostyngiad o 4% i gyllideb yr Amgueddfeydd Cenedlaethol yn adlewyrchu cyllid Buddsoddi i Arbed ychwanegol o £0.154m yn 2016-17 i'w fuddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni. Os caiff hwn ei hepgor, mae'r llinell sylfaen yn gostwng 4.7%.

**Newidiadau i'r Gyllideb - Cyfalaf**

9. Mae cyfanswm y gyllideb gyfalaf, sef £9.634m, £0.070m yn is na'r gyllideb gyfalaf sylfaenol ar gyfer 2015-16. Mae hyn i'w briodoli'n llwyr i ad-daliadau o gyllid Buddsoddi i Arbed sy'n ddyledus gan yr Amgueddfeydd Cenedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol mewn perthynas â buddsoddiadau mewn effeithlonrwydd ynni.

10. Yn 2015-16, cafwyd dyraniadau un-tro o £5m i Gynllun Benthyca Cyfalaf ar gyfer Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden; a £0.2m i Lyfrgell Genedlaethol Cymru er mwyn creu gofod storio ychwanegol, ynghyd â mwy o ofod swyddfa er mwyn galluogi Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru i adleoli i safle'r Llyfrgell Genedlaethol. Nid yw'r symiau hyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau cyfalaf sylfaenol a nodir yn y tabl ym mharagraff 4 uchod.

11. Hefyd, o gymharu â Chyllideb Atodol 2015-16, gwnaed addasiad o £0.500m yng Nghyllideb Ddrafft 2016-17 o'r Cam Gweithredu *Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd* i BEL Cadw yng Ngham Gweithredu *Yr Amgylchedd Hanesyddol a Naturiol*. Mae hyn yn adfer y cyllidebau sylfaenol ar gyfer y ddau Gam Gweithredu hyn yn dilyn trosglwyddiad anghylchol a wnaed yng Nghyllideb 2015-16 er mwyn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer rhaglen ailddatblygu Sain Ffagan.

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol

12. Mae'r cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn cefnogi darpariaeth ar gyfer unrhyw daliadau pensiwn y gallai fod angen eu gwneud ar gyfer cynlluniau pensiwn Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae cyllideb 2016-17 o £3.013m yr un fath â chyllideb 2015-16. Cyllideb nad yw'n arian parod yw hon.

## YMATEBION I'R WYBODAETH BENODOL Y GOFYNNODD Y PWYLLGOR AMDANI

13. Mae'r ymatebion i'r wybodaeth benodol y gofynnodd y Pwyllgor amdani fel a ganlyn:

## Cyflwyno'r gyllideb

14. Mae copi o Gyllideb Ddrafft 2016-17, wedi'i dadansoddi fesul Llinell Wariant, wedi'i atodi yn Atodiad B.

## Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

15. Wrth baratoi ar gyfer cyfyngiadau ariannol yn y dyfodol, rydym wedi ceisio targedu buddsoddiad er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau gwario yn parhau i ganolbwyntio ar ein prif flaenoriaethau, sef: iechyd a gwasanaethau iechyd; twf a swyddi; cyrhaeddiad addysgol; a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Bydd hyn yn cynnwys buddsoddiad yn y broses o gyflawni ymrwymiadau parhaus y Rhaglen Lywodraethu.

16. Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig ag amseriad hwyr Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant, rydym wedi defnyddio'r broses o gynllunio ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2016-17 fel cyfle i edrych i'r dyfodol

er mwyn targedu buddsoddiad mewn canlyniadau cynaliadwy a mabwysiadu'r pum ffordd allweddol o weithio a nodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin i gyrff cyhoeddus drwy bennu saith nod llesiant i Gymru, ac mae'r pum ffordd o weithio yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn arddel safbwynt hirdymor wrth wneud penderfyniadau; eu bod yn ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn atal problemau rhag codi yn y dyfodol neu atal problemau presennol rhag gwaethygu; eu bod yn mabwysiadu dull integredig a chydweithredol o wneud penderfyniadau; a'u bod yn cynnwys defnyddwyr yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

17. Gellir cyflawni holl ymrwymiadau eraill y Rhaglen Lywodraethu gan ddefnyddio'r gyllideb sydd ar gael. Er y bydd pwysau ar gyllidebau, rhaid blaenoriaethu'r gwaith yn unol â'r cyllidebau cyffredinol. Byddwn yn pwysleisio i'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ei bod yn bwysig iddynt roi blaenoriaeth i gyflawni ein hymrwymiadau.

18. Rydym yn monitro i ba raddau y cyflawnir ymrwymiadau a'u canlyniadau cysylltiedig drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys fy nghyfarfodydd â Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr y cyrff a noddir, a'r trafodaethau yn y cyfarfodydd Monitro Chwarterol a gynhelir gyda swyddogion. Cynhelir gwerthusiadau o bryd i'w gilydd ac fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau dymunol yn cael eu cyflawni a bod y buddsoddiadau'n darparu gwerth am arian.

**Polisïau allweddol**

<u>Dyraniadau cyllidebol</u>

19. Mae trafodaethau am gyllidebau yn y dyfodol a goblygiadau unrhyw doriadau cyllidebol yn rhan o'r ddeialog barhaus a gynhelir â Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Cynhelir trafodaethau gyda swyddogion bob chwarter mewn cyfarfodydd monitro, lle maent yn eitem sefydlog ar yr agenda. Hefyd, rwyf yn trafod materion cyllido a chyllidebol yn ystod fy nghyfarfodydd chwe misol â Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr pob corff. Yna, fel rhan o'r penderfyniadau a wneir wrth bennu cyllidebau, caf gynrychiolaethau gan bob un o'r prif Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, drwy fy swyddogion, ar y materion sy'n eu hwynebu a pha effaith y byddai toriadau cyllidebol yn ei chael.

<u>Gweithredu'r Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol</u>

20. Mae Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru yn nodi sut mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran swyddi a sgiliau, lles economaidd a datblygu cynaliadwy; cyfranogiad cyhoeddus a gwella mynediad; gwella a chefnogi cyrhaeddiad addysgol; trechu tlodi a gwella cyfleoedd bywyd.

21. Mae llawer o gamau gweithredu "mawr" y Strategaeth eisoes wedi'u cyflawni, gan gynnwys y Fframwaith Archaeoleg Gymunedol, Cynllun

Dehongli Treftadaeth Cymru Gyfan, gwelliannau i'r ddarpariaeth Dysgu Gydol Oes, cynnal menter Drysau Agored yn fewnol, a'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth sydd wedi cael £19m gan yr UE, yr amcangyfrifir ei fod wedi creu dros 1,000 o swyddi a chefnogi bron 300 o swyddi adeiladu, yn ogystal â chyflwyno £19m ychwanegol i mewn i'r economi.

22. Mae prosiectau eraill, fel y gofrestr o Feysydd Brwydrau a chais y Diwydiant Llechi am statws Safle Treftadaeth y Byd, yn cael eu cynnal mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn y sector, ac felly bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau hyn yn is i Cadw.

23. Mae dyraniad cyllidebol Cadw wedi gostwng fel a ganlyn:

| | **2015-16 £'000** | **2016-17 £'000** | **% y newid** |
|---|---|---|---|
| Cyllideb refeniw - bron yn arian parod | 14,215 | 13,912 | (2.1) |
| Incwm | (5,300) | (6,200) | 17.0 |
| **Cyllideb refeniw sydd bron yn arian parod net** | **8,915** | **7,712** | **(13.5)** |
| Cyfalaf | 4,791 | 4,791 | - |
| | | | |
| **Cyfanswm y gyllideb** | **13,706** | **12,503** | **(8.8)** |

24. Caiff y rhan fwyaf o'r gostyngiad o 13.5% yn y gyllideb refeniw sydd bron yn arian parod ei gwmpasu gan y cynnydd a ragwelir yn ffigurau incwm Cadw. Cyllidebwyd incwm o £5.3m ar gyfer eleni. Fodd bynnag, mae gwaith Cadw bellach wedi'i rannu rhwng dwy uned weithredu, gydag un yn gyfrifol am reoli henebion a'r llall yn gyfrifol am rôl statudol Cadw. Mae gwahanol Ddirprwy Gyfarwyddwyr yn gyfrifol am bob un, ac mae mentrau newydd i ddenu rhagor o ymwelwyr - gan gynnwys gwaith i gwblhau'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth - wedi golygu bod yr incwm a ragwelir ar gyfer y flwyddyn hon wedi cynyddu i £5.7m. Mae effaith y rhain drwy'r flwyddyn gyfan, ynghyd â chynnydd arfaethedig mewn prisiau y flwyddyn nesaf, wedi arwain at darged incwm o £6.2m ar gyfer y flwyddyn nesaf.

25. Felly, caiff y gostyngiad i'r gyllideb gwariant refeniw ei gyfyngu i 2.1%. Mae'r gyllideb wedi cael ei diogelu rywfaint i adlewyrchu'r ffaith y bydd costau ychwanegol ynghlwm wrth gyflwyno Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Mae cyllideb Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi gostwng 10.6%. Fodd bynnag, caiff y cydbwysedd cyllid o fewn y Cam Gweithredu hwn rhwng Cadw a'r Comisiwn Brenhinol ei adolygu ar sail yr union gostau sydd ynghlwm wrth gyflwyno'r Bil, a'r elfennau a all gael eu cyflawni gan y Comisiwn.

<u>Gweithredu darpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)</u>

26. Amcangyfrifir y bydd angen gwariant ychwanegol o hyd at £0.230m yn 2016-17 er mwyn gweithredu Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Y gost reolaidd wedi hynny fydd hyd at £0.197m y flwyddyn. Caiff y costau hyn eu talu gan ddefnyddio llinell gyllideb Cadw. Yn dibynnu ar unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol yn ystod Cam 3, mae'n bosibl y bydd costau canlyniadol ychwanegol.

27. Pennwyd y gyllideb gyffredinol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol i ystyried y cynnydd a ragwelir mewn incwm a'r gostyngiadau gofynnol mewn gwariant fel y nodir uchod; ynghyd â blaenoriaethu'r cyllid uchod er mwyn gweithredu'r Bil.

<u>Dyraniadau ar gyfer Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru</u>

28. Mae cyllideb refeniw sylfaenol y ddau gorff wedi gostwng 4.7% ar gyfer 2016-17. Mae cyfanswm gostyngiad yr Amgueddfeydd Cenedlaethol, sef 4.0%, yn is o ganlyniad i ddyraniad net o £0.154m o gyllid Buddsoddi i Arbed ar gyfer buddsoddiadau mewn effeithlonrwydd ynni, sy'n ad-daladwy. Mae darparu mynediad am ddim i'r sefydliadau hyn yn parhau i fod yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

29. Mae'r cyllid cyfalaf ar gyfer gwaith cynnal a chadw wedi parhau yr un fath, gyda'r Amgueddfeydd Cenedlaethol yn cael £0.600m a'r Llyfrgell Genedlaethol yn cael £0.55m. Hefyd, bydd yr Amgueddfeydd Cenedlaethol yn cael £1m ar gyfer y prosiect sydd ar waith i ailddatblygu Sain Ffagan, sy'n un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ac sydd hefyd yn cael £12m o gyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Ni ddyrennir cyllidebau cyfalaf i'r cyrff ar gyfer grantiau prynu sbesimenau fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft. Trosglwyddwyd y symiau hyn i arweinwyr strategol y cam gweithredu gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd, a chaiff penderfyniadau eu gwneud wedyn ynglŷn â sut y caiff y cyllid cyfalaf hwn ei ddyrannu yn 2016-17.

<u>Gwybodaeth am lefel y cyllid a ddarperir i weithredu Strategaeth *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*, *Strategaeth Amgueddfeydd Cymru* ac *Archifau ar gyfer yr 21ain Ganrif*, gan gynnwys sut mae hyn yn cysylltu â chanlyniadau'r strategaethau hyd yma a'u canlyniadau yn y dyfodol</u>

<u>Sut mae argymhellion yr *Adolygiad arbenigol o ddarpariaeth amgueddfeydd lleol* a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi dylanwadu ar ddyraniadau.</u>

30. Caiff y mentrau hyn eu cyllido gan ddefnyddio'r dyraniad cyllidebol ar gyfer arweinwyr strategol y gwasanaethau Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd. Gellir crynhoi'r cyllidebau ar gyfer y Cam Gweithredu hwn fel a ganlyn:

| | 2015-16<br>£'000 | 2016-17<br>£'000 |
|---|---|---|
| Refeniw: | | |
| Rhaglen Grant MALD | 1,693 | |
| Casgliad y Werin | 500 | |
| | | |
| **Cyfanswm Refeniw** | **2,193** | **1,754** |
| | | |
| Cyfalaf: | | |
| Rhaglen Grant MALD | 1,000 | |
| Casgliad y Werin | 50 | |
| | | |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **1,050** | **1,893** |

31. Mae cyllid refeniw wedi gostwng 20%, o £2.193m i £1.754m. Defnyddir y cyllid hwn i weithredu strategaethau cenedlaethol ar gyfer y sector, ynghyd â darparu cymorth parhaus i gyflwyno rhaglen treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru, sydd hefyd yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Er bod cyfanswm y gyllideb wedi gostwng, mae £1.754m i'w ddyrannu o hyd, a bydd y cyllid yn rhoi blaenoriaeth i waith partneriaeth a gwasanaethau cynaliadwy er mwyn cynnal a datblygu'r gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr hyn; ynghyd â dyraniad ar gyfer Casgliad y Werin sydd heb ei gadarnhau eto.

32. £1.893m yw cyfanswm y gyllideb gyfalaf, gan gynyddu o £1.050m ar ôl i grant prynu sbesimenau gwerth £0.843m gael ei drosglwyddo o'r Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol. Mae'r llinell sylfaen wreiddiol o £1.050m yn cynnwys £1m ar gyfer y Rhaglen Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol i'w fuddsoddi mewn moderneiddio llyfrgelloedd cyhoeddus, a chydleoli gwasanaethau; ynghyd â £0.050m ar gyfer Casgliad y Werin.

33. Daw strategaeth *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* i ben yn 2016 ac mae'n cael ei gwerthuso'n annibynnol ar sail ei chanlyniadau a'i chyflawniadau. Bydd y canfyddiadau yn helpu i greu strategaeth llyfrgelloedd ar gyfer y dyfodol, ynghyd â thystiolaeth, gan gynnwys yr Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus. Strategaeth bedair blynedd (2012-16) yw *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*, a gefnogir gan raglen cyllid cyfalaf a refeniw, gyda chanlyniadau sy'n canolbwyntio ar fodelau cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau, mynediad digidol, moderneiddio cyfleusterau llyfrgell, gwella sgiliau llythrennedd a denu'r gynulleidfa.

34. Darparwyd £3.505m o gyllid refeniw a £4.250m o gyllid cyfalaf dros gyfnod y strategaeth i weithredu *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*.

35. Hyd yma, dyrannwyd tua £0.200m y flwyddyn i weithredu *Archifau ar gyfer yr 21ain Ganrif*. Mae'r cyllid hwn wedi cefnogi trefniadau cydweithredol i wella safonau proffesiynol a gwella mynediad i gasgliadau. Bydd y gwaith hwn yn parhau ynghyd â gwaith a

gynlluniwyd i gynyddu cadernid a chynaliadwyedd y gwasanaethau bach ac arbenigol hyn.

36. Caiff *Strategaeth Amgueddfeydd Cymru* ei hadolygu yn 2016 a chaiff strategaeth newydd ei datblygu. Bydd y strategaeth hon yn ystyried canfyddiadau'r Adolygiad Arbenigol o wasanaethau amgueddfeydd lleol. Hyd yma, dyrannwyd tua £0.475m y flwyddyn i weithredu'r strategaeth. Y bwriad yw y bydd y gwaith hwn yn parhau, gan nodi rhaglenni allweddol a fydd yn cynnig cyfleoedd i wella gwasanaethau a datblygu partneriaethau darparu.

37. Bydd yr union ddyraniadau i gefnogi'r strategaethau hyn yn y dyfodol yn cael eu seilio ar gyngor y byddaf yn ei gael gan swyddogion ar y rhaglen i arweinwyr strategol y sectorau hyn.

<u>Sut mae'r angen parhaus i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan yn y celfyddydau a hyrwyddo mynediad i'r celfyddydau mewn ysgolion wedi effeithio ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer y celfyddydau</u>

38. Mae cyllideb cymorth grant Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2016-17 wedi gostwng 4.7%. Yn ogystal â'r cyllid hwn o bortffolio'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cael £1.8m o'r portffolio Addysg a Sgiliau ar gyfer gwaith i weithredu argymhellion adroddiad Dai Smith ar y celfyddydau mewn addysg. Mae'r arian addysg hwn ar gyfer *rhaglen waith benodol*, felly ni ellir ei ddefnyddio i wrthbwyso gostyngiadau eraill i gyllideb y Cyngor; fodd bynnag, mae'n dangos bod cymorth *cyffredinol* Llywodraeth Cymru i'r celfyddydau yn parhau ar lefel uchel, ac na ddylid ei ystyried yn nhermau ein cymorth grant i Gyngor Celfyddydau Cymru yn unig.

39. Bydd Llythyr Cylch Gwaith 2016/17 yn pwysleisio bod yn rhaid parhau i roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan yn y celfyddydau a hyrwyddo mynediad gwell i'r celfyddydau ar gyfer pob grŵp cymdeithasol. Er mwyn gwneud iawn am y gostyngiad yn y gyllideb, bydd yn rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru gyflymu ac ymestyn ei waith er mwyn helpu sefydliadau celfyddydol refeniw i gynhyrchu mwy o incwm eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys yr ystod lawn o opsiynau, gan gynnwys modelau codi arian gwahanol, gweithgareddau masnachol, grantiau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau yn y DU, dyngarwch, nawdd a chyllid gan yr UE.

40. Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn lansio portffolio newydd o sefydliadau refeniw yn fuan. Dros yr wythnosau nesaf, bydd angen iddo benderfynu sut i ddosbarthu ei gymorth grant rhwng y sefydliadau y mae wedi cytuno'n amodol i'w cyllido. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cydnabod nad oedd y ceisiadau am statws sefydliad refeniw yn cynnwys rhyw lawer o gynigion ar gyfer gwaith cydweithredol a phartneriaeth. Yn sgil hyn, rwyf wedi gofyn i Gyngor

Celfyddydau Cymru gymryd camau, lle bo hynny'n briodol, i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau refeniw gydweithio a rhannu adnoddau i raddau mwy fel un o'u hamodau cyllido, er mwyn gwneud i'w gyllid fynd ymhellach, e.e. drwy rannu swyddogaethau cefn swyddfa ac ati.

41. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn dosbarthu arian loteri. O dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006, ni all dosbarthwyr ddefnyddio arian loteri yn lle arian nad ydynt yn ei gael mwyach gan y llywodraeth. Fodd bynnag, mae hawl ganddynt i ddefnyddio arian loteri i ategu arian gan y llywodraeth. Felly, gallai arian Loteri gael ei ddefnyddio i ysgafnhau rhywfaint o'r pwysau cyllid presennol.

<u>Blaenoriaethau ar gyfer polisi'r cyfryngau a darlledu yng Nghymru a sut y caiff y rhain eu hadlewyrchu yn nyraniadau'r gyllideb</u>

42. Caiff cyllid Llywodraeth Cymru i'r diwydiant cyhoeddi a'r cyfryngau ei sianelu drwy Gyngor Llyfrau Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer gwasanaeth newyddion ar-lein yn Gymraeg, Golwg 360, sy'n cael dros 8,500 o ymwelwyr bob dydd ar gyfartaledd, yn ogystal â chymorth ar gyfer cyhoeddiadau newyddion a materion cyfoes cyfrwng Cymraeg, *Golwg, Y Cymro* a *Barn*.

43. Mae'r arian a ddyrennir i'r Cyngor Llyfrau hefyd yn cefnogi cylchgronau Saesneg sy'n ymdrin â sawl maes, gan gynnwys materion cyfoes/diwylliant.

44. Mae ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â darlledu yn ymwneud ag adnoddau staffio (a gyllidir drwy MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu Llywodraeth Cymru) yn hytrach na chyllid rhaglenni o MEG yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

45. Ers yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryder cyson i Lywodraeth y DU am yr effaith a gaiff unrhyw doriadau ariannol mawr eraill ar S4C. Mae'n hanfodol bod gan S4C ddigon o gyllid, yn ogystal ag annibyniaeth olygyddol a rheolaethol.

<u>Effaith toriadau cyllidebol hyd yma ar Gyngor Llyfrau Cymru</u>

46. Mae cyllideb refeniw Cyngor Llyfrau Cymru wedi gostwng £0.200m y flwyddyn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gan beri iddi ostwng o £3.926m yn 2013-14 i £3.526m yn y flwyddyn gyfredol, 2015-16. Mae hyn wedi cael yr effaith ganlynol:

- Llwyddwyd i gynnal nifer y llyfrau a gyhoeddir gyda chymorth Llywodraeth Cymru drwy Gyngor Llyfrau Cymru - ond y prif reswm am hyn yw y cafodd nifer o'r cyhoeddiadau hyn eu comisiynu hyd at dair blynedd yn ôl, cyn unrhyw ostyngiad mewn cyllid grant.

- Mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer yr holl gronfeydd comisiynu a'r ddwy iaith wedi gostwng tua 3% yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16 a bydd hyn yn cael rhywfaint o effaith ar yr hyn a gyhoeddir yn 2017/18 a thu hwnt.

- Arweiniodd y gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael i brosiectau marchnata, ynghyd â'r hinsawdd economaidd bresennol, at ostyngiad o 6.9% mewn gwerthiannau drwy Ganolfan Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd mewn gwerthiannau yn ystod y flwyddyn flaenorol ar ôl i'r Adran Addysg ddarparu cyllid ychwanegol i bob ysgol gynradd yng Nghymru i'w galluogi i brynu deunydd darllen yn y ddwy iaith - mae'r mater hwn, felly, wedi cyfrannu at y gostyngiad.

47. Mae cyllideb Cyngor Llyfrau Cymru yn gostwng £0.374m yn 2016-17. Bydd y gostyngiadau arfaethedig yn arwain at y canlynol:

- Yr angen i Gyngor Llyfrau Cymru ystyried cydbwysedd y cymorth a roddir i awduron Cymreig sy'n ysgrifennu yn Saesneg???? ochr yn ochr â'r cymorth a roddir i gyhoeddiadau cyfrwng Cymraeg. Byddaf yn trafod y mater hwn gyda'r Cyngor; ac

- Mae'n debygol y bydd rhywfaint o ostyngiad yn nifer y llyfrau a gyhoeddir, er y gwneir pob ymdrech i sicrhau arbedion, a darperir cyllid ychwanegol i Gyngor Llyfrau Cymru yn 2015-16 i uwchraddio ei systemau TG.

48. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau am y rôl y gallai Cyngor Llyfrau Cymru ei chwarae wrth gynhyrchu deunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a chyfrwng Cymraeg ar gyfer y cwricwlwm newydd.

49. Hefyd, mae Cyngor Llyfrau Cymru wrthi'n chwilio am gyllid o ffynonellau eraill, gan gynnwys cais i'r Loteri ar gyfer rhaglen datblygu darllenwyr yn Abertawe, a allai liniaru effaith y gostyngiad.

<u>O gofio pryderon y Pwyllgor y llynedd am y gostyngiad refeniw i'r Maes Rhaglenni Gwariant chwaraeon a gweithgarwch corfforol, diweddariad ar yr effaith y mae hyn wedi'i chael hyd yma ar lefelau cyfranogi a sut mae hyn wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer 2016-17.</u>

50. Rydym yn dal i weld cynnydd yng nghanran y plant a'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. O'r Arolwg Chwaraeon Ysgol diwethaf a gynhaliwyd yn 2015, gwyddom fod 48% yn cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos, sef cynnydd o 8% o gymharu â'r arolwg blaenorol yn 2013. Fodd bynnag, erys gwahaniaeth rhwng lefelau cyfranogi merched a bechgyn a bwlch rhwng lefelau cyfranogi mewn ardaloedd difreintiedig o gymharu ag ardaloedd llai difreintiedig.

51. £21.313m yw cyllideb Chwaraeon Cymru ar gyfer 2016-17, sef gostyngiad o 4.7% o gymharu â 2015-16. Rwyf yn trafod â Chwaraeon Cymru sut y gallwn barhau i flaenoriaethu'r rhaglenni a weithredir ganddo, er mwyn cyflawni ein hamcan o gynyddu lefelau cyfranogi a gwireddu'r manteision a ddaw yn sgil hynny o ran lles ac iechyd gwell.

52. Fel budd cyffredinol, mae'r gyllideb ar gyfer Nofio Am Ddim wedi cael ei diogelu ac wedi gweld cynnydd o 1% uwchlaw'r newidiadau cyffredinol i gyllideb DEL Cymru. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn darpariaeth nofio am ddim i blant a phobl ifanc er mwyn darparu cyfleoedd anffurfiol iddynt fod yn egnïol ond ein prif flaenoriaeth yw eu dysgu i nofio. Rydym yn ymrwymedig o hyd i'r uchelgais y bydd pob plentyn yn gallu nofio erbyn iddo gyrraedd ei ben-blwydd yn 11 oed, a'n hymdrech i gynnig cyfleoedd i bobl hŷn fwynhau nofio fel math o weithgarwch corfforol. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn Nofio Am Ddim a'r seilwaith nofio er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau hyn.

Gwaith sydd wedi'i wneud i fonitro a lliniaru effaith y gostyngiad mewn cyllid llywodraeth leol ar y gwasanaethau lleol a ddarperir o fewn eich portffolio (e.e. gwasanaethau llyfrgell, amgueddfeydd ac archifau; gwasanaethau chwaraeon a hamdden lleol; sefydliadau llai a sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio ym meysydd yr amgylchedd hanesyddol a'r celfyddydau)

53. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu pwysau cyllidebol, yn enwedig sut i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau anstatudol. Mater i'r awdurdodau lleol dan sylw yw penderfynu sut y byddant yn pennu eu cyllidebau ar gyfer gwasanaethau anstatudol.

54. Er fy mod yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu pob awdurdod lleol, byddaf yn gweithio i hyrwyddo arfer gorau, o ran meddwl am benderfyniadau mewn ffordd gydlynol sy'n galluogi sefydliadau i wneud penderfyniadau yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

55. Lle bo Awdurdodau Lleol yn ystyried modelau darparu amgen, rwyf yn ffafrio modelau cydweithredol, modelau cydfuddiannol a modelau eraill dim ond fel opsiwn 'llai gwael' o gymharu â chau neu breifateiddio gwasanaethau. Mae fframwaith cenedlaethol yn cael ei ddatblygu i helpu Awdurdodau Lleol i wneud penderfyniadau lleol am briodoldeb modelau amgen mewn meysydd gwasanaeth penodol, ac sy'n nodi'r cymorth ymarferol sydd ar gael i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus, eu gweithlu, dinasyddion a chymunedau wrth wneud penderfyniadau am sut y dylai'r gwasanaethau hynny gael eu dylunio a'u darparu. Mae tri rhag-amod pwysig ar gyfer y gwaith hwn, sef: atebolrwydd i lywodraeth leol; diogelu telerau ac amodau cyflogeion; a pharhau i gydnabod undebau llafur. Bydd y fframwaith hwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i ben ar 13 Ionawr.

56. Rwyf hefyd yn adolygu i ba raddau y mae cyllidebau ar draws Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at wariant ar y celfyddydau a chwaraeon, er mwyn sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf o'r cyllid a ddarperir.

57. Rwyf yn cydnabod bod rhai heriau anodd a phenodol yn bodoli o ran cyllid awdurdodau lleol ym maes y celfyddydau. O'r 69 o sefydliadau refeniw sydd ar restr bresennol Cyngor Celfyddydau Cymru, mae 43 ohonynt hefyd yn cael cyllid gan awdurdodau lleol. Mae'r Cyngor wedi pwysleisio i awdurdodau na chaiff sefydliad celfyddydol ei gynnwys yn y portffolio newydd o sefydliadau refeniw oni bai ei fod yn argyhoeddedig bod gan y sefydliad refeniw ddyfodol hyfyw a chynaliadwy. Os na all awdurdod barhau i ddarparu cyllid a bod hynny yn peryglu sefydlogrwydd ariannol sefydliad, bydd yn rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru ailystyried ei benderfyniad amodol; os nad yw'r sefydliad refeniw yn hyfyw, ni chaiff ei gynnwys yn y portffolio. Fy neges i awdurdodau yw y dylent ymgynghori ac ymgysylltu â Chyngor Celfyddydau Cymru cyn gwneud penderfyniadau am gyllid i'r celfyddydau yn y dyfodol - efallai y bydd y Cyngor yn gallu rhoi cymorth ac, fan lleiaf, gall roi cyngor ar opsiynau darparu eraill posibl, a all alluogi'r gwasanaethau dan sylw i barhau i weithredu.

58. Rwyf wedi dosbarthu canllawiau arfer gorau ar gyfer Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau, a gaiff eu rhedeg gan wirfoddolwyr brwdfrydig ac ymroddedig.

59. Er mwyn monitro effaith y toriadau ariannol ar y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus statudol, mae fy swyddogion yn yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD) yn gweithio gydag awdurdodau lleol i asesu perfformiad o dan Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Mae'r dystiolaeth a gesglir o dan y fframwaith presennol (2014-17) yn cynnwys mesurau canlyniadau ac astudiaethau achos am y tro cyntaf, ac mae'r rhain yn rhoi enghreifftiau gwych o'r gwahaniaeth gwirioneddol y mae llyfrgelloedd yn ei wneud i fywydau pobl.

60. Mae fy swyddogion yn MALD hefyd yn rhoi cyngor a chymorth i wasanaethau llyfrgell awdurdodau lleol mewn perthynas â meysydd fel trosglwyddo asedau i gymunedau, statws ymddiriedolaeth a newidiadau i ddarpariaeth. Cynigir cyngor a chymorth i wasanaethau archifau ac amgueddfeydd mewn perthynas â datblygu gwasanaethau ar y cyd, newid i ymddiriedolaeth, a chynnal safonau statudol.

<u>Sut mae cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac ystyriaeth o'r Gymraeg wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb</u>

61. Ymdrinnir â hyn yn Atodiad A - Asesiad Effaith Integredig Strategol.

<u>Gwariant ataliol</u>

62. Yr enghraifft amlycaf o wariant ataliol yn fy mhortffolio yw gwariant i gynyddu ffitrwydd corfforol. Mae sail dystiolaeth glir sy'n cadarnhau'r cysylltiad rhwng ffitrwydd corfforol a disgwyliad oes iach. Wrth gwrs, mae angen i ni barhau i wella effeithiolrwydd ein gwariant yn y maes hwn, a gwerthuso i ba raddau y caiff cynnydd mewn arferion gweithgarwch corfforol ymhlith pobl ifanc ei gynnal ar ffurf arferion gydol oes, er mwyn i'n gwariant gyflawni ei botensial fel gwariant "ataliol" o ran lleihau gwariant cyhoeddus ar iechyd yn ddiweddarach mewn bywyd.

63. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at ffyrdd eraill y gall y gwariant o fewn fy mhortffolio fod yn wariant ataliol:

- Mae bron pob rhan o'm portffolio (e.e. chwaraeon, y celfyddydau, llyfrgelloedd, treftadaeth a mynediad i'r amgylchedd hanesyddol a naturiol) yn debygol o gyfrannu at les meddyliol. Mae costau salwch meddwl i economi Cymru yn sylweddol. Mae *Y Canllaw Cychwynnol ar gyfer Lles mewn Llyfrgelloedd* yn tynnu sylw at y cyfraniad a wneir i gefnogi iechyd a lles pobl ledled Cymru. Caiff yr ymchwil i'r buddiannau iechyd a ddaw o ymgysylltu'n ddwys â gweithgareddau creadigol a diwylliannol drwy therapi celf a gweithdai a arweinir gan artistiaid ei chydnabod yn eang yn y llenyddiaeth ar effaith ddiwylliannol, ond ni cheir llawer o dystiolaeth ar hyn o bryd ynghylch p'un a fyddai modd sicrhau buddiannau drwy ymgysylltiad llai dwys hefyd, fel mynd i ddigwyddiadau celfyddydol.

- Mae Adroddiad Dai Smith yn 2013, "Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru", yn tynnu sylw at y dystiolaeth ryngwladol sy'n dangos y gall y celfyddydau helpu i wella cyrhaeddiad addysgol, yn enwedig ymhlith plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Gall amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth wneud cyfraniad tebyg. Mae helpu i wella cyrhaeddiad addysgol yn debygol o wella cyfleoedd bywyd pobl ac felly, gall fod yn ataliol o ran gwariant cyhoeddus. Dyma un o'r rhesymau pam rwyf yn gweithio i gynyddu'r cyfraniad y gall y celfyddydau a threftadaeth ei wneud i wella cyrhaeddiad addysgol, drwy:

  (i) gweithio gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i weithredu 'Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau', sef ein cynllun gweithredu pum mlynedd gwerth £20 miliwn sy'n rhoi Adroddiad Smith ar waith, mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru;

  (ii) gweithio i weithredu argymhellion yr adroddiad 'Diwylliant a Thlodi' gan y Farwnes Kay Andrews; a

  (iii) datblygu rhaglen o ddigwyddiadau addysgol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf neu gerllaw, gan gynnwys y canlynol ar gyfer eleni:

- Prosiectau Artistiaid Preswyl yng Nghaer Rufeinig Segontium, Parc le Breos Cwm ym Mhenrhyn Gŵyr (clwstwr Abertawe) ac Abaty Tyndyrn (clwstwr Caerdydd).
- Gweithiodd prosiect Archaeoleg Cyhoeddus Bryn Celli Ddu gyda grwpiau ysgol Cymunedau yn Gyntaf o Gaergybi
- - Prosiect Celf yng Nghastell Caerffili a weithiodd gyda disgyblion o ysgolion yn y clwstwr hwnnw.
- - Prosiect Arglwydd Bute sy'n cysylltu ysgolion yn Butetown â Chastell Coch a Chastell Caerffili
- Ffiliffest - digwyddiad cyfrwng Cymraeg i ysgolion - gyda phlant o sawl ysgol (rhai mewn wardiau Cymunedau yn Gyntaf yng Nghaerffili) yn cymryd rhan mewn digwyddiad dawnsio a pherfformio yng Nghastell Caerffili bob Mehefin. Mae cannoedd o blant ysgol yn cael cyfle i ddawnsio yn y castell a mwynhau yn yr awyr agored. Yn ystod y diwrnod dathlu, mae'r plant yn crwydro'r castell ac yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau celf amrywiol yn yr awyr agored.

64. Mae ymweliadau dysgu "hunan-dywys" â henebion Cadw wedi bod am ddim ers nifer o flynyddoedd. O 2016-17, bydd y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw) yn talu'r gost am ymestyn y ddarpariaeth hon i ymweliadau "dysgu a hwylusir". Mae ymchwil a gasglwyd gan y Sefydliad Gwaddol Addysg yn dangos y gall dysgu ychwanegol drwy'r dulliau hyn gael effaith fawr, yn enwedig yn achos dysgwyr iau, a hynny am gost isel iawn - gan ddatblygu llythrennedd a rhifedd yn ogystal â sgiliau, hyder a hunan-barch:

- Mae Cadw wedi dechrau cynllun peilot gyda'r Gwasanaeth Gwneud Iawn â'r Gymuned (Gwasanaeth Prawf) i weithio ar ei henebion. Dechreuodd y cynllun peilot yn Ninefwr yn ddiweddar gyda nifer fach o droseddwyr, a'r nod yw rhoi rhywbeth i gymunedau lleol a gorfodi troseddwyr i dalu'n ôl i'r gymuned am yr hyn y maent wedi'i wneud.

- Mae gwaith blaenorol â Charchar EM y Parc, y Sefydliad Troseddwyr Ifanc ac unedau cyfeirio disgyblion wedi cyfrannu at amcanion addysg a chyflogaeth Llywodraeth Cymru. Cydnabyddir yn gyffredinol fod addysg, sgiliau a chymwysterau yn bwysig er mwyn atal plant rhag troseddu a lleihau'r risgiau tymor hwy o aildroseddu.

Darpariaeth ar gyfer deddfwriaeth

65. Nodir manylion y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) uchod.

66. Ni wyddom am unrhyw effaith sylweddol a gaiff unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth y DU o fewn y portffolio ar y gyllideb.

**Asesiad Effaith Integredig Strategol**

Sut mae cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac ystyriaeth o'r Gymraeg wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb

Mae'r rhagolwg ar gyfer arian cyhoeddus, o ganlyniad i Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, yn parhau i fod yn heriol. O ganlyniad i bwysau ar draws Llywodraeth Cymru, bu'n anodd gwneud penderfyniadau ar y gyllideb ar gyfer y rhan o'r portffolio sy'n ymwneud â diwylliant a chwaraeon. Wrth wneud y penderfyniadau hynny, ystyriwyd nifer fawr o ffactorau, gan gynnwys yr angen i ddiogelu swyddi cymaint â phosibl, a hynny o fewn y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac ar draws y sectorau ehangach lle maent yn gweithredu; yr angen i ddiogelu buddsoddiad yn y celfyddydau a chwaraeon, yn enwedig o gofio'r buddiannau cymunedol sy'n gysylltiedig â hwy; ynghyd ag ystyriaethau cysylltiedig yn ymwneud â chydraddoldeb, cynaliadwyedd a'r Gymraeg.

Mae natur fy mhortffolio yn golygu y caiff llawer o'r gwaith ei wneud gan y sefydliadau cyflawni a gaiff eu cyllido gennyf. Byddaf yn gofyn i'r cyrff hyn eto eleni, yn eu Llythyrau Cylch Gwaith a'u Llythyrau Cyllido, sicrhau eu bod yn rhoi sylw llawn i ystyriaethau yn ymwneud â chydraddoldeb, cynaliadwyedd a'r Gymraeg yn y penderfyniadau manwl a wnânt ar ddyraniadau cyllidebol, er mwyn sicrhau y caiff unrhyw effeithiau ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig eu lliniaru neu eu lleihau i'r eithaf.

Mae Amgueddfeydd Cenedlaethol, Archifau, Llyfrgelloedd, y Celfyddydau, Diwylliant a Chwaraeon yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac yn addysgu pobl ifanc am ein diwylliant, gan gefnogi twristiaeth a gwella ein henw da rhyngwladol ar yr un pryd. Byddwn yn parhau i gydweithio â'n partneriaid er mwyn lleihau'r effaith ar grwpiau gwarchodedig i'r eithaf.

Gwyddom y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd am wasanaethau lleol sydd o fudd i bobl Cymru. Er mwyn darparu gwasanaethau lleol cynaliadwy fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, bydd yn rhaid cydweithio gan ystyried modelau cyflawni amgen. Yn 2015-16, rwyf wedi gosod amod bod yn rhaid i'm cyllideb gyfalaf, a ddefnyddiwyd yn flaenorol i foderneiddio llyfrgelloedd cyhoeddus, gael ei defnyddio i gydleoli gwasanaethau. Rwyf yn bwriadu parhau â hyn.

Rydym wedi diogelu'r rhaglen Nofio Am Ddim, sy'n annog pobl Cymru i wneud ymarfer corff a mabwysiadu ffyrdd o fyw iach. Er y nodwyd cynnydd yn nifer y bobl dros 60 oed sy'n cymryd rhan, nodwyd gostyngiad yn nifer y rhai dan 16 oed. Hefyd, ceir tystiolaeth i ddangos bod plant mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig yn fwy tebygol o beidio â dysgu nofio erbyn eu pen-blwydd yn 11 oed. Felly, newidiwyd pwyslais y cynllun fel bod awdurdodau lleol yn cael cyllid sy'n cyfateb yn uniongyrchol i nifer y plant o ardaloedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig sydd ganddynt yn eu dalgylch.

Rydym yn cynnal trafodaethau â Chwaraeon Cymru ar y rhaglenni â blaenoriaeth, er mwyn cyflawni ein hamcan o gynyddu lefelau cyfranogi i wireddu'r manteision a ddaw yn sgil hynny o ran lles ac iechyd gwell; ac er mwyn sicrhau bod rhaglenni allweddol sy'n ymwneud â'r agenda cydraddoldeb yn cael eu diogelu, gan gynnwys rhaglenni sy'n ceisio cynyddu lefelau cyfranogi ymhlith merched a phobl o gefndiroedd duon a lleiafrifoedd ethnig.

Caiff tua 80% o'r cymorth grant i Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru ei ddefnyddio i dalu costau staff. O ganlyniad i'r toriadau cyllidebol, a'r angen dilynol i leihau nifer y staff, mae'n debygol y bydd rhai effeithiau, yn enwedig ar staff hŷn.

Caiff y gostyngiad yng nghyllideb Cadw ei wrthbwyso i raddau helaeth gan gynnydd yn yr incwm a gynhyrchir, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i ddiogelu rhaglenni allweddol.

Rydym wedi bod yn flaenllaw wrth ddisgrifio'r rôl rymus y gall y celfyddydau a diwylliant ei chwarae wrth drechu tlodi.  Adlewyrchir hyn yn y ddau adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar *Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru* a *Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru*. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos y rôl bwysig y mae diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau yn ei chwarae wrth ysbrydoli pobl i ddysgu a meithrin sgiliau, ac yn pwysleisio pwysigrwydd gweithgareddau diwylliannol wrth wella dyheadau, uchelgeisiau a rhagolygon plant a phobl ifanc.

Caiff y gwaith hwn ei ddatblygu drwy raglen *Cyfuno*, sy'n canolbwyntio ar helpu unigolion, teuluoedd a chymunedau sy'n byw mewn un neu fwy o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i ymgysylltu'n fwy parhaol â diwylliant a threftadaeth. Bydd hyn yn helpu i ddarparu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer yr ymyriadau diwylliannol mwyaf effeithiol ym maes cyrhaeddiad addysgol, sgiliau, iechyd, a theuluoedd a chymunedau difreintiedig; ac yn sicrhau y caiff diwylliant ei brif ffrydio wrth gynllunio a gwerthuso Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Rwyf yn gweithio gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i roi'r rhaglen hon ar waith mewn ffordd gydlynol.

Bydd y Cynllun ar y Celfyddydau a Dysgu Creadigol (*Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau: cynllun gweithredu ar gyfer Cymru, Mawrth 2015*) yn gweithredu argymhellion adroddiad *Y Celfyddydau mewn Addysg*. Nod y Cynllun yw cynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd ym maes y celfyddydau mewn ysgolion, a gwella cyrhaeddiad drwy greadigrwydd. Mae'n cefnogi tair blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg, sef gwella llythrennedd a rhifedd, a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru a sector y celfyddydau yn chwarae rôl bwysig wrth helpu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant ac maent yn cymryd nifer o gamau gweithredu i sicrhau y gall plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai o ardaloedd difreintiedig, gael budd o weithgareddau celfyddydol a chymryd rhan ynddynt.  Mae hyn yn cynnwys ystyried ffyrdd o ddarparu mynediad am ddim a mynediad wedi'i sybsideiddio i weithgareddau diwylliannol i deuluoedd incwm

isel, a gweithgareddau ar gyfer troseddwyr ifanc. Unwaith eto, rydym yn cynnal trafodaethau â Chyngor Celfyddydau Cymru ar ddiogelu rhaglenni allweddol.

| Spending Programme Area | Baseline Budget 2015-16 £'000 |
|---|---|
| **Revenue** | |
| Arts | 31,835 |
| Museums, Archives and Libraries | 36,170 |
| Sports and Physical Activty | 23,891 |
| Media and Publishing | 3,526 |
| The Historic and Natural Environment | 14,686 |
| **Total Revenue** | **110,108** |
| **Capital** | |
| Arts | 355 |
| Museums, Archives and Libraries | 4,043 |
| Sports and Physical Activity | 345 |
| Media and Publishing | 60 |
| The Historic and Natural Environment | 4,901 |
| **Total Capital** | **9,704** |
| **Total DEL Budget** | |
| Annually Managed Expenditure (Pension Provisions) | 3,013 |
| **Total DEL Budget** | **3,013** |
| **Total Budget** | **122,825** |

**CULTURE AND SPORT - BUDGET BEL TABLE 2016-17 in £'000s**

**REVENUE BUDGET - Departmental Expenditure Limit**

| SPA | Actions | BEL | BEL Number | Baseline Budget 2015-16 £'000 | Change £'000 | Draft Budget 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Support and sustain a strong arts sector via the Arts Council and others** | Support and sustain a strong arts sector via the Arts Council and others | Arts Council of Wales | 5800 | 31,671 | -1,500 | 30,171 |
| | | Arts Council of Wales - Depreciation | 5800 | 119 | 0 | 119 |
| | | Support for the Arts | 5812 | 45 | 0 | 45 |
| | **Total Support and sustain a strong arts sector via the Arts Council and others** | | | **31,835** | **-1,500** | **30,335** |
| **Museums, Archives and Libraries** | Foster Usage and Lifelong Learning through Museum Services | Amgueddfa Cymru - National Museum of Wales | 5540 | 21,886 | -1,037 | 20,849 |
| | | Amgueddfa Cymru - National Museum of Wales - Depreciation | 5540 | 1,120 | 0 | 1,120 |
| | | Amgueddfa Cymru - National Museum of Wales - Invest to Save Funding | 5540 | 0 | 154 | 154 |
| | | **Foster Usage and Lifelong Learning through Museum Services** | | 23,006 | -883 | 22,123 |
| | Foster Usage and Lifelong Learning through Library Services | National Library of Wales | 5660 | 9,721 | -460 | 9,261 |
| | | National Library of Wales - Depreciation | 5660 | 1,250 | 0 | 1,250 |
| | | **Foster Usage and Lifelong Learning through Library Services** | | 10,971 | -460 | 10,511 |
| | Strategic Leadership for museum, archive & library services | Museums, Archives and Libraries | 6170 | 2,193 | -439 | 1,754 |
| | | **Strategic Leadership for museum, archive & library services** | | 2,193 | -439 | 1,754 |
| | **Total Museums, Archives and Libraries** | | | **36,170** | **-1,782** | **34,388** |
| **Delivery of effective sports & physical activity programmes** | Delivery of effective sports & physical activity programmes | Sports Wales | 5900 | 22,373 | -1,060 | 21,313 |
| | | Sport Wales - Depreciation | 5900 | 779 | 0 | 779 |
| | | Support for Culture & Sports | 6012 | 739 | -226 | 513 |
| | **Total Delivery of effective sports & physical activity programmes** | | | **23,891** | **-1,286** | **22,605** |
| **Media and Publishing** | Media and Publishing | Welsh Books Council | 6150 | 3,526 | -374 | 3,152 |
| | **Total Media and Publishing** | | | **3,526** | **-374** | **3,152** |
| **Conserve, protect, sustain and promote access to the historic and natural environment** | Conserve, protect, sustain and promote access to the historic and natural environment | Cadw | 2700 | 8,915 | -1,203 | 7,712 |
| | | Cadw - Depreciation | 2700 | 275 | 0 | 275 |
| | | Cadw - Other non cash | 2700 | 3,000 | 0 | 3,000 |
| | | RCAHM - Running Costs/Current Expenditure | 6200 | 1,712 | -181 | 1,531 |
| | | RCAHM - Depreciation | 6200 | 134 | 0 | 134 |
| | | National Botanic Garden of Wales | 2710 | 650 | -69 | 581 |
| | **Total Conserve, protect, sustain and promote access to the historic environment** | | | **14,686** | **-1,453** | **13,233** |
| | | | | | | |
| | | | | **110,108** | **-6,395** | **103,713** |
| | | **Less Depreciation & other non-cash** | | **-6,677** | **0** | **-6,677** |
| | | **Near Cash** | | **103,431** | **-6,395** | **97,036** |

| | CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Actions** | **BEL** | **BEL Number** | **Baseline Budget 2015-16 £'000** | **Change £'000** | **Draft Budget 2016-17 £'000** |
| **Support and sustain a strong arts sector via the Arts Council and others** | Support and sustain a strong arts sector via the Arts Council and others | Arts Council of Wales - Capital Investment (inc WMC) | 5800 | 355 | 0 | 355 |
| | | Support for the Arts - Capital Investment (inc NBGW) | 5812 | 0 | 0 | 0 |
| | **Total Support and sustain a strong arts sector via the Arts Council and others** | | | **355** | **0** | **355** |
| **Museums, Archives and Libraries** | Foster Usage and Lifelong Learning through Museum Services | Amgueddfa Cymru - NMW - Capital Maintenance Grant | 5540 | 600 | 0 | 600 |
| | | Amgueddfa Cymru - NMW - Specimen Purchase Grant | 5540 | 538 | -538 | 0 |
| | | Amgueddfa Cymru - NMW - St. Fagans | 5540 | 1,000 | 0 | 1,000 |
| | | Amgueddfa Cymru - NMW - Invest to Save Repayment | 5540 | 0 | -45 | -45 |
| | | **Total Foster Usage and Lifelong Learning through Museum Services** | | **2,138** | **-583** | **1,555** |
| | Foster Usage and Lifelong Learning through Library Services | National Library of Wales - Capital Maintenance Grant | 5660 | 550 | 0 | 550 |
| | | National Library of Wales - Specimen Purchase Grant | 5660 | 305 | -305 | 0 |
| | | National Library of Wales - Invest to Save Repayment | 5660 | 0 | -25 | -25 |
| | | **Total Foster Usage and Lifelong Learning through Library Services** | | **855** | **-330** | **525** |
| | Strategic Leadership for museum, archive & library services | Museums, Archives and Libraries | 6170 | 1,050 | 843 | 1,893 |
| | | **Total Strategic Leadership for museum, archive & library services** | | **1,050** | **843** | **1,893** |
| | **Total Museums, Archives and Libraries** | | | **4,043** | **-70** | **3,973** |
| **Delivery of effective sports & physical activity programmes** | Delivery of effective sports & physical activity programmes | Sport Wales | 6010 | 345 | 0 | 345 |
| | **Total Delivery of effective sports & physical activity programmes** | | | **345** | **0** | **345** |
| **Media and Publishing** | Media and Publishing | Welsh Books Council - Capital | | 60 | 0 | 60 |
| | **Total Media and Publishing** | | | **60** | **0** | **60** |
| **Conserve, protect, sustain and promote access to the historic and natural environment** | Conserve, protect, sustain and promote access to the historic and natural environment | Cadw - Capital Expenditure | 2700 | 4,791 | 0 | 4,791 |
| | | RCAHM | 6200 | 15 | 0 | 15 |
| | | National Botanic Garden of Wales | 2710 | 95 | 0 | 95 |
| | **Total Conserve, protect, sustain and promote access to the historic environment** | | | **4,901** | **0** | **4,901** |
| | | | | | | |
| | **Total Capital - Culture and Sport** | | | **9,704** | **-70** | **9,634** |

Tudalen y pecyn 117

| | REVENUE BUDGET - Annually Managed Expenditure | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Actions** | **BEL** | **BEL Number** | **Baseline Budget 2015-16 £'000** | **Change £'000** | **Draft Budget 2016-17 £'000** |
| **Museums, Archives and Libraries** | Museums | Museums Pensions | 5641 | 2,391 | 0 | 2,391 |
| | Libraries | Libraries Pensions | 5781 | 622 | 0 | 622 |
| | **Total Museums, Archives and Libraries** | | | **3,013** | **0** | **3,013** |
| | **Total AME - Culture and Sport** | | | **3,013** | **0** | **3,013** |

| SPA | Actions | BEL | BEL Number | Baseline Budget 2015-16 £'000 | Change £'000 | Draft Budget 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Culture and Sport - Summary** | | | | | |
| | | | | | | |
| | Revenue DEL | | | 110,108 | -6,395 | 103,713 |
| | Capital DEL | | | 9,704 | -70 | 9,634 |
| | **Total DEL** | | | **119,812** | **-6,465** | **113,347** |
| | | | | | | |
| | **Annually Managed Expenditure** | | | **3,013** | **0** | **3,013** |
| | | | | | | |
| | **Total - Culture and Sport** | | | **122,825** | **-6,465** | **116,360** |

# Eitem 4

21 Ionawr 2016 – Papurau i'w nodi

| Rhif papur: | Mater | Oddi wrth | Cam gweithredu |
|---|---|---|---|
| Papurau cyhoeddus i'w nodi | | | |
| 4 | Iaith Gymraeg | Comisiynydd y Gymraeg | Additional information following the meeting on 10 December 2015 |

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

01/03

Dilëwyd: 03

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6 Ionawr 2016

Annwyl Christine

**Sesiwn dystiolaeth ar yr Adroddiad Blynyddol – cwestiynau pellach**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Rhagfyr yn dilyn fy ymddangosiad o flaen y Pwyllgor Cymunedau fis diwethaf.

Roedd eich llythyr yn gofyn rhai cwestiynau pellach na chafodd yr aelodau gyfle i'w trafod yn ystod y sesiwn. Fe atebaf y cwestiynau yn eu trefn.

1. **Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Comisiynydd "*Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol*"** – ar 17 Rhagfyr derbyniais ddiweddariad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar sut mae'r Llywodraeth wedi mynd ati i weithredu'r argymhellion oedd yn yr adroddiad. Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried yr ymateb ar hyn o bryd ac mae gennyf gyfarfod gyda'r Gweinidog ar 6 Ionawr i drafod ymhellach.

2. **Bil Llywodraeth Leol, sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen ar y Gymraeg yng ngweinyddiaeth a datblygu economaidd Llywodraeth Leol** – pe bai ail-strwythuro llywodraeth leol yn digwydd, mae profiad yn dangos bod angen sefydlu arferion da o ran y Gymraeg o'r dechrau. Byddai creu awdurdodau newydd yn cynnig cyfle i sefydlu diwylliant ac arferion gweithio newydd sy'n hyrwyddo'r Gymraeg o'r cychwyn. Mae angen cynllunio manwl ac arweiniad cadarn er mwyn i hynny ddigwydd. Rwyf i a fy swyddogion wedi cael trafodaethau adeiladol gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a gweision sifil hyd yma ac rwy'n croesawu sefydlu'r Grŵp Tasg a Gorffen. Edrychaf ymlaen at dderbyn rhagor o wybodaeth am waith y Grŵp. Yn y cyfamser rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Gwasanaethau Cyhoeddus ac at Rhodri Glyn Thomas AC sydd wedi ei benodi yn gadeirydd y Grŵp yn nodi fy mharodrwydd i gynnig cyngor a chymorth yn ôl yr angen.

3. **Diwygio TAN20 yn dilyn pasio Deddf Cynllunio Cymru 2015** - roedd cynnwys cyfeiriadau at y Gymraeg yn y Ddeddf Cynllunio yn gam pwysig ac yn sicrhau statws statudol i'r Gymraeg yn y gyfundrefn gynllunio am y tro cyntaf. Er mwyn sicrhau bod gofynion y Ddeddf yn cael eu gweithredu, mae'n hanfodol bod y polisi cenedlaethol a'r arweiniad a ddarperir gan y Llywodraeth i'r awdurdodau cynllunio yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r Ddeddf. Fe eglurais hynny wrth roi tystiolaeth yn ystod y broses o graffu ar y Ddeddf. Mae'r Llywodraeth wedi dechrau ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i TAN20 yr wythnos hon. Bydd fy swyddogion yn ystyried y newidiadau yn yr wythnosau nesaf a byddaf yn ymateb i'r ymgynghoriad yn dilyn hynny. Rwy'n disgwyl y bydd TAN20 diwygiedig yn darparu arweiniad llawn ar sut i weithredu'r gofynion newydd ar y Gymraeg yn y Ddeddf. Yn ogystal, er mwyn sicrhau ymdriniaeth briodol a chyson i'r Gymraeg o fewn y gyfundrefn gynllunio, mae angen i'r TAN newydd gynnig methodoleg i alluogi awdurdodau cynllunio asesu effaith eu cynlluniau datblygu a datblygiadau unigol ar y Gymraeg fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf. Ar yr olwg gyntaf, mae gennyf amheuaeth a yw'r TAN newydd yn cyflawni'r gofyniad hwn.

4. **Y ddarpariaeth ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ynghylch ymyrryd â rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg** – fel eglurais yn ystod y sesiwn dystiolaeth, mae'r rhan yma o'r Mesur yn gysyniad newydd a nifer fechan o achosion sydd wedi codi hyd yma. Mae'n bosibl byddai'n ddefnyddiol edrych eto ar y meini prawf maes o law er mwyn sicrhau eglurder i'r sawl sydd am ofyn i'r Comisiynydd ymchwilio i achos. Ar hyn o bryd nid wyf yn teimlo bod digon o dystiolaeth i'm galluogi i ddod i gasgliadau pendant ar hynny. Yn unol â disgwyliadau adran 119 Mesur y Gymraeg byddaf yn cadw digonolrwydd a phriodoldeb y rhan hwn o'r Mesur dan ystyriaeth a phe deuai'n glir bod angen adolygu rhan hwn y Mesur fe fyddwn yn gwneud sylw i'r perwyl hwnnw yn fy adroddiadau blynyddol.

5. **Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r Gymraeg** – rwyf wedi derbyn toriadau ariannol i'm cyllideb dros y 2 flynedd diwethaf, gyda thoriad pellach ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. I'w chymharu â chyllideb o £4,100,000 ar gyfer 2013-14, derbyniwyd toriad o £410,000 (10%) ar gyfer 2014-15 a thoriad o £300,000 (8%) ar gyfer 2015-16. Er nad yw cyllideb drafft Llywodraeth Cymru yn nodi'n benodol beth fydd y gyllideb ar gyfer 2016-17, derbyniais lythyr gan y Prif Weinidog ar 23 Rhagfyr yn fy hysbysu o doriad arall o 10%. Byddai hyn yn doriad pellach o £339,000, gan adael cyllideb flynyddol o £3,051,000. Golyga hynny bydd y sefydliad wedi derbyn toriadau mewn termau ariannol o 26% mewn 3 blynedd (32% mewn termau real ar ôl ystyried effaith chwyddiant). Er mwyn lliniaru effaith y toriadau nododd y Prif Weinidog yn ei lythyr y byddai £150,000 yn ychwanegol ar gael ar gyfer 2015-16 er mwyn fy ngalluogi i rag-gynllunio a gosod seiliau ar gyfer y rhaglen dreigl heriol sydd i ddod yng nghyswllt Safonau'r Gymraeg.

03/03

Dilëwyd: 03

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Hyderaf bod yr ymateb hwn yn delio gyda'r cwestiynau ychwanegol oedd gan y Pwyllgor. Mae croeso i chi gysylltu gyda mi os oes unrhyw fater arall yr hoffech ei drafod.

Yn gywir,

Dilëwyd: ¶
¶

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon